Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Glastir

Y Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru

# Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Canllaw Technegol 2015



© Hawlfraint y Goron 2013
ISBN digidol 978 1 4734 0267 6
WG20573

# Cynnwys


Cyflwyniad........................................................................................................ 1
Tabl Crynhoi'r Opsiynau Rheoli........................................................................ 2

**Rhan 1: Trawsgydymffurfio.................................................................. 8**

**Rhan 2: Cod y Fferm Gyfan................................................................... 9**

**Rhan 3: Opsiynau Rheoli Glastir Sylfaenol ....................................... 19**
**Adran 1 – Cyflwyniad.................................................................................. 19**
Lefelau Stocio.................................................................................................. 19
Ardaloedd Gwarchod....................................................................................... 20

**Adran 2 – Amcanion a nodau........................................................................ 21**

**Adran 3 – Gofynion pob Opsiwn Rheoli....................................................... 23**

**Adran 4 – Pecynnau Rhanbarthol................................................................. 68**
Abertawe (Cod N)............................................................................................ 69
Bannau Brycheiniog (Cod B)........................................................................... 70
Bro Morgannwg (Cod O).................................................................................. 71
Ceredigion (Cod D).......................................................................................... 72
Conwy a Sir Ddinbych (Cod E)........................................................................ 73
Cymoedd y De (Cod M).................................................................................... 74
De Powys (Cod L)............................................................................................. 75
Eryri (Cod K).................................................................................................... 76
Gogledd Powys (Cod I).................................................................................... 77
Gwynedd (Cod G)............................................................................................. 78
Mynwy a Chasnewydd (Cod H)........................................................................ 79
Sir Benfro (Cod J)............................................................................................ 80
Sir y Fflint a Wrecsam (Cod F)......................................................................... 81
Sir Gaerfyrddin (Cod C).................................................................................... 82
Ynys Môn (Cod A)............................................................................................ 83

**Adran 5 – Porthi Atodol ar Dir mewn Opsiynau Cynefin.................................. 84**

**Adran 6 – Caniatâd, Ymgynghori a Gofynion Cyfreithiol................................. 85**

**Atodiad 1:** Gofynion Cyfreithiol a Chaniatadau.............................................. 87
**Atodiad 2:** Templedi'r Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith – Glastir Sylfaenol ... 88
**Atodiad 3:** Hawliau Tramwy Cyhoeddus......................................................... 99
**Atodiad 4:** Manylebau Technegol ar gyfer Gwaith Cyfalaf............................. 100
1. Ffensys.......................................................................................................... 100
2. Creu Pwll....................................................................................................... 102
3. Giardiau coed ar gyfer coed mewn perllannau neu goed unigol.................... 104
4. Blychau Bach................................................................................................. 106
5. Blychau Nythu Tylluanod Gwynion................................................................ 111

# Canllaw Technegol Glastir Sylfaenol

Hwn yw'r ail o ddau Lyfryn Esboniadol sy'n egluro Glastir Sylfaenol.  Mae'r llyfryn hwn yn ganllaw technegol i'r cynllun ac yn rhoi gwybodaeth fanwl am ofynion Cod y Fferm Gyfan a phob un o'r Opsiynau Rheoli.  Mae'r llyfryn cyntaf yn ganllaw cyffredinol. Enw hwnnw yw *Llyfryn 1 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Cyffredinol.*

Mae Glastir Sylfaenol wedi'i rannu'n dair elfen:

1. **Trawsgydymffurfio** - set o ofynion y mae'n rhaid ichi eu cadw ar eich holl dir amaethyddol ac sy'n cael eu disgrifio yn Rhan 1 y llyfryn hwn.

2. **Cod y Fferm Gyfan** - set o ofynion gorfodol ar gyfer yr holl dir sydd o dan y contract. Ewch i Ran 2 y Llyfryn hwn am fwy o fanylion.

3. **Opsiynau Rheoli** - set o ofynion rheoli tir ar gyfer cwrdd ag amcanion y cynllun. Cewch fwy o fanylion yn Rhan 3 y llyfryn hwn.  Fe welwch dabl cyfeirio hwylus ar y dudalen nesaf.

### Dyddiaduron Gwaith a Stocio

Bydd gofyn cofnodi rhai o weithgareddau Cod y Fferm Gyfan a'r Opsiynau Rheoli mewn Dyddiadur Gwaith a / neu Ddyddiadur Stocio.  Mae yna dempledi o'r Dyddiadur Gwaith a'r Dyddiadur Stocio yn Atodiad 2 a chewch gopïau ohynynt ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk neu gan eich Swyddfa Ranbarthol.

Rhaid cadw Dyddiaduron Gwaith a Stocio a rhaid dilyn patrwm y templedi rydym wedi'u darparu.  Dangosir elfennau Cod y Fferm Gyfan a'r Opsiynau Rheoli y bydd angen eu cofnodi yn y Dyddiadur Gwaith a / neu'r Dyddiadur Stocio yng Nghod y Fferm Gyfan (Rhan 2) yn nhabl crynhoi'r Opsiynau Rheoli ar dudalen 2 ac wrth bob Opsiwn Rheoli.

Mae'r gofyn i gadw Dyddiadur Gwaith a / neu Ddyddiadur Stocio yn ychwanegol at y dogfennau eraill sydd eu hangen fel tystiolaeth o'r Opsiynau Rheoli, er enghraifft derbynebau'r deunydd sydd wedi'i brynu, labeli hadau a thystysgrifau pedigri anifeiliaid. Cofiwch, mae rhan o daliad Glastir yn dâl unswydd ichi ar gyfer cadw'r cofnodion hyn.

**TABL CRYNHOI'R OPSIYNAU RHEOLI**

| Opsiwn Rheoli | | Uned | Pwyntiau fesul uned, Glastir Sylfaenol | Pwyntiau fesul uned, Pecyn Rhanbarthol | Pwyntiau fesul uned, Godro | Uchafswm pwyntiau, canran | A oes angen caniatâd – Gweler Atodiad 1 | Ar Ddyddiadur; Stocio (S), Gwaith (G), Ffotograff (Ff) | Parseli cyfan yn unig | Gwaith cyfalaf | Ar gael ar dir wedi'i wella (w) neu dir Cynefin (c) | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni ar dir sydd wedi'i wella | M | 2.11 | 2.31 | 2.31 | 100 | ✓ | | | ✓ | W | 23 |
| 1B | Creu coridor 2 fetr o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni ar dir sydd wedi'i wella. | M | 1.7 | 1.9 | 1.9 | 75 | ✓ | | | ✓ | W | 23 |
| 2 | Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys clawdd, a phlannu coed a llwyni | M | 3.87 | 4.25 | 4.25 | 100 | ✓ | | | ✓ | W | 24 |
| 2B | Creu coridor 2 fetr o led sy'n cynnwys clawdd, a phlannu coed a llwyni. | M | 3.4 | 3.75 | 3.75 | 75 | ✓ | | | ✓ | W | 25 |
| 3 | Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed | $M^2$ | 0.33 | 0.36 | 0.36 | 75 | ✓ | | | ✓ | W | 25 |
| 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) | M | 0.132 | 0.145 | 0.145 | 30 | | G | | | W / C | 28 |
| 4B | Rheoli perthi terfyn allanol (un ochr yn unig) | M | 0.066 | 0.072 | 0.072 | 30 | | G | | | W / C | 28 |
| 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) | M | 0.25 | 0.272 | 0.272 | 40 | | G | | | W / C | 29 |
| 6 | Codi ffens ddwbl 3 metr o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5 metr o'r canol) | M | 1.63 | 1.79 | 1.79 | 30 | ✓ | G / Ff | | ✓ | W / C | 29 |

| Opsiwn Rheoli | | Uned | Pwyntiau fesul uned, Glastir Sylfaenol | Pwyntiau fesul uned, Pecyn Rhanbarthol | Pwyntiau fesul uned, Godro | Uchafswm pwyntiau, canran | A oes angen caniatâd – Gweler Atodiad 1 | Ar Ddyddiadur; Stocio (S), Gwaith (G), Ffotograff (Ff) | Parseli cyfan yn unig | Gwaith cyfalaf | Ar gael ar dir wedi'i wella (w) neu dir Cynefin (c) | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6B | Codi ffens ddwbl 2 fetr o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1 metr o'r canol) | M | 1.25 | 1.4 | 1.4 | 30 | ✓ | G / Ff | | ✓ | W / C | 30 |
| 7A | Creu coridor newydd ar un lan nant ar dir wedi'i wella. | M | 1.14 | 1.25 | 1.25 | 50 | ✓ | G | | ✓ | | 32 |
| 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella. | M | 1.14 | 1.35 | 1.25 | 75 | ✓ | G | | ✓ | | 32 |
| 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant | $M^2$ | 0.25 | 0.28 | 0.28 | 75 | | G | | | C | 33 |
| 9A | Creu coridor newydd ar un lan nant ar dir wedi'i wella, a phlannu coed | M | 1.3 | 1.43 | 1.43 | 50 | ✓ | G | | ✓ | | 33 |
| 9B | Creu coridor glan nant newydd ar dir wedi'i wella bob ochr i gwrs dŵr, a phlannu coed | M | 1.3 | 1.43 | 1.43 | 75 | ✓ | G | | ✓ | | 33 |
| 10 | Troi tir âr sydd â safleoedd archeolegol yn borfa barhaol | $M^2$ | 0.017 | 0.017 | 0.017 | 60 | ✓ | | | | W | 34 |
| 11 | Adfer perllan draddodiadol | Coeden | 18.9 | 18.9 | 18.9 | 50 | ✓ | G / Ff | | ✓ | | 35 |
| 12 | Creu perllan newydd ar dir wedi'i wella | Coeden | 17 | 17 | 17 | 50 | ✓ | G / Ff | | ✓ | W | 36 |
| 13 | Plannu coed brodorol unigol ar dir wedi'i wella | Coeden | 11.5 | 11.5 | 11.5 | 50 | ✓ | | | ✓ | W | 38 |
| 14 | Ymrwymo i chwistrellu 100% o'r slyri | Ha | 17 | 17 | 17 | 100 | ✓ | G | | | W | 40 |
| 14B | Ymrwymo i chwistrellu 75% o'r slyri | Ha | 12.5 | 12.5 | 12.5 | 75 | ✓ | G | | | W | 40 |
| 15 | Tir pori parhaol heb fewnbynnau | Ha | 86 | 94 | 94 | 50 | ✓ | G | | | W / C | 41 |
| 15B | Tir pori parhaol ag ychydig o fewnbynnau | Ha | 49 | 54 | 54 | 50 | ✓ | G | | | W / C | 41 |

| Opsiwn Rheoli | | Uned | Pwyntiau fesul uned, Glastir Sylfaenol | Pwyntiau fesul uned, Pecyn Rhanbarthol | Pwyntiau fesul uned, Godro | Uchafswm pwyntiau, canran | A oes angen caniatâd – Gweler Atodiad 1 | Ar Ddyddiadur; Stocio (S), Gwaith (G), Ffotograff (Ff) | Parseli cyfan yn unig | Gwaith cyfalaf | Ar gael ar dir wedi'i wella (w) neu dir Cynefin (c) | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15C | Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynnau a phori cymysg | Ha | 98 | 106 | 106 | 100 | ✓ | S / G | ✓ | | W / C | 41 |
| 15D | Tir pori parhaol ag ychydig o fewnbynnau a phori cymysg | Ha | 61 | 66 | 66 | 50 | ✓ | S / G | ✓ | | W / C | 42 |
| 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel | Ha | 97 | 107 | 107 | 80 | ✓ | | | | C | 42 |
| 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg | Ha | 109 | 119 | 119 | 100 | ✓ | S | ✓ | | C | 43 |
| 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad | Ha | 71 | 77 | 77 | 80 | ✓ | S / G | ✓ | | C | 43 |
| 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg | Ha | 83 | 89 | 89 | 100 | ✓ | S / G | ✓ | | C | 44 |
| 21 | Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori | Ha | 124 | 135 | 135 | 80 | ✓ | S / G | ✓ | | C | 45 |
| 21B | Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori â phori cymysg | Ha | 136 | 147 | 147 | 100 | ✓ | S / G | ✓ | | C | 45 |
| 22 | Cynnal gweirgloddiau | Ha | 140 | 154 | 154 | 80 | ✓ | S / G | | | | 46 |
| 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd | $M^2$ | 0.139 | 0.153 | 0.153 | 60 | ✓ | | ✓ | | W | 46 |
| 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella | M | 0.94 | 1.03 | 1.03 | 75 | ✓ | | ✓ | | W | 47 |
| 25 | Rheoli twyni tywod | Ha | 103 | 112 | 112 | 75 | ✓ | S | ✓ | | C | 47 |
| 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg | Ha | 115 | 124 | 124 | 100 | ✓ | S | ✓ | | C | 48 |
| 26 | Creu ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr | $M^2$ | 0.053 | 0.057 | 0.057 | 65 | ✓ | G | | | W | 48 |

| Opsiwn Rheoli | | Uned | Pwyntiau fesul uned, Glastir Sylfaenol | Pwyntiau fesul uned, Pecyn Rhanbarthol | Pwyntiau fesul uned, Godro | Uchafswm pwyntiau, canran | A oes angen caniatâd – Gweler Atodiad 1 | Ar Ddyddiadur; Stocio (S), Gwaith (G), Ffotograff (Ff) | Parseli cyfan yn unig | Gwaith cyfalaf | Ar gael ar dir wedi'i wella (w) neu dir Cynefin (c) | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26B | Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr | $M^2$ | 0.035 | 0.038 | 0.038 | 65 | ✓ | G | | | W | 49 |
| 27 | Ymylon o wyndwn | $M^2$ | 0.046 | 0.057 | 0.057 | 65 | ✓ | G | | | W | 50 |
| 28 | Cadw sofl dros y gaeaf | Ha | 122 | 122 | 122 | 70 | ✓ | S / G | | | W | 50 |
| 29 | Hau cnwd o dan ydau gwanwyn wrth gwrs dŵr | Ha | 356 | 356 | 356 | 80 | ✓ | G | | | W | 51 |
| 30 | Ydau gwanwyn neu godlysiau heb eu chwistrellu | Ha | 259 | 284 | 284 | 70 | ✓ | G | | | W | 52 |
| 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf | Ha | 400 | 440 | 440 | 75 | ✓ | S / G | | | W | 52 |
| 32 | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella | Ha | 334 | 367 | 367 | 45 | ✓ | G | | | W | 53 |
| 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella, heb ddrilio. | Ha | 452 | 497 | 497 | 45 | ✓ | G | | | W | 53 |
| 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella | Ha | 550 | 604 | 604 | 60 | ✓ | G | | | W | 54 |
| 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu | $M^2$ | 0.047 8 | 0.0525 | 0.052 5 | 60 | ✓ | G | | | W | 55 |
| 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na'i chwistrellu | $M^2$ | 0.040 5 | 0.0445 | 0.044 5 | 60 | ✓ | G | | | W | 56 |

| Opsiwn Rheoli | | Uned | Pwyntiau fesul uned, Glastir Sylfaenol | Pwyntiau fesul uned, Pecyn Rhanbarthol | Pwyntiau fesul uned, Godro | Uchafswm pwyntiau, canran | A oes angen caniatâd – Gweler Atodiad 1 | Ar Ddyddiadur; Stocio (S), Gwaith (G), Ffotograff (Ff) | Parseli cyfan yn unig | Gwaith cyfalaf | Ar gael ar dir wedi'i wella (w) neu dir Cynefin (c) | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu – maint amrywiol | $M^2$ | 200 plws 0.51/ $M^2$ ar gyfer pob $m^2$ dros 25 $M^2$ | 200 plws 0.56/ $M^2$ ar gyfer pob $M^2$ dros 25 $M^2$ | 200 plws 0.56/ $M^2$ ar gyfer pob $M^2$ dros 25 $M^2$ | 50 | ✓ | | | ✓ | W | 57 |
| 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau | M | 1.34 | 1.47 | 1.47 | 50 | ✓ | | | ✓ | W / C | 58 |
| 37 | Bridiau Prydeinig brodorol prin | UDB | 49 | 49 | 49 | 40 | | S | | | | 58 |
| 38 | Blychau nythu / ystlumod newydd | Blwch | 5.95 | 5.95 | 5.95 | 100 | | | | ✓ | | 60 |
| 39 | Rheoli prysgwydd, coed ifanc a llystyfiant ymledol i ddiogelu nodweddion hanesyddol trwy eu torri at eu bôn a thrin y gwreiddiau yn y fan a'r lle | $M^2$ | 0.021 8 | 0.0218 | 0.021 8 | 50 | ✓ | G | | | W / C | 60 |
| 40 | Cynnal y ffens bresennol o amgylch coetir di-stoc | M | 0.137 | 0.15 | 0.15 | 30 | ✓ | | | | C | 61 |
| 41A | Rheoli pori ar dir agored | Ha | 53 | 58 | 58 | 100 | | S | ✓ | | C | 61 |
| 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg | Ha | 65 | 71 | 71 | 100 | | S | ✓ | | C | 61 |
| 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys | M | 2.25 | 2.5 | 2.5 | 30 | ✓ | G | | ✓ | | 62 |

| Opsiwn Rheoli | | Uned | Pwyntiau fesul uned, Glastir Sylfaenol | Pwyntiau fesul uned, Pecyn Rhanbarthol | Pwyntiau fesul uned, Godro | Uchafswm pwyntiau, canran | A oes angen caniatâd – Gweler Atodiad 1 | Ar Ddyddiadur; Stocio (S), Gwaith (G), Ffotograff (Ff) | Parseli cyfan yn unig | Gwaith cyfalaf | Ar gael ar dir wedi'i wella (w) neu dir Cynefin (c) | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 42B | Adfer perthi/gwrychoedd heb ffensys | M | 0.8 | 0.9 | 0.9 | 30 | ✓ | G | | ✓ | | 63 |
| 43A | Clawdd wedi'i adfer â ffens bob ochr iddo a choed a pherthi wedi'u plannu arno | M | 2.5 | 2.75 | 2.75 | 30 | ✓ | G | | ✓ | | 64 |
| 43B | Clawdd wedi'i adfer â ffens bob ochr iddo ond heb blannu coed na llwyni | M | 1.8 | 2 | 2 | 30 | ✓ | G | | ✓ | | 64 |
| 44 | Rheoli rhedyn yn fecanyddol | Ha | 27 | 27 | 27 | 30 | ✓ | G | | | W / C | 65 |
| 45 | Cynnal adeiladau diddos traddodiadol | Adeilad | 200 | 200 | 200 | 40 | | | | | | 65 |
| 46A | Cynnal llwybrau caniataol – Llwybr ceffylau – Tir Gofal gynt | M | 0.31 | 0.31 | 0.31 | 30 | ✓ | | | | | 65 |
| 46B | Cynnal llwybrau caniataol – Llwybr cerdded – Tir Gofal gynt | M | 0.29 | 0.29 | 0.29 | 30 | ✓ | | | | | 66 |
| 46C | Cynnal llwybrau caniataol – Mynediad i bobl anabl – Tir Gofal gynt | M | 0.31 | 0.31 | 0.31 | 30 | ✓ | | | | | 66 |

# Rhan 1: Trawsgydymffurfio

Set o ofynion gorfodol yw Trawsgydymffurfio y mae'n rhaid cadw atyn nhw ar yr holl dir rydych yn ei ffermio, nid dim ond y tir sy'n dod o dan eich Contract Glastir Sylfaenol. Mae'r gofynion yn cynnwys:

- cadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (CAAD/*GAEC)* trwy fodloni nifer o safonau sy'n ymwneud â diogelu pridd, cynefinoedd a nodweddion y dirwedd; a

- bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol (SMR), sy'n ymwneud â'r amgylchedd, iechyd pobl a phlanhigion, iechyd a lles anifeiliaid a thagio ac olrhain da byw.

Rhaid cadw at y safonau Trawsgydymffurfio p'un a ydych yn cael y Taliad Sengl ai peidio.

Cewch fanylion llawn y safonau Trawsgydymffurfio yn y '*Canllaw i Ffermwyr am Drawsgydymffurfio'* ac ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ar www.cymru.gov.uk

# Rhan 2: Cod y Fferm Gyfan

Set o ofynion gorfodol yw Cod y Fferm Gyfan y mae'n rhaid cadw atyn nhw am gyfnod llawn y contract.

Rhaid ichi gadw at y rheolau canlynol ar yr holl dir sydd o dan eich contract Glastir Sylfaenol.

## 1. CADW AT YR HOLL OFYNION CYFREITHIOL A CHAEL POB CANIATÂD YN ÔL Y GOFYN

Mae Rhan 3 Adran 6 ac Atodiad 1 y llyfryn hwn yn rhestru'r prif ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â Glastir. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni a'ch bod wedi cael pob caniatâd sydd ei angen arnoch.

## 2. RHEOLAU SY'N BERTHNASOL I'R HOLL DIR (gan gynnwys tir cynefin)

**Peidiwch â chloddio am graig, sgri, tywod, graean, cerrig mân, clai na mawn ac eithrio lle bo gennych ganiatâd cynllunio eisoes neu lle gellwch brofi nad oes gofyn ichi gael caniatâd cynllunio.**

**Peidiwch â llosgi llystyfiant ar graig na safleoedd archeolegol.**

**Rhaid cadw cofnod o'r tail buarth, slyri, gwrtaith anorganig, gwrtaith organig, gwymon calchog, calch, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff, gwastraff y fferm a gwastraff o'r tu allan i'r fferm, plaladdwyr neu chwynladdwyr sy'n cael ei wasgaru ar bob cae.**

Rhaid ichi gadw cofnod papur neu electronig cyfoes o'r defnydd a wneir o'r uchod ar bob parsel unigol sydd yn y Contract Glastir Sylfaenol dros gyfnod llawn y contract. Rhaid cadw'r cofnodion am ddeng mlynedd gyfan ar ôl diwedd y contract. Bydd y cofnod hwn yn ffurfio rhan o'r Dyddiadur Gwaith a ddisgrifir yn Atodiad 2.

**Peidiwch ag aredig na thrin unrhyw dir o fewn 2 fetr i gwrs dŵr neu gynefin gwlyb.**

**Peidiwch â rhoi tail da byw na dŵr budr ar bridd sydd wedi rhewi'n galed neu sy'n ddwrlawn.**
Ystyr 'wedi rhewi'n galed' yw pridd sydd wedi'i rewi am fwy na 12 awr. Nid yw dyddiau pan fydd pridd yn rhewi dros nos ond sy'n dadmer yn ystod y dydd yn cyfrif.

**Rhaid peidio â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd (risg o 1 mewn 100 mlynedd) nac ar lethr o fwy na 7°.**
Eithriad i hyn yw pan fo mwy na 90% o'r daliad o fewn ardal o'r fath. Bryd hynny, rhaid gofyn i Lywodraeth Cymru am gyngor ar le storio addas a dilyn y cyngor hwnnw**.**

**Os ydych yn tyfu indrawn,** rhaid ichi leihau'r perygl o erydiad pridd trwy gadw at un o'r arferion canlynol:

i. Troi'r pridd ar ôl y cynhaeaf ag aradr gynion rhag iddo gywasgu
ii. Hau rhygwellt o dan yr indrawn
iii. Chwalu tir sydd wedi'i gywasgu gan olwynion tractor â phigyn a phlannu gorchudd gaeaf.

Rhaid cofnodi'r gwaith trin a ddewisir yn y dyddiadur gwaith a ddisgrifir yn Atodiad 2.

Hefyd, ar lethrau o fwy na 7° sy'n risg uchel yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru ac sydd ger cyrsiau dŵr, rhaid ichi gadw llain glustogi sydd o leiaf 2 fetr o led wrth droed y cae. Darn o dir yw llain glustogi sy'n cael ei adael heb ei drin rhwng ffin y cnwd a'r cwrs dŵr. Dylai'r llain glustogi fod yn ddigon llydan i rwystro gwaddodion rhag cael eu golchi oddi ar y cae i mewn i'r cwrs dŵr.

**Peidiwch â chyflwyno unrhyw anifail neu blanhigyn anfrodorol ar dir y contract**, heblaw at ddiben cynhyrchu amaethyddol (gan gynnwys anifeiliaid hela) neu gynhyrchu coed masnachol.




**Enghraifft o blanhigyn anfrodorol - Clymog Japan (chwith) a Llawryf (dde)**

**Diogelwch hen goed a choed mewn caeau.**
Mae'n bwysig cadw coed am eu bod yn rhan o gymeriad a natur y dirwedd ac yn werthfawr i fywyd gwyllt, hyd yn oed pan fyddant wedi marw neu'n heintiedig

Peidiwch â niweidio coed, er enghraifft drwy drin y tir yn rhy agos at eu gwreiddiau. Diogelwch hwy rhag drifft chwynladdwyr.  Peidiwch â thrin y tir o dan y canopi.

Os gwelwch fod coeden neu ran o goeden farw neu heintiedig yn beryglus, cewch ei symud. Ystyr peryglus yn yr achos hwn yw ei bod yn ddigon agos i lwybr fel y gallai deunydd sy'n cwympo oddi arni gau'r llwybr neu ei bod yn ddigon agos i lwybr mynediad neu adeilad fel y gallai canghennau gwympo arnyn nhw a'u difrodi.

Gellir ystyried bod coed sy'n tyfu ar adeiladau fferm traddodiadol a choed ansefydlog neu heintiedig sy'n tyfu ar nodweddion archeolegol yn beryglus hefyd os oes posibilrwydd y gallai'r goeden gwympo a difrodi'r nodwedd hanesyddol.

Pan fyddwch yn torri coeden sy’n beryglus neu ran ohoni, bydd gofyn i chi dynnu llun ohoni a’i ddangos os gofynnir ichi wneud hynny.


**Cadwch adeiladau traddodiadol a’u holion.**
Rhaid cadw adeiladau traddodiadol a’u holion, waeth beth yw eu cyflwr oni bai eu bod yn beryglus.

Ystyr peryglus yn yr achos hwn yw bod yr adeilad yn ddigon agos i lwybr cyhoeddus neu lwybr â chaniatâd fel y gallai deunydd sy’n cwympo oddi arno gau’r llwybr neu ei fod yn ddigon agos i lwybr mynediad neu adeilad fel y gallai deunydd sy'n cwympo oddi arno achosi difrod.

Pan fyddwch yn dymchwel adeilad traddodiadol neu ran ohono sydd yn eich barn chi yn beryglus, bydd gofyn ichi dynnu llun ohono a’i gadw i brofi ei fod yn beryglus a dangos y llun os gofynnir ichi wneud hynny.

Rhaid cynnal arolwg ystlumod cyn dymchwel neu newid yr adeilad, rhaid cadw tystiolaeth bod yr arolwg wedi'i gynnal a rhaid ei ddangos pan ofynnir amdano.


**Enghraifft o olion adeilad**


**Enghraifft o adeilad traddodiadol**

**Peidiwch â difrodi unrhyw Heneb Restredig neu Nodwedd yr Amgylchedd Hanesyddol sydd wedi’i nodi ar fap y contract.**

Mae difrod yn golygu unrhyw un o’r canlynol:

- Tarfu ar y pridd neu dyrchu’r uwchbridd.
- Dympio neu storio deunydd ar ben y nodwedd, gan gynnwys creu storfa dros dro.
- Codi deunydd gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd o'r nodwedd.
- Arwyddion amlwg o erydu (colli a thyrchu uwchbridd neu isbridd) gan anifeiliaid a cherbydau neu waith amaethyddol.
- Plannu coed ar y nodwedd (ac eithrio plannu coed ‘tebyg am eu tebyg’ yn lle coed eraill mewn tir parc dynodedig).
- Caniatáu i brysgwydd ddatblygu.
- Aredig neu ail-hau.
- Symud nodweddion cerrig unigol.

Rhaid peidio â difrodi na tharfu ar unrhyw “Barc Hanesyddol” neu “Ardd Hanesyddol” sydd ar y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol.  Mae difrod yn golygu unrhyw un o’r canlynol:

- Clirio cynlluniau plannu hanesyddol sydd wedi’u nodi ar y Gofrestr.
- Codi nodweddion adeiladau neu nodweddion y dirwedd neu darfu arnynt.
- Ailfodelu’r dirwedd mewn ffordd a fydd yn newid y topograffi.
- Dympio deunydd.

Rhaid cael caniatâd i gynnal rhai Opsiynau Rheoli a allai achosi difrod i nodweddion Rhestredig neu Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol a fydd wedi’u nodi ar fapiau’r Contract gan gynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig.  Darllenwch Ran 3 Adran 6 ac Atodiad 1 am fwy o fanylion.

**Rhaid cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol sy’n ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad i’r cyhoedd.**
Bydd gofyn ichi allu dangos eich bod yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad i’r Cyhoedd ar Dir y Contract, gan gynnwys peidio â’u rhwystro, a’u hadfer ar ôl eu haredig.

Rhaid caniatáu mynediad ar droed i unrhyw dir sy’n gefn gwlad agored yn ôl y mapiau a baratowyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Dylech gysylltu â'ch Awdurdod Lleol os oes unrhyw broblemau â’r Hawliau Tramwy Cyhoeddus hyn ar dir y contract.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Lleol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynnal pob Opsiwn Rheoli sy'n rhwystro Hawl Tramwy Cyhoeddus.  Rhaid ei ddangos pan ofynnir amdano.


**Enghraifft o Hawl Tramwy Cyhoeddus**


**Enghraifft o sbwriel**

**Rhaid cadw'r tir yn y contract yn lân o sbwriel fel hen gerbydau, hen ffensys, deunydd plastig a hen offer domestig.**
Rhaid clirio sbwriel o’r safle cyn dechrau’r Contract

## 3. RHEOLAU SY'N BERTHNASOL I BOB TIR CYNEFIN

Eu bwriad yw helpu i warchod planhigion, anifeiliaid a mathau o lystyfiant brodorol Cymru, diogelu stoc garbon y pridd a helpu i wella ansawdd ein dŵr trwy ddiogelu pridd rhag cael ei erydu a rhag gollwng cemegau amaethyddol i gyrsiau dŵr.

**Ystyr cynefin yw:**
Unrhyw lystyfiant â llai na 25% ohono'n rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, yn unol â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007.

**Peidiwch â difrodi tir cynefin.**
Ystyr difrodi cynefin yw bod y math o lystyfiant sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwnnw yn cael ei golli. Gallech ei golli trwy orbori neu danbori, neu stablad (gorsathru) y tir trwy borthi da byw arno a rhigoli'r tir â cherbydau.



**Difrod gan anifeiliaid yn stablad (sathru) y tir**


**Creu trac, sydd wedi creu difrod i gynefin.**

Mae'n dderbyniol cynnal gweithgareddau cefn gwlad fel saethu, pysgota, treialon moduron a marchogaeth cyn belled nad ydynt yn difrodi cynefinoedd. Wrth ystyried cynnal gweithgaredd o'r fath, dylech ddilyn y Cod Ymarfer Da priodol os oes un, fel y Cod Ymarfer ar gyfer Trefnu a Rheoli Digwyddiadau Beicio oddi ar y Ffordd (www.mscode.co.uk).

**Peidiwch â gwella'ch tir cynefin.**
Ni chaniateir gwella'ch tir cynefin at bwrpas amaethyddol yn ystod oes y contract, waeth a ydych wedi cael cydsyniad sgrinio o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol ai peidio. Mae rheoli rhedyn yn eithriad fel y nodir isod:

Peidiwch â rheoli rhedyn trwy eu chwistrellu â chemegau ac ail-hau oni bai'ch bod wedi cael cydsyniad o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Hefyd, mae angen cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i chwistrellu tir ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu o fewn 100m iddo a chaniatâd CNC i chwistrellu tir wrth gwrs dŵr.

**Peidiwch ag aredig, trin nac ail-hau'r tir cynefin.**

- **Peidiwch â rowlio tir cynefin na'i lyfnu rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.** Rhaid cofnodi gwaith rowlio a llyfnu ar dir cynefin yn y dyddiadur gwaith fel a ddisgrifir yn Atodiad 2.

**Peidiwch â gosod draeniau newydd na newid y draeniau sydd yno'n barod.**
Peidiwch â defnyddio aradr wâdd chwaith.

**Peidiwch â charthu ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst ar dir cynefin.** Gellir gwneud gwaith cynnal a chadw arferol ar ddraeniau sy'n bodoli eisoes fel a ganlyn:

- Gellir clirio llystyfiant a gwaddodion, gan adael llystyfiant ar hyd un ochr i'r ffos.
- Peidiwch â dyfnhau na lledu ffosydd na gosod pibellau newydd.

- Cewch gynnal draeniau caeau at y safon wreiddiol cyn belled nad ydych yn difrodi'r cynefin.
- Rhaid cofnodi gwaith carthu ffosydd ar dir cynefin yn y dyddiadur gwaith fel a ddisgrifir yn Atodiad 2.

**Peidiwch â thorri mawn ar dir cynefin.**

**Peidiwch â gwasgaru slyri, gwrtaith anorganig, gwrtaith organig, tail buarth, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff na gwastraff arall o'r fferm ac o'r tu allan i'r fferm ar dir cynefin.**

| |
|---|
| Cewch wasgaru tail buarth dim ond lle bydd un o Opsiynau Rheoli cynefin penodol Glastir Sylfaenol yn gadael ichi wneud hynny. |

**Peidiwch â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm ar dir cynefin nac ar nodweddion y dirwedd neu nodweddion archeolegol nac o fewn 10 metr i gwrs dŵr.**



**Porthi da byw wrth gwrs dŵr. Gall hyn achosi llygredd.**

**Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr ac eithrio:**

i. i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau goresgynnol estron megis marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan, rhododendron, Jac y neidiwr, yr efwr enfawr; neu,
ii. rheoli llystyfiant goresgynnol ar nodweddion hanesyddol, adeiladau traddodiadol ac adeiladau fferm.

Efallai y bydd eithriadau i'r amodau uchod os oes eu hangen i sicrhau manteision amgylcheddol penodol fel rhan o'r cynllun Glastir.

### 3.1 Sut i ddweud y gwahaniaeth rhwng tir cynefin a thir wedi'i wella

**Darllenwch dudalen 13 am ddiffiniad o dir cynefin. Canllaw yw’r tabl ar y dudalen hon i’ch helpu yn unig i wahaniaethu rhyngddynt. Holwch am gyngor proffesiynol os nad ydych yn siŵr:**

Mae'n bwysig iawn eich bod chi’n gallu dweud y gwahaniaeth rhwng tir wedi'i wella a thir cynefin. Mae hyn yn hanfodol er mwyn ichi allu diogelu cynefin, yn unol â Chod y Fferm Gyfan ac er mwyn ichi allu dewis Opsiynau Rheoli priodol i’w cynnal yn y mannau mwyaf addas i sicrhau’r manteision amgylcheddol mwyaf posibl. Dylai’r tabl isod eich helpu gyda’r broses.

| **Prif Ystyriaethau** | |
|---|---|
| CYNEFIN | TIR WEDI'I WELLA |
| **Cyfansoddiad y Llystyfiant**<br>**Llai** na 25% o’r llystyfiant yn rhywogaethau amaethyddol sydd wedi’u hau, gan gynnwys rhygwellt a meillion gwyn. | **Cyfansoddiad y Llystyfiant**<br>**Mwy** na 25% o’r llystyfiant yn rhywogaethau amaethyddol sydd wedi’u hau, gan gynnwys rhygwellt a meillion gwyn. |
| **Hanes Rheoli Amaethyddol Blaenorol**<br>Mae llawer o'r arferion rheoli hyn wedi’u cynnal ar y tir.<br>▪ Nid yw’n debygol o fod wedi'i aredig na'i ail-hau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br>▪ Heb gael fawr ddim gwrtaith anorganig / tail buarth, os o gwbl.<br>▪ Cynhyrchiant isel – dim ond unwaith bob blwyddyn y ceir cnwd o wair neu silwair ohono.<br>▪ Mae’n cael ei ladd fel arfer ar gyfer gwair.<br>▪ Mae'r draeniad yn wael – mae'n gallu mynd yn wlyb neu’n frwynog ond gall fod yn sych iawn er enghraifft os yw ar is-haen ag iddi ddraeniad da megis calchfaen. | **Hanes Rheoli Amaethyddol Blaenorol**<br>Mae o leiaf un o'r arferion rheoli hyn wedi’i gynnal ar y tir.<br>▪ Tir âr neu dir pori sydd wedi'i aredig a'i ail-hau yn rheolaidd fel rhan o’r drefn reoli amaethyddol arferol.<br>▪ Wedi cael llawer iawn o wrtaith anorganig / tail buarth / slyri / slwtsh.<br>▪ Cynhyrchiant uchel – yn aml ceir dau neu dri thoriad o silwair bob blwyddyn neu un cnwd mawr o wair. Ar y cyfan, yn cael ei ystyried yn dir cynhyrchiol da.<br>▪ Mae’n cael ei dorri fel arfer ar gyfer silwair.<br>▪ Wedi'i ddraenio'n dda fel arfer. |
| **Blodau a Glaswelltau Gwyllt**<br>▪ Weithiau mae ganddo amrywiaeth dda o flodau a glaswelltau gwyllt gwahanol sy'n nodweddiadol o'r math o bridd. Gall y blodau gwyllt gynnwys y pengaled, y gribell felen, llygad llo mawr, tresgl y moch a theim.<br>▪ Mae rhywogaethau glaswelltir yn ymledu i bob rhan o'r cae fel arfer – weithiau bydd mwy o dan flodau nag o dan laswellt. | **Blodau a Glaswelltau Gwyllt**<br>▪ Amrywiaeth gyfyngedig iawn o flodau gwyllt. Mae’r mathau nodweddiadol o flodau a geir ar laswelltir wedi'i wella yn cynnwys y blodyn melyn ymlusgol, ysgallen y maes, dail tafol, danadl a gwlydd y dom.<br>▪ Gorchuddir y rhan fwyaf o'r cae â nifer fach iawn o rywogaethau – rhywogaethau amaethyddol fel arfer megis rhygwellt neu feillion gwyn. |

| **Bywyd Gwyllt Cysylltiedig** | **Bywyd Gwyllt Cysylltiedig** |
|---|---|
| ▪ Gwelir amrywiaeth eang o infertebrata (glöynnod byw, ceiliogod rhedyn, chwilod a thrychfilod eraill) yn aml yn ystod misoedd yr haf. Twmpathau morgrug o bryd i'w gilydd.<br>▪ Rhydwyr sy'n nythu er enghraifft gylfinirod, gïachod, cornchwiglod. | ▪ Ychydig iawn o fywyd gwyllt cysylltiedig. Amrywiaeth gyfyngedig iawn o infertebrata a dim twmpathau morgrug.<br>▪ Gall rhai glaswelltiroedd wedi'u gwella gynnal poblogaethau o anifeiliaid gwyllt pwysig er enghraifft cornchwiglod. |



**Enghraifft o gynefin**

### Tir wedi’i wella

Mae unrhyw lystyfiant sydd â mwy na 25% ohono’n rhywogaethau amaethyddol sydd wedi’u hau, gan gynnwys rhygwellt a meillion gwyn, yn cael ei ystyried yn dir wedi’i wella.



**Tir wedi'i wella**

# Rhan 3 : Opsiynau Rheoli Glastir Sylfaenol

## Adran 1: Cyflwyniad

Yn ogystal â chydymffurfio â'r safonau Trawsgydymffurfio a Chod y Fferm Gyfan, mae'n rhaid i chi gytuno hefyd i gynnal nifer o Opsiynau Rheoli. Mae rhai Opsiynau Rheoli yn gofyn am greu cynefinoedd tra bo Opsiynau Rheoli eraill yn gofyn am reoli cynefinoedd a/neu nodweddion sy'n bod eisoes.

Cofiwch, dim ond ar dir wedi'i wella y bydd modd cynnal rhai Opsiynau Rheoli. Ewch i Ran 2 i weld y gwahaniaeth rhwng tir cynefin a thir wedi'i wella. Mae'n rhaid cynnal rhai Opsiynau Rheoli ar gae cyfan, tra bo rhai ond yn cael eu cynnal ar ran o gae.

Mae'r rhan hon o'r llyfryn yn disgrifio'r holl Opsiynau Rheoli sydd ar gael a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i gynnal yr opsiynau hynny. Hefyd, fe welwch ganllawiau technegol ar gyfer peth o'r gwaith y bydd gofyn i chi ei wneud (codi ffensys, gosod giardiau coed ac ati) yn Atodiad 4. **Cofiwch, rhaid cwblhau pob Opsiwn Rheoli sy'n gofyn am waith cyfalaf yn ystod dwy flynedd gyntaf y contract**. O beidio â gwneud, cewch gosb ariannol, bydd yn rhaid ichi ad-dalu'r arian fydd wedi'i dalu ichi a gallem ddod â'ch contract i ben.

Os oes angen gwaith cyfalaf, rhaid defnyddio deunydd newydd gan mai dim ond am ddeunydd newydd y cewch eich talu a rhaid cael gwared ar hen ddeunydd ffensio. Mae'n bwysig peidio â dechrau'r gwaith cyn dyddiad dechrau'r contract.

Ar ôl cwblhau'ch gwaith cyfalaf, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bob tro y bydd gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau gan ddefnyddio "Ffurflen Cwblhau Gwaith Cyfalaf" Glastir Sylfaenol sydd ar gael oddi ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk neu gan eich Swyddfa Ranbarthol.

### Cylchdroi

Bydd hawl gennych gylchdroi rhai Opsiynau Rheoli o gwmpas eich daliad (e.e. gwreiddgnydau heb eu chwistrellu, ydau â chnwd wedi'i hau oddi tanynt). Mae gofynion yr opsiwn yn esbonio a fydd modd ichi gylchdroi'r opsiwn. Os byddwch yn dewis opsiwn y cewch ei gylchdroi, byddwn yn gofyn ichi am fanylion yr holl gaeau y byddwch am eu defnyddio ac i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei leoliad newydd cyn symud yr Opsiwn Rheoli i gae arall.

### Lefelau Stocio

Mae rhai o'r Opsiynau Rheoli'n gofyn ichi gadw lefel benodol o stoc. Mae'r lefelau hyn yn cael eu cyfrif fesul Uned Da Byw (UDB). Dengys y tabl isod beth yw gwerth uned da byw o wartheg, defaid, ceffylau a geifr at bwrpas Glastir. Nid yw gwartheg o dan 6 mis oed nac ŵyn wrth droed yn cael eu cyfrif.

| Anifail | Uned Da Byw (UDB) |
|---|---|
| 1 fuwch odro (rhwng 6 a 24 mis) | 0.6 |
| 1 fuwch odro (dros 24 mis) | 1.0 |
| 1 anifail eidion (rhwng 6 a 24 mis) | 0.6 |
| 1 anifail eidion (dros 24 mis) | 1.0 |
| 1 ddafad (ni chyfrifir ŵyn sy'n sugno) | 0.15 |
| 1 ceffyl | 1.0 |
| 1 merlyn | 0.5 |
| 1 afr | 0.15 |

## Ardaloedd Gwarchod

Gall rhai Opsiynau Rheoli beryglu parhad hirdymor rhai rhywogaethau pwysig. Mae Cymru wedi'i rhannu'n Ardaloedd Gwarchod ac os ydy'ch fferm yn un o'r ardaloedd hyn, yna ni fyddwch yn cael cynnal rhai Opsiynau Rheoli.

Os oes unrhyw ran o'ch fferm yn yr ardaloedd hyn (P1 – P7), byddwn yn dangos hynny yn y golofn *nodiadau* yn adran 5 eich ffurflen gais am Glastir Sylfaenol. Darllenwch y tabl isod i weld pa Opsiynau Rheoli sydd ddim yn cael eu caniatáu ym mhob ardal warchod, a pha rywogaethau y byddwch yn helpu i'w gwarchod.

| ENW A CHOD | RHYWOGAETH | OPSIYNAU GWAHARDDEDIG |
|---|---|---|
| **Ardal Warchod 1 (P1)** | Gwiwer goch | **1, 1B, 2, 2B, 3, 42A, 42B, 43A a 43B.** Creu coridor bywyd gwyllt<br>**13** Plannu coed brodorol unigol<br>**9A a 9B** Creu coridor glan nant a phlannu coed |
| **Ardal Warchod 2 (P2)** | Llygoden ddŵr | **9A a 9B** Creu coridor glan nant a phlannu coed |
| **Ardal Warchod 3 (P3)** | Planhigion tir âr prin | **26** Creu ymyl o borfa arw<br>**29** Hau cnwd o dan ydau gwanwyn |
| **Ardal Warchod 4 (P4)** | Gwas neidr clwbgwt | **7A a 7B** Creu coridor glan nant newydd<br>**8** Parhau i reoli coridor glan nant<br>**9A a 9A** Creu coridor glan nant newydd a phlannu coed |
| **Ardal Warchod 5 (P5)** | Brân goesgoch | **6, 6B, 42A, 42B, 43A a 43B** Ffensio ac adfer perthi/gwrychoedd |
| **Ardal Warchod 6 (P6)** | **Ddim yn gymwys** | |
| **Ardal Warchod 7 (P7)** | Glöyn byw | **44** Rheoli rhedyn â pheiriant |

# Adran 2: Amcanion a nodau

Rydym wedi crynhoi isod amcanion a nodau'r gwahanol fathau o Opsiynau Rheoli.

**OPSIYNAU CREU CYSYLLTIADAU RHWNG CYNEFINOEDD**

Opsiynau Rheoli: 1, 1B, 2, 2B, 3, 4, 4B, 5, 6, 6B, 7A, 7B, 8, 9A, 9B, 23, 24, 42A, 42B, 43A, 43B

**Amcanion**

- Gadael i goed brodorol, llwyni ac ymylon o borfa arw dyfu'n goridor a chysylltu â chynefinoedd sy'n bod eisoes fel perthi/gwrychoedd a choetir.
- Gwella cymeriad y dirwedd.
- Annog cynefin amrywiol i fod yn ffynhonnell fwyd a chysgod i anifeiliaid gwyllt fel adar a mamaliaid bach.
- Cymryd carbon deuocsid o'r atmosffer.
- Creu llain glustogi i ffiniau caeau a chyrsiau dŵr, gan helpu i leihau'r llygredd sy'n cael ei gario wrth erydu'r pridd a defnyddio agrocemegau.
- Rhoi cysgod i dda byw.
- Cynyddu maint coetiroedd sy'n bod eisoes.

**OPSIYNAU NODWEDDION Y DIRWEDD**

Opsiynau Rheoli: 11, 12, 13, 35B, 36, 40

**Amcanion**

- Helpu i ddatblygu cymeriad y nodwedd yn y dirwedd, a'i werth hanesyddol a'i werth fel cynefin, trwy blannu coed brodorol sy'n gyson â'r hyn sy'n tyfu yn yr ardal
- Gwella cymeriad y dirwedd a gwerth y fferm i anifeiliaid gwyllt trwy ailblannu ac adfer mathau traddodiadol o goed afalau, gellyg, ceirios ac eirin mewn perllan fferm draddodiadol neu drwy greu perllan newydd ar dir wedi'i wella.
- Diogelu mathau traddodiadol o goed ffrwythau sy'n gynhenid i'r ardal.
- Cynnal nodweddion perllannau traddodiadol fel coed marw sy'n cynnal amrywiaeth o fwsoglau, ffwng, cen ac infertebrata.
- Annog cynefin amrywiol i fod yn ffynhonnell fwyd a chysgod i anifeiliaid gwyllt fel adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac infertebrata.
- Ffensio'r pwll i greu llain glustogi rhwng ffiniau caeau a chyrsiau dŵr, rhag i erydiad y pridd a'r llif agrocemegau o dir ffermio o amgylch effeithio ar ansawdd y dŵr.

**OPSIYNAU AR DIR CYNEFIN**

Opsiynau Rheoli: 15, 15B, 15C, 15D, 19, 19B, 20, 20B, 21, 21B, 22, 25, 25B, 41A, 41B, 44

**Amcanion**

- Sicrhau bod y lefelau pori ar gyfer y gwahanol fathau o lystyfiant yn y cynefinoedd hyn yn gynaliadwy fel bod y tir yn cael ei gadw mewn cyflwr ecolegol da, nawr ac yn y dyfodol.
- Gwella cymeriad y dirwedd
- Annog amrywiaeth o blanhigion gwahanol sy'n prinhau i ymadfer er mwyn creu cynefin amrywiol i fod yn ffynhonnell fwyd a chysgod i anifeiliaid gwyllt
- Lleihau erydiad y pridd a dŵr ffo a diogelu'r stoc garbon. Bydd hynny yn ei dro yn helpu i wella ansawdd y dŵr, yn lleihau llygredd gwasgaredig ac yn lleihau allyriadau

nwyon tŷ gwydr.

**OPSIYNAU AR DIR ÂR**
Opsiynau Rheoli: 26, 26B, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 32B, 33, 34, 34B.

**Amcanion**
- Helpu planhigion fu'n tyfu ar systemau âr traddodiadol ac sydd bellach yn prinhau, a darparu bwyd a chysgod i adar, mamaliaid bach ac infertebrata – yn enwedig yn y gaeaf.
- Lleihau erydiad y pridd a dŵr ffo a diogelu'r stoc garbon. Bydd hynny yn ei dro yn helpu i wella ansawdd y dŵr a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

**OPSIYNAU AR NODWEDDION HANESYDDOL**

Yn cynnwys Opsiynau Rheoli: 10, 39, 45

**Amcanion**
- Diogelu a chynnal safleoedd sy'n agored i niwed gan arferion ffermio trwy gyfyngu ar waith allai eu peryglu.
- Sicrhau bod nodweddion hanesyddol ac adeiladau traddodiadol yn cael eu cadw fel eitemau o werth hanesyddol ac i'r dirwedd a gwella sefydlogrwydd a golwg gwrthgloddiau ac adeileddau cerrig hanesyddol.

**OPSIYNAU SYDD HEB FOD AR SAIL PARSELI**

Yn cynnwys Opsiynau Rheoli: 14, 14B, 37, 38

**Amcanion**
- Helpu i wella ansawdd y dŵr trwy rwystro dŵr rhag llifo oddi ar dir fferm.
- Sicrhau bod maethynnau'r slyri'n cael eu defnyddio'n llawn fel bod angen prynu llai o wrtaith cemegol, gan leihau costau ac allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Darparu blychau nythu ar gyfer adar ac ystlumod i gymryd lle safleoedd nythu naturiol sydd wedi'u colli am fod arferion ffermio'n newid a bod llai o goed marw yn cael eu gadael.
- Bydd opsiwn 37 yn helpu i gydnabod rhinweddau penodol bridiau brodorol sydd mewn perygl o gael eu colli fel y'u rhestrir yng nghofrestr bridiau brodorol prin gymeradwy Prydain gan helpu i ddiogelu geneteg bridiau unigryw sydd wedi'u haddasu i amodau lleol.

**OPSIYNAU MYNEDIAD**

Yn cynnwys Opsiynau Rheoli 46A, 46B, 46C

**Amcanion**
- Gwella cyfleoedd i gael mynd i gefn gwlad.

# Adran 3: Gofynion pob Opsiwn Rheoli

| **Opsiwn Rheoli 1** | **Creu coridor bywyd gwyllt 3 metr o led sy’n cynnwys plannu coed a llwyni** |
|---|---|
| Rhaid creu'r coridor bywyd gwyllt ar dir ffermio wedi'i wella.<br>Peidiwch â’i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid plannu rhes ddwbl am yn ail o goed a llwyni perthi brodorol o stoc leol gan adael tua 30 centimetr rhwng y planhigion a'r rhesi. Mae hyn yn cyfateb i saith planhigyn bob metr.<br>▪ Rhaid gadael i'r coed a'r llwyni dyfu ddau fetr o leiaf o led.<br>▪ Wrth blannu coridor newydd, rhaid plannu cymysgedd o bum rhywogaeth fan leiaf o goed bob 30 metr. Gall hyd at 75% o'r planhigion a blannwch fod yn ddrain gwynion a / neu ddrain duon a gall y 25% sy'n weddill fod yn gymysgedd o rywogaethau brodorol eraill<br>▪ Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Rhaid codi ffens newydd i gadw da byw allan bob ochr i’r coridor, 1.5 metr o’i ganol (h.y. 3 metr rhyngddynt) er mwyn creu ymyl o borfa arw.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir o fewn y coridor.<br>▪ Mae’r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau’r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a’i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau’r gwaith ffensio yn unol â’r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu’n goed perthi bob 20-70 metr<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Phlannu coed ynn fel rhan o’r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)<br>▪ Creu coridor ar nodwedd amgylcheddol sy’n bod eisoes. | |

| **Opsiwn Rheoli 1B** | **Creu coridor 2 fetr o led sy’n cynnwys plannu coed a llwyni ar dir sydd wedi’i wella.** |
|---|---|
| Rhaid creu'r coridor bywyd gwyllt ar dir ffermio wedi'i wella.<br>Peidiwch â’i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid plannu rhes ddwbl am yn ail o goed a llwyni perthi brodorol o stoc leol gan adael tua 30 centimetr rhwng y planhigion a'r rhesi. Mae hyn yn cyfateb i saith planhigyn bob metr.<br>▪ Rhaid gadael i'r coed a'r llwyni dyfu ddau fetr o leiaf o led.<br>▪ Wrth blannu coridor newydd, rhaid plannu cymysgedd o bum rhywogaeth fan leiaf o goed bob 30 metr. Gall hyd at 75% o'r planhigion a blannwch fod yn ddrain gwynion a / neu ddrain duon a gall y 25% sy'n weddill fod yn gymysgedd o rywogaethau brodorol eraill<br>▪ Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Rhaid codi ffens newydd i gadw da byw allan bob ochr i’r coridor, 1 metr o’i ganol (h.y. 2 fetr rhyngddynt) er mwyn creu ymyl o borfa arw.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir o fewn y coridor.<br>▪ Mae’r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau’r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a’i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau’r gwaith ffensio yn unol â’r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu’n goed perthi bob 20-70 metr | |

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o’r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)
- Creu coridor ar nodwedd amgylcheddol sy’n bod eisoes.

| **Opsiwn Rheoli 2** | **Creu coridor bywyd gwyllt 3 metr o led sy’n cynnwys clawdd newydd, a phlannu coed a llwyni** |
|---|---|

Rhaid creu'r coridor bywyd gwyllt ar dir ffermio wedi'i wella.
Peidiwch â’i gynnal ar Heneb Restredig

- Rhaid i'r clawdd newydd fod o leiaf 0.75 metr o uchder a 0.75 metr o led.
- Rhaid plannu rhes ddwbl am yn ail o goed a llwyni perthi brodorol o stoc leol gan adael tua 30 centimetr rhwng y planhigion a'r rhesi. Mae hyn yn cyfateb i saith planhigyn bob metr.
- Rhaid gadael i'r coed a'r llwyni dyfu'n ddau fetr o leiaf o led.
- Rhaid codi ffens newydd i gadw da byw allan bob ochr i’r coridor, 1.5 metr o’i ganol (h.y. 3 metr rhyngddynt) er mwyn creu ymyl o borfa arw.
- Peidiwch â defnyddio pridd o glawdd arall nac o unrhyw nodwedd archeolegol arall.
- Wrth blannu coridor newydd, rhaid plannu cymysgedd o bum rhywogaeth fan leiaf o goed bob 30 metr. Gall hyd at 75% o'r planhigion a blannwch fod yn ddrain gwynion a / neu ddrain duon a gall y 25% sy'n weddill fod yn gymysgedd o rywogaethau brodorol eraill.
- Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor.
- Mae’r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau’r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a’i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau’r gwaith ffensio yn unol â’r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

| **Opsiwn Rheoli 2B** | **Creu coridor bywyd gwyllt 2 fetr o led sy’n cynnwys clawdd newydd a phlannu coed a llwyni.** |
|---|---|

Rhaid creu'r coridor bywyd gwyllt ar dir ffermio wedi'i wella.
Peidiwch â’i gynnal ar Heneb Restredig

- Rhaid i'r clawdd newydd fod o leiaf 0.75 metr o uchder a 0.75 metr o led.
- Rhaid plannu rhes ddwbl am yn ail o goed a llwyni perthi brodorol o stoc leol gan adael tua 30 centimetr rhwng y planhigion a'r rhesi. Mae hyn yn cyfateb i saith planhigyn bob metr.
- Rhaid gadael i'r coed a'r llwyni dyfu'n ddau fetr o leiaf o led.
- Rhaid codi ffens newydd i gadw da byw allan bob ochr i’r coridor, 1 metr o’i ganol (h.y. 2 fetr rhyngddynt) er mwyn creu ymyl o borfa arw .
- Peidiwch â defnyddio pridd o glawdd arall nac o unrhyw nodwedd archeolegol arall.
- Wrth blannu coridor newydd, rhaid plannu cymysgedd o bum rhywogaeth fan leiaf o goed bob 30 metr. Gall hyd at 75% o'r planhigion a blannwch fod yn ddrain gwynion a / neu ddrain duon a gall y 25% sy'n weddill fod yn gymysgedd o rywogaethau brodorol eraill.
- Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor.
- Mae’r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau’r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a’i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau’r gwaith ffensio yn unol â’r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o’r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)
- Creu coridor ar nodwedd amgylcheddol sy’n bod eisoes.


| **Opsiwn Rheoli 3** | **Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed** |
|---|---|

Rhaid creu'r coridor bywyd gwyllt ar dir ffermio wedi'i wella.
Peidiwch â’i gynnal ar Heneb Restredig

- Rhaid i'r coridor bywyd gwyllt fod rhwng 5 a 15 metr o led, a rhaid plannu o leiaf 1600/hectar o goed, i gynnwys pum rhywogaeth wahanol o goed a llwyni brodorol. Rhaid codi ffens bob ochr iddo i gadw da byw allan.
- Rhaid i 75% o'r coed sy'n cael eu plannu fod yn llwyni coetir brodorol. Ni ddylech blannu mwy na 25% o gyfanswm yr ardal â choed conwydd brodorol.
- Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor.
- Mae’r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau’r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a’i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau’r gwaith ffensio yn unol â’r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o’r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)
- Creu coridor ar nodwedd amgylcheddol sy’n bod eisoes.



**Enghraifft o dirwedd heb gyswllt rhwng cynefinoedd**



**Coridor bywyd gwyllt gyda choed a llwyni ifanc (wedi’u sefydlu)**

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 1, 1B, 2, 2B A 3)**
**Plannu coed a llwyni brodorol mewn coridor bywyd gwyllt**

- Pan fydd y coridor yn dilyn ffin bresennol y cae (e.e. llinell ffens neu ffos) ni ddylech lefelu, sythu nag ailgyfeirio'r ffin.
- Wrth blannu coridor newydd, rhaid plannu cymysgedd o bum rhywogaeth fan leiaf o

goed bob 30m. Gall hyd at 75% o'r planhigion a blannwch fod yn ddrain gwynion a / neu ddrain duon a gall y 25% sy'n weddill fod yn gymysgedd o rywogaethau brodorol eraill megis: cyll, helyg, celyn, rhosod gwyllt, gwifwrnwydd y gors, ceirios duon neu geirios yr adar, coed afalau surion a choed criafol. Bydd drain duon yn fwy addas ar gyfer tir uchel a thir arfordirol agored na drain gwynion. Gweler tabl 1.1 am restr fwy cynhwysfawr o rywogaethau brodorol addas.

- Lle medrwch, dylech gael eich planhigion gan gyflenwyr sy'n defnyddio had neu doriadau lluosogi lleol.
- Nid yw'n dderbyniol plannu coridorau ag un rhywogaeth yn unig (ffawydd er enghraifft) na defnyddio rhywogaethau addurnol.
- Defnyddiwch giardiau priodol, er enghraifft llewys coed, i amddiffyn y coed rhag niwed gan anifeiliaid sy'n pori neu'n brigbori.
- Rhaid plannu rhes ddwbl am yn ail o blanhigion 2 i 4 oed, gan adael tua 30cm rhwng y planhigion a rhwng y rhesi. Mae hyn yn cyfateb i saith planhigyn bob metr.
- Os ydych yn plannu'ch coed brodorol ar ffurf coed chwip blwydd oed ar hyd y coridor, gofalwch fod bwlch o 10-15m o leiaf rhyngddynt.
- Plannwch goed a llwyni rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Peidiwch â'u plannu mewn tywydd gwlyb iawn neu rewllyd.

**Creu clawdd newydd**

- Os bwriedir creu clawdd ar hyd ffin bresennol y cae (e.e. llinell ffens neu ffos) ni ddylech lefelu, sythu nac ailgyfeirio'r ffin.
- Rhaid i siâp ac uchder y clawdd fod yn gydnaws â'r dirwedd leol ac yn debyg i gloddiau eraill yn yr ardal sydd mewn cyflwr da.
- Defnyddiwch bridd gwreiddiol lle medrwch. Peidiwch â defnyddio pridd o glawdd arall nac o unrhyw nodwedd archeolegol arall.
- Defnyddiwch giardiau priodol, er enghraifft llewys coed, i amddiffyn y coed rhag niwed gan anifeiliaid sy'n pori neu'n brigbori.
- Peidiwch â gwneud gwaith mewn tywydd gwlyb rhag cywasgu'r pridd.
- Gorchuddiwch y clawdd â thyweirch o'r man lle rydych yn ei adeiladu, os oes rhai. Fel arall gadewch i'r borfa aildyfu arno'n naturiol.
- Rhaid plannu coed a llwyni brodorol ar ben y clawdd yn unol â'r canllawiau uchod.
- Gorchuddiwch y clawdd ag wyneb o gerrig os mai dyna sy'n gydnaws â'r dirwedd leol.

**Sefydlu rhimyn o goed**

- Os bwriedir creu rhimyn o goed ar hyd ffin bresennol y cae (e.e. llinell ffens neu ffos), peidiwch â lefelu, sythu nac ailgyfeirio'r ffin.
- Lle medrwch, dylech gael eich planhigion gan gyflenwyr sy'n defnyddio had neu doriadau lluosogi lleol  (gweler tabl 1.1 am rywogaethau addas). Peidiwch â phlannu coed addurnol.
- Os ydych yn plannu coed sydd dros ddwy flwydd oed, clymwch nhw wrth byst.
- Defnyddiwch giardiau priodol i amddiffyn y coed rhag niwed gan anifeiliaid sy'n pori neu'n brigbori.
- Plannwch goed a llwyni rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Ni ddylech eu plannu mewn tywydd gwlyb iawn neu rewllyd.
- Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.

**Tabl 1.1: Coed a Llwyni Brodorol sy'n Addas i'w Plannu**

| Enw'r Rhywogaeth | Yn addas ar gyfer y safleoedd isod: | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Arfordir | Tir Gwlyb | Iseldir | Ucheldir | Perth / Gwrych | Coed Perthi | Coetir a Choridorau Bywyd Gwyllt |
| Afalau Surion | | | ● | ● | | ● | ● |
| Bedwen | | ● | ● | ● | | | ● |
| Celynnen | | | ● | | ● | ● | ● |
| Coeden Geirios (yr Adar a Du) | | | ● | | ● | ● | ● |
| Collen | ● | | ● | ● | ● | | ● |
| Criafolen | ● | | ● | ● | ● | ● | ● |
| Derwen | ● | | ● | ● | | ● | ● |
| Drain Duon | ● | | ● | ● | ● | | ● |
| Drain Gwynion | | | ● | ● | ● | | ● |
| Eithin | ● | | ● | ● | | | |
| Ffawydden | | | ● | ● | ● | ● | ● |
| Gwernen | | ● | ● | | | | ● |
| Gwifwrnwydden y Gors | | ● | ● | | ● | | ● |
| Helygen | | ● | ● | | ● | | ● |
| Masarnen Fach | | | | | | | ● |
| Onnen[1] | Peidiwch â phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea) | | | | | | |
| Piswydden | | | ● | | ● | | ● |
| Rhosod Gwyllt | | | ● | | ● | | ● |
| Ysgawen | | | | | | | ● |

[11] Gan fod clefyd y coed ynn sy'n cael ei achosi gan y ffwnc marwol *Chalara fraxinea* bellach wedi cyrraedd, nid ydym yn eich cynghori i blannu unrhyw goed ynn ac nid ydynt bellach yn dderbyniol fel rhan o unrhyw gynllun plannu o dan gontract Glastir.

| **Opsiwn Rheoli 4** | **Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr)** |
|---|---|
| Rhaid mai chi sy'n rheoli dwy ochr y berth/gwrych.<br>Nid yw perthi terfyn a pherthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr Opsiwn Rheoli hwn.<br>Dim ond perthi sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn rheolaidd trwy docio neu ddulliau traddodiadol (bondocio a phlygu) sy'n gymwys am yr opsiwn hwn. | |
| ▪ Dylai'r berth fod o leiaf 1.5 metr o uchder ac 1.5 metr o led. Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o ben y clawdd.<br>▪ Bydd gofyn i berth newydd ei hadfer dyfu i'r uchder a'r lled gofynnol erbyn blwyddyn 3 y cynllun.<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.<br>▪ Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1.5 metr bob ochr o ganol y berth<br>▪ Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Thorri mwy na 50% o hyd y berth mewn unrhyw flwyddyn galendr a pheidiwch â thorri'r un darn o'r berth ddwy flynedd o'r bron.<br>▪ Sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir ar hyd ymyl y berth na gadael i dda byw sathru'r pridd.<br>▪ Torri perthi yn ystod tymor nythu'r adar (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).<br>▪ Defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.<br>▪ Trin y tir sydd o fewn 2 fetr o ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno. | |
| **Opsiwn Rheoli 4B** | **Rheoli perthi terfyn allanol (un ochr yn unig)** |
| Mae'r opsiwn hwn ar gael os mai chi sy'n rheoli un ochr perth derfyn neu berth ochr ffordd.<br>Dim ond perthi sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn rheolaidd trwy docio neu ddulliau traddodiadol (bondocio a phlygu) sy'n gymwys am yr opsiwn hwn. | |
| ▪ Dylai perth fod o leiaf 1.5 metr o uchder ac 1.5 metr o led. Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o ben y clawdd.<br>▪ Bydd gofyn i berth newydd ei hadfer dyfu i'r uchder a'r lled gofynnol erbyn blwyddyn 3 y cynllun.<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.<br>▪ Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1.5 metr o ganol y berth<br>▪ Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Thorri mwy na 50% o hyd y berth mewn unrhyw flwyddyn galendr a pheidiwch â thorri'r un darn o'r berth ddwy flynedd o'r bron.<br>▪ Sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir ar hyd ymyl y berth na gadael i dda byw sathru'r pridd.<br>▪ Torri perthi yn ystod tymor nythu'r adar (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).<br>▪ Defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.<br>▪ Trin y tir sydd o fewn 2 fetr o ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno. | |

| **Opsiwn Rheoli 5** | **Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr)** |
|---|---|

Nid yw perthi terfyn a pherthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr Opsiwn Rheoli hwn.
Rhaid mai chi sy'n rheoli dwy ochr y berth/gwrych.
Dim ond perthi sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn rheolaidd trwy docio neu ddulliau traddodiadol (bondocio a phlygu) sy'n gymwys am yr opsiwn hwn.

- Cadwch uchder a lled y berth fel ag sy'n nodweddiadol yn y dirwedd leol, ond ddim llai na 2 fetr o uchder ac 1.5 metr o led (oni bai ei bod wedi cael ei phlygu fel rhan o gylch rheoli rheolaidd). Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o ben y clawdd.
- Bydd gofyn i berth newydd ei hadfer dyfu i'r uchder a'r lled gofynnol erbyn blwyddyn 3 y cynllun.
- Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.
- Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1.5 metr bob ochr o ganol y berth
- Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

**Peidiwch â:**

- Thorri perthi yn ystod tymor nythu'r adar (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).
- Sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir ar hyd ymyl y berth na gadael i dda byw sathru'r pridd.
- Defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.
- Torri mwy na thraean o hyd y berth sydd yn yr Opsiwn Rheoli hwn bob blwyddyn a pheidiwch â thorri'r un darn o'r berth fwy nag unwaith bob tair blynedd.
- Trin y tir sydd o fewn 2 fetr o ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno.

| **Opsiwn Rheoli 6** | **Codi ffens ddwbl 3 metr o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5 metr o'r canol)** |
|---|---|

Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig

- Bydd gofyn i'r berth fod o leiaf 20 metr o hyd rhwng corneli caeau. Bydd o leiaf 25% o'i hyd heb lwyni perthi yn tyfu ynddi. Gall y berth fod ar ben clawdd.
- Adferwch berth fylchog drwy godi ffens bob ochr iddi gyda 3 metr o fwlch rhwng y ddwy ffens (1.5 metr o ganol y berth). Rhaid i'r ffens allu cadw da byw allan.
- Plannwch lwyni brodorol yn y bylchau, 7 planhigyn bob metr. Lle medrwch, plannwch blanhigion o stoc leol.
- Cewch blygu'r berth cyn ffensio bob ochr iddi.
- Rhaid tynnu ffotograff i ddangos y berth fylchog cyn llofnodi'r contract a'i ddangos i staff Llywodraeth Cymru pan ofynnir amdano.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1.5 metr bob ochr o ganol y berth
- Nid yw perthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr Opsiwn Rheoli hwn
- Nid yw perthi terfyn yn gymwys oni bai bod perchennog y tir cyffiniol yn cytuno trwy lythyr i'r perthi gael eu cynnwys yn yr Opsiwn hwn. Cyflwynwch y cytundeb ysgrifenedig gyda'r cais hwn
- Dylai'r berth fod o leiaf 1.5 metr o uchder ac 1.5 metr o led. Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o ben y clawdd.
- Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.
- Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth

- Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)thorri mwy na 50% o hyd y berth sy'n rhan o'r contract mewn unrhyw flwyddyn galendr a pheidiwch â thorri'r un darn o'r berth ddwy flynedd o'r bron.
- Torri perthi yn ystod tymor nythu'r adar (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).
- Sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir ar hyd ymyl y berth na gadael i dda byw sathru'r pridd.
- Defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.
- Trin y tir sydd o fewn 2 fetr o ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno.

| **Opsiwn Rheoli 6B** | **Codi ffens ddwbl 2 fetr o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1 metr o'r canol)** |
|---|---|
| Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |

- Bydd gofyn i'r berth fod o leiaf 20 metr o hyd rhwng corneli caeau. Bydd o leiaf 25% o'i hyd heb lwyni perthi yn tyfu ynddi. Gall y berth fod ar ben clawdd.
- Adferwch berth fylchog drwy godi ffens bob ochr iddi gyda 2 fetr o fwlch rhwng y ddwy ffens (1 metr o ganol y berth). Rhaid i'r ffens allu cadw da byw allan.
- Plannwch lwyni brodorol yn y bylchau, 7 planhigyn bob metr. Lle medrwch, plannwch blanhigion o stoc leol.
- Cewch blygu'r berth cyn ffensio bob ochr iddi.
- Rhaid tynnu ffotograff i ddangos y berth fylchog cyn llofnodi'r contract a'i ddangos i staff Llywodraeth Cymru pan ofynnir amdano.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1 metr bob ochr o ganol y berth
- Nid yw perthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr Opsiwn Rheoli hwn
- Nid yw perthi terfyn yn gymwys oni bai bod perchennog y tir cyffiniol yn cytuno trwy lythyr i'r perthi gael eu cynnwys yn yr Opsiwn hwn. Cyflwynwch y cytundeb ysgrifenedig gyda'r cais hwn
- Dylai'r berth fod o leiaf 1.5 metr o uchder ac 1.5 metr o led. Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o ben y clawdd.
- Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.
- Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth
- Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)
- Torri mwy na 50% o hyd y berth mewn unrhyw flwyddyn galendr a pheidiwch â thorri'r

un darn o'r berth ddwy flynedd o'r bron.
- Torri perthi yn ystod tymor nythu'r adar (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).
- Sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir ar hyd ymyl y berth na gadael i dda byw sathru'r pridd.
- Defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.
- Trin y tir sydd o fewn 2 fetr o ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno.



**Enghraifft o berth sy'n cael ei rheoli'n dda**

## CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 4, 4B, 5, 6 A 6B)

### Plygu perth

- Fel arfer mae coesynnau sydd â diamedr o 5-15 centimetr a rhwng 2-3 metr o uchder yn addas i'w plygu'n berth. Ystyriwch eu bondocio os ydy'r coesynnau'n fwy trwchus.
- Gallwch docio'r mân-dyfiant ar hyd ochr y berth cyn ei phlygu, ond gadewch y tyfiant ar frig llwyni iddo dyfu'n drwchus a chreu rhwystr ar ôl plygu'r berth.
- Torrwch hanner ffordd neu dri chwarter ffordd drwy'r coesynnau 3-10cm uwchben y ddaear a phlygwch y coesynnau ar ongl o tua 30º. Plygwch bob un o'r coesynnau i'r un cyfeiriad gan sicrhau eu bod bob amser yn wynebu tuag at i fyny unrhyw oleddf.
- Peidiwch â hollti na thorri rhisgl ochr isaf y coesynnau wrth eu plygu.
- Peidiwch â phlygu perth drwy wthio coesynnau drosodd a gadael iddynt hollti.
- Gallwch ddefnyddio pyst pren i ddal y coesynnau yn eu lle os oes angen. Weithiau gellir wedyn clymu'r coed wrth frig y postyn gan ddefnyddio darnau plethedig o dyfiant ystwyth (rhwymyn).
- Peidiwch â defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.
- Y gaeaf yw'r adeg orau i blygu perth, rhwng canol mis Tachwedd a diwedd mis Chwefror. Bydd perth newydd ei phlygu yn para rhwng 10 a 30 mlynedd ac yn cael ei thocio bob dwy i bum mlynedd ar ôl i'r gwaith adfer gael ei wneud.
- Lle medrwch, parchwch ddulliau traddodiadol lleol o blygu perth. Yr amcan yw creu perth fydd yn rhwystr i dda byw. Cyn plygu'r berth, codwch unrhyw hen ffensys neu wifrau.

**Bondocio**

- Mae bondocio (coppicing) yn hen system o reoli coed sy'n manteisio ar y ffaith bod egin newydd yn gallu tyfu o foncyff neu goesyn sydd wedi'i dorri ar goed neu lwyni llydanddail. Ni ddylai gwaith bondocio gael ei wneud mewn perth ond pan fydd coesyn yn rhy drwchus (mwy na 10cm o led) i'w blygu'n iawn. Weithiau bydd y coesyn mor drwchus fel bod angen Trwydded Cwympo Coed gan y Comisiwn Coedwigaeth arnoch. Chi sy'n gyfrifol am gadarnhau p'un a oes angen Trwydded Cwympo Coed arnoch ai peidio.
- Mae bondocio yn golygu torri'r coesyn o fewn 7.5cm neu lai o'r ddaear a gadael i'r coesynnau ailegino. Dylech dorri yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd y tywydd yn fwyn. Gallwch ofalu am y coed wrth iddynt aildyfu fel a ganlyn:
    - tociwch yr egin yn ystod y ddwy flynedd gyntaf i'w hannog i dyfu'n llwyni trwchus wrth fôn y berth;
    - gallwch adael i'r egin dyfu a'u plygu wedyn ar ôl 5 – 8 mlynedd.

| Opsiwn Rheoli 7A | Creu coridor newydd ar un lan nant ar dir wedi'i wella. |
|---|---|
| Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig<br>Bydd gennych reolaeth ar un lan y cwrs dŵr yn unig neu mae'r tir ar ochr arall y cwrs dŵr yn gynefin. | |
| ▪ Rhaid cadw stoc allan o 3.5 metr sgwâr fan leiaf o dir sy'n ffinio â'r cwrs dŵr am bob metr o gwrs dŵr o fewn y coridor glan nant.<br>▪ Rhaid i o leiaf 1 metr o led o'r darn di-stoc fod yn dir wedi'i wella.<br>▪ Bydd mesuriadau'n cael eu gwneud o ymyl y lan.<br>▪ Rhaid codi ffens ar hyd y coridor i gadw da byw allan dros gyfnod y contract a gadael coed, llwyni a phlanhigion tal brodorol i aildyfu'n naturiol.<br>▪ Os bydd clymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymsefydlu yn y coridor, rhaid gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor, ei gadw a gweithredu yn unol â hynny. Rhaid cofnodi'r gwaith a wneir yn y Dyddiadur Gwaith.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor<br>▪ Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br><br>**Peidiwch â**<br>▪ Sythu, lledu nac ailgyfeirio'r cwrs dŵr. | |
| **Opsiwn Rheoli 7B** | **Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella.** |
| Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig<br>Bydd gennych reolaeth ar ddwy lan y cwrs dŵr. | |
| ▪ Rhaid cadw stoc allan o 7 metr sgwâr fan leiaf o dir sy'n ffinio â'r cwrs dŵr am bob metr o gwrs dŵr.<br>▪ Rhaid i o leiaf 1 metr o led o'r darn di-stoc fod yn dir wedi'i wella.<br>▪ Bydd mesuriadau'n cael eu gwneud o ymyl y lan.<br>▪ Rhaid codi ffens ar hyd y coridor i gadw da byw allan dros gyfnod y contract a gadael coed, llwyni a phlanhigion tal brodorol i aildyfu'n naturiol.<br>▪ Os bydd clymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymsefydlu yn y coridor, rhaid gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor, ei gadw a gweithredu yn unol â hynny. Rhaid cofnodi'r gwaith a wneir yn y Dyddiadur Gwaith.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor<br>▪ Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o | |

fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â**
- Sythu, lledu nac ailgyfeirio'r cwrs dŵr.

| Opsiwn Rheoli 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
|---|---|

Ar gael yn unig ar goridorau glan afon lle nad oedd coetir yn bresennol yn ystod neu cyn ei greu.
Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig

- Rhaid cynnal y ffensys sy'n bod eisoes i gadw da byw allan dros gyfnod y contract.
- Mae coridorau hyd at uchafswm o 10 metr o led bob ochr i'r cwrs dŵr yn gymwys am yr opsiwn hwn.
- Os bydd clymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymsefydlu yn y coridor, rhaid gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) am gyngor, ei gadw a gweithredu yn unol â hynny. Rhaid cofnodi'r gwaith a wneir yn y Dyddiadur Gwaith.
- Gellir plannu'r ardal â choed gan ddefnyddio'r mathau a restrir yn nhabl 1.1. ar dudalen 27.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor.

**Peidiwch â**
- Sythu, lledu nac ailgyfeirio'r cwrs dŵr
- Plannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea).

| Opsiwn Rheoli 9A | Creu coridor newydd ar un lan nant ar dir wedi'i wella, a phlannu coed |
|---|---|

Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig
Bydd gennych reolaeth ar un lan y cwrs dŵr yn unig neu mae'r tir ar ochr arall y cwrs dŵr yn gynefin.

- Rhaid ffensio o leiaf 3.5 metr sgwâr am bob 1 metr o nant i gadw da byw draw.
- Rhaid i o leiaf 1 metr o led y coridor bob ochr i'r nant fod yn dir wedi'i wella. Gall y gweddill fod yn gynefin glan nant.
- Bydd mesuriadau'n cael eu gwneud o ymyl y lan.
- Os bydd clymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymsefydlu yn y coridor, rhaid gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) am gyngor, ei gadw a gweithredu yn unol â hynny. Rhaid cofnodi'r gwaith a wneir yn y Dyddiadur Gwaith.
- Rhaid plannu o leiaf 30 o goed bob 100 metr llinellol, gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol, o stoc leol.
- Rhaid plannu coed newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor
- Mae'r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â**
- Sythu, lledu nac ailgyfeirio'r cwrs dŵr.
- Plannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea).

| **Opsiwn Rheoli 9B** | **Creu coridor glan nant newydd ar dir wedi'i wella bob ochr i gwrs dŵr, a phlannu coed** |
|---|---|
| Bydd gennych reolaeth ar ddwy lan y cwrs dŵr.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid ffensio o leiaf 7 metr sgwâr am bob 1 metr o nant i gadw da byw draw.<br>▪ Rhaid i o leiaf 1 metr o led y coridor bob ochr i'r nant fod yn dir wedi'i wella. Gall y gweddill fod yn gynefin glan nant.<br>▪ Bydd mesuriadau'n cael eu gwneud o ymyl y lan.<br>▪ Os bydd clymog Japan neu Jac y neidiwr yn tyfu neu'n ymsefydlu yn y coridor, rhaid gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) am gyngor, ei gadw a gweithredu yn unol â hynny. Rhaid cofnodi'r gwaith a wneir yn y Dyddiadur Gwaith.<br>▪ Rhaid plannu o leiaf 30 o goed bob 100 metr llinellol, gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol, o stoc leol.<br>▪ Rhaid plannu coed newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn nhir y coridor.<br>▪ Mae'r gwaith ffensio a phlannu yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br><br>**Peidiwch â**<br>▪ Sythu, lledu nac ailgyfeirio'r cwrs dŵr.<br>▪ Plannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea). | |

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 7A, 7B, 8, 9A A 9B)**

- Gellir cynnwys gatiau mynediad.
- Dylech gael eich planhigion gan gyflenwyr sy'n defnyddio had neu doriadau lluosogi lleol (gweler tabl 1.1 am rywogaethau addas). Peidiwch â phlannu coed addurnol.
- Os ydych am blannu coed sydd dros ddwy flwydd oed, clymwch nhw wrth byst. Dylech osod llewys coed.
- Peidiwch â'u plannu mewn tywydd gwlyb iawn neu rewllyd.



**Coridor newydd ar lan nant**

| **Opsiwn Rheoli 10** | **Troi tir âr sydd â safleoedd archeolegol yn borfa barhaol** |
|---|---|
| Ni chewch gynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar safle archeolegol os oes cytundeb rheoli wedi'i lunio ar ei gyfer, gan y byddai hynny'n golygu'ch talu ddwywaith.<br>Mae'r Opsiwn Rheoli hwn ar gael yn unig ar dir lle cafodd cnwd âr ei dyfu yn y cyfnod cyfeirio 2007-2010.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig. | |
| ▪ Rhaid codi ffens o leiaf 5 metr o'i ffin allanol o amgylch y safle archeolegol. Os nad yw hyn yn bosib gan fod ei berimedr lai na 5 metr o ffin cae, gellid defnyddio ffin y cae fel terfyn y ffens ond bydd yn dal gofyn codi ffens yn y man hwn i gadw stoc allan os oes angen trwy godi un yn lle'r ffens bresennol.<br>▪ Rhaid ymgynghori â CADW a chael ei ganiatâd ar Henebion Rhestredig ac ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Leol ar Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol, ynghylch maint a lleoliad y gwaith.<br>▪ Rhaid creu porfa erbyn diwedd blwyddyn 1. Os oes angen ac os medrwch, dylech ail hau drwy ddrilio'n uniongyrchol neu ei dros-hau rhag tyrchu'r ddaear, ond cewch rotofetio'r tir (yn hytrach na'i aredig) os oes angen. Peidiwch â gosod systemau draenio newydd na thyrchu'r isbridd.<br>▪ Dylech bori neu dorri'r borfa i sicrhau na chaiff dyfu'n uwch na 15 centimetr.<br>▪ Dylid trin y tyfiant wrth iddo gydio i rwystro chwyn amaethyddol a phrysgwydd.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y borfa.<br>▪ Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol. | |

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 10)**

- Lle medrwch, defnyddiwch gymysgedd o laswelltau traddodiadol yn hytrach na defnyddio rhywogaethau wedi'u gwella. Gall cwmnïau hadau amaethyddol roi cyngor ar gymysgedd addas ar gyfer eich ardal a'r math o bridd sydd gennych, ond bydd cymysgedd o hadau sy'n cynnwys rhai o'r canlynol yn cynnal ei werth fel tir pori ac yn cynyddu amrywiaeth y borfa: rhonwellt y ci, rhonwellt, gweunwellt llyfn neu arw, maeswellt y cŵn, maeswellt cyffredin, perwellt y gwanwyn, peiswellt coch a pheiswellt y defaid.

| **Opsiwn Rheoli 11** | **Adfer perllan draddodiadol** |
|---|---|
| Rhaid bod o leiaf un goeden o'r berllan wreiddiol ar ôl.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Llenwch fylchau trwy blannu mathau traddodiadol o goed ffrwythau (afalau, gellyg, ceirios, eirin). Bydd eich meithrinfa goed leol yn gallu rhoi cyngor i chi ar fathau lleol sy'n tyfu'n dda yn eich ardal.<br>▪ Rhaid plannu'r coed ffrwythau ar wreiddgyff safonol neu led-safonol gyda bwlch o 10 i 20 metr rhwng pob un. Rhaid plannu coed newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Rhaid plannu'r coed o leiaf 5 metr o ffin y berllan.<br>▪ Amddiffynnwch goed newydd trwy eu clymu wrth byst a chodi giardiau coed.<br>▪ Tociwch hen goed i'w hadfer yn goed cynhyrchiol.<br>▪ Siapiwch hen goed a choed newydd trwy eu tocio.<br>▪ Cadwch yr holl goed sydd eisoes yn y berllan.<br>▪ Gadewch rywfaint o bren marw ar y coed oni bai ei fod wedi'i heintio neu'n niweidio'r | |

goeden. Rhowch bren marw mewn pentwr mewn man lled-gysgodol er lles ffyngau ac infertebrata.
- Tynnwch ffotograffau o ddeunydd anniogel neu heintiedig i'w dangos os gofynnir amdanynt.
- Gadewch i borfa dyfu o dan y coed at uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu fel a ganlyn:
  i. Dylai o leiaf 20% o’r borfa fod yn fyrrach na 7 centimetr o uchder ac o leiaf 20% fod yn dalach na 7 centimetr o uchder er mwyn i blanhigion allu blodeuo ac i greu cynefin mwy amrywiol.
  ii. Rheolwch y tyfiant trwy ei bori neu ei dorri. Ewch â deunydd swmpus rydych wedi’i dorri o’r safle.
- Rhaid tocio coed afalau a gellyg rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill.
- Rhaid tocio coed ceirios, damsons ac eirin rhwng 1 Mai a 30 Medi.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar yr holl dir yn y berllan.
- Rhaid cofnodi manylion unrhyw waith tocio coed ffrwythau o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Mae’r gwaith plannu coed yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau’r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a’i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau’r gwaith gosod llewys coed yn unol â’r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

Llosgi pren rydych wedi’i dorri oni bai ei fod wedi’i heintio.

| **Opsiwn Rheoli 12** | **Creu perllan newydd ar dir wedi’i wella** |
|---|---|

Rhaid cynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar dir wedi'i wella.
Peidiwch â’i gynnal ar Heneb Restredig

- Plannwch fathau traddodiadol o goed ffrwythau (afalau, gellyg, ceirios, eirin). Bydd eich meithrinfa goed leol yn gallu rhoi cyngor i chi ar fathau lleol sy'n tyfu'n dda yn eich ardal.
- Rhaid plannu'r coed ffrwythau ar wreiddgyff safonol neu led-safonol gyda bwlch o 10 i 20 metr rhwng pob un.
- Rhaid plannu coed newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.
- Rhaid plannu’r coed o leiaf 5 metr o ffin y berllan.
- Amddiffynnwch goed newydd trwy eu clymu wrth byst a chodi giardiau coed.
- Siapiwch goed newydd trwy eu tocio.
- Gadewch rywfaint o bren marw ar y coed oni bai ei fod wedi'i heintio neu'n niweidio'r goeden. Rhowch bren marw mewn pentwr mewn man lled-gysgodol er lles ffyngau ac infertebrata.
- Tynnwch ffotograffau o ddeunydd anniogel neu heintiedig i'w dangos os gofynnir amdanynt.
- Gadewch i'r borfa dyfu at uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu fel a ganlyn:
  i. Dylai o leiaf 20% o’r borfa fod yn fyrrach na 7 centimetr o uchder ac o leiaf 20% fod yn dalach na 7 centimetr o uchder er mwyn i blanhigion allu blodeuo ac i greu cynefin mwy amrywiol.
  ii. Rheolwch y tyfiant trwy ei bori neu ei dorri. Ewch â deunydd swmpus rydych wedi’i dorri o’r safle.
- Rhaid tocio coed afalau a gellyg rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill.
- Rhaid tocio coed ceirios, damsons ac eirin rhwng 1 Mai a 30 Medi.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar yr holl dir yn y berllan.
- Rhaid cofnodi manylion unrhyw waith tocio coed ffrwythau o dan yr opsiwn hwn yn y

Dyddiadur Gwaith.
- Mae'r gwaith plannu coed yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith gosod llewys coed yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol (gweler tudalen 108).

**Peidiwch â:**

- Llosgi pren rydych wedi'i dorri oni bai ei fod wedi'i heintio.

## CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 11 A 12)

### Tocio

- Mae tocio coed yn eu hannog i gynhyrchu ffrwythau drwy adael i oleuni gyrraedd canol y goeden i helpu i aeddfedu'r ffrwyth a'u hysgogi i gynhyrchu egin newydd.
- Mae'n cadw corun y goeden yn agored fel bod aer yn cael llifo drwyddi gan leihau'r perygl o haint.
- Mae'n rhwystro'r goeden rhag mynd yn bendrwm a chael ei niweidio gan wyntoedd mawr yr hydref.
- Mae'n creu cydbwysedd iach o hen bren sy'n dwyn ffrwyth ac egin ifanc i gymryd ei le.
- Mae tocio coed ffrwythau yn waith crefftus, ac efallai y bydd angen i chi geisio cymorth proffesiynol neu fynd ar gwrs hyfforddi.
- Mae angen tocio coeden ffrwythau sydd wedi'i hesgeuluso yn raddol dros o leiaf dair blynedd rhag niweidio'r goeden ac er mwyn ei chadw'n gynhyrchiol. Ar ôl ei hadfer, rhaid ei thocio'n rheolaidd.
- Dylid tocio coed afalau a gellyg rhwng mis Hydref a mis Ebrill, gan osgoi tywydd oer a'i wneud fel ei fod yn ymestyn oes y goeden.
- Rhaid tocio coed ceirios, damsons ac eirin rhwng mis Mai a mis Medi i leihau'r perygl o haint y ddeilen arian.
- Rhaid torri'r goeden yn lân ar ongl o'r corun fel bod dŵr glaw'n llifo'n rhwydd oddi arni.
- Yn ystod y flwyddyn docio gyntaf dylech dorri'r canlynol:
    1. Crachgoed sy'n tyfu ar fôn y goeden neu o dan yr impiad - mae'n debygol eu bod yn tyfu o'r gwreiddgyff.
    2. Canghennau mawr marw a changhennau is sy'n rhwystro anifeiliaid rhag pori neu sy'n ei gwneud yn anodd torri'r borfa; torrwch y gangen wrth ei bôn; peidiwch â thorri cangen yn ei hanner.
    3. Canghennau mawr sy'n croesi yng nghanol y corun neu sy'n rhwbio yn erbyn ei gilydd.
    4. Tyfiant unionsyth cryf. Y nod yw ail-greu fframwaith o rhwng pump a deuddeg o ganghennau neu brif-gainc sy'n tyfu o'r boncyff tra'n cadw siâp naturiol y goeden. Y prif-gainc yw'r ysgerbwd naturiol sy'n cynnal y canghennau ochrol a'r sbardunau sy'n dwyn ffrwythau.
- Mewn blynyddoedd dilynol:
    1. Dylech leihau'r corun drwy dorri canghennau ochrol a sbardunau sy'n tyfu'n rhy drwchus, gan adael bonion tua 1 centimetr o hyd. Bydd egin newydd, sy'n tyfu o fôn y toriadau hyn, yn dwyn ffrwyth yn y pen draw.
    2. Gellir hyfforddi egin ifanc cryf sy'n tyfu mewn lle da yn agos i ganol y goeden i fod yn brif-gainc newydd.

**Plannu perllannau newydd**

- Y lle delfrydol yw llethr esmwyth sy'n wynebu'r de â phridd dwfn ychydig yn asidig, sydd yn llygad yr haul ac wedi'i gysgodi rhag y prifwynt a halen y môr. Dylech osgoi mannau rhewllyd (pantiau isel lle mae aer oer yn ymgasglu).
- Nid yw priddoedd bas, alcalaidd na dwrlawn yn addas.
- Gall safleoedd agored fod yn addas os ydynt yn cael eu cysgodi gan berth neu goed.
- Dewiswch fathau o goed sy'n cael eu tyfu'n draddodiadol yn eich ardal. Dylech ddewis sawl math fel eu bod yn cael croesbeillio. Bydd eich meithrinfa coed ffrwythau leol yn gallu rhoi cyngor i chi ar hyn. Mae gan rai rhannau o Gymru hen fathau sy'n benodol i'w hardal.
- Plannwch goed sydd â gwreiddiau noeth rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth, ond gallwch blannu coed sy'n tyfu mewn potiau unrhyw bryd cyn belled â'u bod yn cael digon o ddŵr. Mae coed mewn potiau yn ddrutach.
- Codwch dywarchen o leiaf 1m sgwâr a phalu twll ddwywaith dyfnder y gwreiddiau. Llaciwch y pridd ar y gwaelod a'i gymysgu â thail buarth sydd wedi pydru'n dda. Rhowch y goeden yn y twll, gan sicrhau bod yr impiad (lle mae'r gwreiddgyff yn cysylltu â'r coesyn) uwchben y pridd. Llenwch y twll, gan gywasgu'r pridd o amgylch y gwreiddiau i sicrhau nad oes unrhyw bocedi aer.
- Taenwch dail buarth ar y ddaear o amgylch y goeden. Rhaid cadw darn o dir 1m sgwâr o amgylch y goeden yn glir o laswellt a chwyn am o leiaf 3-4 blynedd a dylech ei orchuddio â thail unwaith y flwyddyn.
- Gyrrwch bostyn i mewn i'r ddaear (naill ai'n unionsyth, neu ar ongl o 45º) a chlymwch y goeden wrth y postyn â chwlwm coeden (sydd ar gael gan eich cyflenwr neu unrhyw ganolfan arddio dda). Codwch giard coed o amgylch y goeden os ydych am bori anifeiliaid yn y berllan (gweler Atodiad 4 am fanyleb giard coed).
- Rhowch ddigon o ddŵr i'r goeden, a gofalwch ei bod yn cael ei dyfrio'n rheolaidd yn ystod tywydd sych iawn yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn helpu'r goeden i oroesi.
- Ar ôl y flwyddyn gyntaf dylech reoli twf y goeden drwy ei thocio (gweler uchod).



**Enghraifft o berllan sydd wedi ennill ei phlwyf**

| Opsiwn Rheoli 13 | Plannu coed brodorol unigol ar dir wedi'i wella |
|---|---|
| Rhaid cynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar dir wedi'i wella.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid plannu rhywogaethau llydanddail brodorol (edrychwch ar dabl 1.1) yn unol â bylchiad traddodiadol tir parc ar dir parc cofrestredig.<br>▪ Bydd angen bwlch o 10 metr fan leiaf rhwng pob coeden ar dir nad yw'n dir parc traddodiadol ac o leiaf 10 metr o'r ffin.<br>▪ Rhaid rhoi llewys coed o amgylch coed neu godi ffensys i gadw da byw allan.<br>▪ Os ydych yn plannu coed ar dir parc cofrestredig rhaid i chi ymgynghori â'r awdurdod perthnasol a chytuno ar fylchau / rhywogaethau priodol.<br>▪ Rhaid plannu coed newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Mae'r gwaith plannu coed, gosod llewys coed a'r gwaith ffensio yn cael eu hystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio a gosod llewys coed yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br><br>**Peidiwch â**<br>▪ Phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea). | |

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 13)**

**Plannu coed**

- Bydd eich meithrinfa goed leol yn gallu rhoi cyngor i chi ar ba rai o'r coed a'r llwyni a restrir yn Nhabl 1 sy'n addas ar gyfer eich safle chi. Os na allwch blannu'r coed ar unwaith, cloddiwch ffos ar eu cyfer cyn iddynt gyrraedd a storiwch y planhigion ynddi gyda'r gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n wlyb ac yn oer.
- Plannwch goed sydd â gwreiddiau noeth rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth, ond gallwch blannu coed sy'n tyfu mewn potiau unrhyw bryd cyn belled â'u bod yn cael digon o ddŵr. Mae coed mewn potiau yn ddrutach. Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn unrhyw gyfnodau cynnes gan eu cryfhau i ddygymod ag effaith unrhyw gyfnod o sychder sy'n dilyn yn y gwanwyn. Ar safleoedd agored, ar glai trwm, neu mewn mannau sy'n agored i wyntoedd mawr y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu coed yn y gwanwyn.
- Dewiswch goed hirgyff os oes angen coed unigol neu grwpiau bach o goed. Ni fydd chwyn yn cystadlu gymaint â nhw ond maent yn ddrutach ac am eu bod yn dioddef mewn sychder, mae'n anoddach na thrawsblaniadau a chwipiau i'w cael i gydio. Mae angen eu clymu wrth byst coed a rhoi rhwymau coed o'u hamgylch a'u hamddiffyn rhag peiriannau ac anifeiliaid sy'n pori dail.
- Codwch dywarchen o leiaf 1m sgwâr a phalu twll ddwywaith dyfnder y gwreiddiau. Llaciwch y pridd ar y gwaelod a'i gymysgu â thail buarth sydd wedi pydru'n dda. Rhowch y goeden yn y twll ac ail-lenwi'r twll, gan gywasgu'r pridd o amgylch y gwreiddiau i sicrhau nad oes unrhyw bocedi aer.
- Taenwch dail buarth ar y ddaear o amgylch y goeden. Rhaid cadw darn o dir 1 metr sgwâr o amgylch y goeden yn glir o laswellt a chwyn am o leiaf 3-4 blynedd a dylech ei orchuddio â thail neu sglodion rhisgl unwaith y flwyddyn.
- Gyrrwch bostyn i mewn i'r ddaear (naill ai'n unionsyth, neu ar ongl o 45º) a chlymwch y goeden wrth y postyn â chwlwm coeden (sydd ar gael gan eich cyflenwr neu unrhyw ganolfan arddio dda). Gosodwch giard am y goeden os ydych am bori anifeiliaid ar y tir (gweler Atodiad 5 am fanyleb giard coed).

- Rhowch ddigon o ddŵr i'r goeden, a gofalwch ei bod yn cael ei dyfrio'n rheolaidd yn ystod tywydd sych iawn yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn helpu’r goeden i oroesi.



**Tir parc aeddfed**

| **Opsiwn Rheoli 14** | **Ymrwymo i chwistrellu 100% o’r slyri** |
|---|---|
| Rhaid eich bod yn cynhyrchu ac yn darparu lle i storio o leiaf 100,000 o litrau o slyri. | |
| ▪ Rhaid cadw’r storfeydd slyri mewn cyflwr da.<br>▪ Rhaid gwasgaru’r holl slyri a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar y daliad trwy ddefnyddio chwistrellydd, system ‘trailing shoe’ neu far diferu dros gyfnod y contract.<br>▪ Rhaid cofnodi’r dull gwasgaru a swm y slyri yn y dyddiadur gwaith.<br>▪ Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn, ni chewch wneud cais am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir i brynu peiriant chwistrellu slyri, ‘trailing shoe’ na bar diferu o dan y Thema Defnyddio Tail/Slyri yn Effeithiol.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Chwistrellu’n uniongyrchol i’r pridd ar dir lle ceir Heneb Restredig – defnyddiwch far diferu neu offer ‘trailing shoe’. | |

| **Opsiwn Rheoli 14B** | **Ymrwymo i chwistrellu 75% o’r slyri** |
|---|---|
| Rhaid bod gennych ddigon o le i storio o leiaf 100,000 o litrau o slyri. | |
| ▪ Rhaid cadw storfeydd slyri mewn cyflwr da<br>▪ Rhaid gwasgaru o leiaf 75% o’r slyri a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar y daliad, gan ddefnyddio chwistrellydd, system ‘trailing shoe’ neu far diferu dros gyfnod y contract.<br>▪ Gellwch wasgaru hyd at 25% o’r slyri trwy ddulliau confensiynol ar dir wedi’i wella o fewn tir y contract.<br>▪ Rhaid cofnodi lleoliad, y dull gwasgaru a swm y slyri yn y Dyddiadur Gwaith.<br>▪ Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn, ni chewch wneud cais am grant i brynu peiriant chwistrellu slyri, ‘trailing shoe’ na bar diferu o dan Thema Defnyddio Tail/Slyri yn Grantiau Effeithiolrwydd Glastir<br><br>**Peidiwch â:**<br>Chwistrellu’n uniongyrchol i’r pridd ar dir lle ceir Heneb Restredig – defnyddiwch far diferu neu offer ‘trailing shoe’ | |




**Chwistrellu slyri** **Slyri wedi'i chwistrellu**

| **Opsiwn Rheoli 15** | **Tir pori parhaol heb fewnbynnau** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir wedi'i wella neu dir cynefin | |
| ▪ Rhaid cadw'r tir fel glaswelltir.<br>▪ Rhaid rheoli'r tir drwy bori anifeiliaid arno i gynnal llain las o uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu.<br>▪ Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 centimetr o uchder ac o leiaf 20% ohoni'n dalach na 7 centimetr o uchder.<br>▪ Rheolwch y borfa trwy ei phori i godi tyfiant y llynedd.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.<br>▪ Torri'r llystyfiant ar unrhyw adeg ac eithrio i reoli chwyn niweidiol neu redyn. Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith torri ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.<br>▪ Rowlio na llyfnu'r tir rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith rowlio a llyfnu ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.<br>▪ Torri cnwd o wair neu silwair. | |
| **Opsiwn Rheoli 15B** | **Tir pori parhaol ag ychydig o fewnbynnau** |
| I'w gynnal ar dir wedi'i wella neu dir cynefin | |
| ▪ Gallwch gynnal yr opsiwn ar dir pori sydd naill ai'n dir wedi'i wella neu'n dir cynefin.<br>▪ Rhaid cadw'r tir fel glaswelltir.<br>▪ Rhaid rheoli'r tir drwy bori anifeiliaid arno i gynnal llain las o uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu.<br>▪ Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 centimetr o uchder ac o leiaf 20% ohoni'n dalach na 7 centimetr o uchder.<br>▪ Rheolwch y borfa trwy ei phori i godi tyfiant y flwyddyn.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn. | |

**Peidiwch â:**

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri’r llystyfiant ar unrhyw adeg ac eithrio i reoli chwyn niweidiol neu redyn. Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi’r gwaith torri ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Rowlio na llyfnu'r tir rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi’r gwaith rowlio a llyfnu ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Gwasgaru mwy na 50Kg/hectar o nitrogen y flwyddyn fel gwrtaith anorganig. Os byddwch yn gwasgaru tail buarth, naill ai ar ei ben ei hun neu yn ychwanegol at wrtaith anorganig, ni ddylai cyfanswm y nitrogen fod yn fwy na 100Kg/hectar mewn blwyddyn galendr a dylech ei gofnodi yn y Dyddiadur Gwaith.
- Torri cnwd o wair na silwair.

| **Opsiwn Rheoli 15C** | **Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynnau a phori cymysg** |
|---|---|

I’w gynnal ar dir wedi’i wella neu dir cynefin

- Gallwch gynnal yr opsiwn ar dir pori sydd naill ai’n dir wedi’i wella neu’n dir cynefin.
- Rhaid cadw'r tir fel glaswelltir.
- Rhaid rheoli'r tir drwy bori anifeiliaid arno i gynnal llain las o uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu.
- Rhaid i o leiaf 30% o’r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o’r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 20% o’r borfa fod yn fyrrach na 7 centimetr o uchder ac o leiaf 20% ohoni’n dalach na 7 centimetr o uchder.
- Rheolwch y borfa trwy ei phori i godi tyfiant y flwyddyn.
- Rhaid cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy’n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.

**Peidiwch â:**

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri’r llystyfiant ar unrhyw adeg ac eithrio i reoli chwyn niweidiol neu redyn. Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi’r gwaith torri ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Rowlio na llyfnu'r tir rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi’r gwaith rowlio a llyfnu ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Torri cnwd o wair na silwair.

| **Opsiwn Rheoli 15D** | **Tir pori parhaol ag ychydig o fewnbynnau a phori cymysg** |
|---|---|

Gellir ei gynnal ar dir pori parhaol sy’n dir wedi’i wella neu dir cynefin

- Rhaid cadw'r tir fel glaswelltir.
- Rhaid rheoli'r tir drwy bori anifeiliaid arno i gynnal llain las o uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu.
- Rhaid i o leiaf 30% o’r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o’r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr
- Rhaid i o leiaf 20% o’r borfa fod yn fyrrach na 7 centimetr o uchder ac o leiaf 20% ohoni’n dalach na 7 centimetr o uchder.
- Rheolwch y borfa trwy ei phori i godi tyfiant y flwyddyn.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy’n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri'r llystyfiant ar unrhyw adeg ac eithrio i reoli chwyn niweidiol neu redyn. Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith torri ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Rowlio na llyfnu'r tir rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith rowlio a llyfnu ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Gwasgaru mwy na 50Kg/hectar o nitrogen y flwyddyn fel gwrtaith anorganig. Os byddwch yn gwasgaru tail buarth, naill ai ar ei ben ei hun neu yn ychwanegol at wrtaith anorganig, ni ddylai cyfanswm y nitrogen fod yn fwy na 100Kg/hectar mewn blwyddyn galendr a dylech ei gofnodi yn y dyddiadur gwaith.
- Torri cnwd o wair na silwair.

| **Opsiwn Rheoli 19** | **Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir cynefin caeedig yn unig.

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Cynhaliwch y glaswellt a'r brwyn drwy eu pori i sicrhau llain las sydd ag 80% o'i laswelltau (heb gynnwys brwyn) yn 5-30 centimetr o uchder yn ystod y tymor tyfu.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri mwy nag un rhan o dair o'r tir sydd o dan frwyn bob blwyddyn mewn cylchdro.
- Rowlio, llyfnu na thorri rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.

| **Opsiwn Rheoli 19B** | **Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg** |
|---|---|


I'w gynnal ar dir cynefin caeedig yn unig.
I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig.

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Cynhaliwch y glaswellt a'r brwyn drwy eu pori i sicrhau llain las sydd ag 80% o'i laswelltau (heb gynnwys brwyn) yn 5-30 centimetr o uchder yn ystod y tymor tyfu.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri mwy nag un rhan o dair o'r tir sydd o dan frwyn bob blwyddyn mewn cylchdro.
- Rowlio, llyfnu na thorri rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.



**Enghraifft a laswelltir gwlyb ar dir isel**



**Gweundir arfordirol / llawr gwlad**

| **Opsiwn Rheoli 20** | **Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir cynefin caeedig yn unig.<br>I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig. | |
| ▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.<br>▪ Rhwystrwch brysgwydd ac eithin rhag tagu'r tir drwy bori gwartheg, defaid, geifr neu ferlod arno.<br>▪ Ar weundir llawr gwlad dylai o leiaf hanner (50%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug a llus.<br>▪ Ar weundir arfordirol dylai o leiaf chwarter (25%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug, llus ac eithin mân.<br>▪ Rhaid i rug aeddfed prennaidd ac ail dyfiant ifanc fod yn bresennol.<br>▪ Rhaid llosgi llystyfiant ar weundir llawr gwlad yn unol â'r Rheoliad Llosgi Grug a Glaswellt (2008) a'r cod Llosgi Grug a Glaswellt.<br>▪ Ni ddylai mwy na chwarter o'r gweundir ddangos arwyddion o losgi yng nghyfnod y contract (5 mlynedd).<br>▪ Rhaid cynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar barseli cyfan.<br>▪ Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau pori fod yn uwch na'r canlynol unrhyw bryd:<br>– 1 Ebrill – 30 Mehefin 0.4 UDB/hectar<br>– 1 Gorffennaf – 30 Medi 0.2 UDB/hectar<br>– 1 Hydref – 31 Mawrth 0.1 UDB/hectar<br>▪ Rhaid cofnodi'r gwaith llosgi ar y tir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.<br>▪ Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Rhoi porthiant atodol i dda byw arno. | |
| **Opsiwn Rheoli 20B** | **Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg** |
| I'w gynnal ar dir cynefin caeedig yn unig.<br>I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig. | |
| ▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn. | |

- Rhwystrwch brysgwydd ac eithin rhag tagu’r tir drwy bori gwartheg, defaid, geifr neu ferlod arno.
- Ar weundir llawr gwlad dylai o leiaf hanner (50%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug a llus.
- Ar weundir arfordirol dylai o leiaf chwarter (25%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug, llus ac eithin mân.
- Rhaid i rug aeddfed prennaidd ac ail dyfiant ifanc fod yn bresennol.
- Rhaid llosgi llystyfiant ar weundir llawr gwlad yn unol â'r Rheoliad Llosgi Grug a Glaswellt (2008) a'r cod Llosgi Grug a Glaswellt.
- Ni ddylai mwy na chwarter o'r gweundir ddangos arwyddion o losgi yng nghyfnod y contract (5 mlynedd).
- Rhaid cynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar barseli cyfan.
- Rhaid i o leiaf 30% o’r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o’r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau pori fod yn uwch na'r canlynol unrhyw bryd:
  - 1 Ebrill – 30 Mehefin 0.4 UDB/hectar
  - 1 Gorffennaf – 30 Medi 0.2 UDB/hectar
  - 1 Hydref – 31 Mawrth 0.1 UDB/hectar
- Rhaid cofnodi’r gwaith llosgi ar y tir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Rhaid cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

**Peidiwch â:**

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

| **Opsiwn Rheoli 21** | **Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori** | |
|---|---|---|

I’w gynnal ar dir cynefin yn unig.
I’w gynnal ar barseli cyfan yn unig.

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy’n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Cynhaliwch y borfa drwy ganiatáu i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arni neu drwy roi’r gorau i bori arni pan fydd angen.
- Morfa bori: dylai o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 10 centimetr o uchder ac o leiaf 20% ohoni fod yn dalach na 10 centimetr o uchder.
- Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau stocio fod yn uwch na 0.4 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

**Peidiwch â:**

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Mynd â cherbydau arno ac eithrio mewn argyfwng.  Rhaid cofnodi’r cerbydau argyfwng sy’n cael eu defnyddio ar dir yn yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Ailagor unrhyw ddraeniau sy'n bod eisoes.



**Morfa heli**

| **Opsiwn Rheoli 21B** | **Rheoli morfeydd heli sy’n cael eu pori â phori cymysg** |
|---|---|
| I’w gynnal ar dir cynefin yn unig.<br>I’w gynnal ar barseli cyfan yn unig. | |
| ▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy’n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.<br>▪ Cynhaliwch y borfa drwy ganiatáu i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arni neu drwy roi’r gorau i bori arni pan fydd angen.<br>▪ Morfa bori: dylai o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 10 centimetr o uchder ac o leiaf 20% ohoni fod yn dalach na 10 centimetr o uchder.<br>▪ Rhaid i o leiaf 30% o’r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.<br>▪ Rhaid i o leiaf 15% o’r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.<br>▪ Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau stocio fod yn uwch na 0.4 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.<br>▪ Rhaid cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.<br>▪ Mynd â cherbydau arno ac eithrio mewn argyfwng.  Rhaid cofnodi’r cerbydau argyfwng sy’n cael eu defnyddio ar dir yn yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.<br>▪ Ailagor unrhyw ddraeniau sy'n bod eisoes. | |
| **Opsiwn Rheoli 22** | **Cynnal gweirgloddiau** |
| ▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy’n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn, ond fe gewch wasgaru tail buarth arno bob yn ail flwyddyn.<br>▪ Dylech fynd ag anifeiliaid pori o’r weirglodd cyn 15 Mai a’u cadw oddi arni am o leiaf 10 wythnos.<br>▪ Mae'n dderbyniol gwneud gwywair ond nid silwair.  Rhaid troi’r gwywair o leiaf ddwywaith.<br>▪ Cynhaliwch yr adlodd gyda 80% o'r glaswelltau yn 5-15 centimetr o uchder. | |

- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

**Peidiwch â:**
- ei lladd cyn 15 Gorffennaf mewn ardal lai ffafriol (ALFf), ac 8 Gorffennaf y tu allan i'r ALFf. Gadewch o leiaf 5% heb ei ladd bob blwyddyn. Rhaid nodi dyddiad lladd y weirglodd yn y dyddiadur gwaith.
- gadael anifeiliaid pori arni am bedair wythnos ar ôl ei lladd.

| **Opsiwn Rheoli 23** | **Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig.

- Ni chaiff y cornel cae a ddewisir ar gyfer yr Opsiwn Rheoli hwn fod yn fwy na 0.35 hectar.
- Rhaid cynnal ffens o amgylch y darn o dir i gadw da byw allan.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sydd wedi'i amgáu ar gyfer yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol arno i'ch anifeiliaid.
- Pori'r tir na'i ladd, na gwneud unrhyw beth allai rwystro'r llystyfiant rhag tyfu.



**Cornel cae gyda ffens i gadw stoc allan**

| **Opsiwn Rheoli 24** | **Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig.

- Rhaid tynnu'r ffens bresennol rhwng y coed a'r cae a chodi ffens newydd 6 metr i mewn i'r cae o hen linell y ffens i gadw da byw allan.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sydd wedi'i amgáu ar

gyfer yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol arno i'ch anifeiliaid.
- Pori'r tir na'i ladd, na gwneud unrhyw beth allai rwystro'r llystyfiant rhag tyfu.

| **Opsiwn Rheoli 25** | **Rheoli twyni tywod** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir cynefin yn unig.<br>I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig. | |

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Rhaid rheoli'r tir drwy adael i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arno.
- Ar dwyni tywod dylech gynnal llain las o uchder amrywiol. Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 centimetr o uchder a rhaid i o leiaf 40% fod yn fyrrach na 10 centimetr. Mewn pantiau gwlyb, dylech gynnal llain las y mae llai na 70% ohoni'n laswellt.
- Ni ddylech bori fwy na 0.6 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

| **Opsiwn Rheoli 25B** | **Rheoli twyni tywod â phori cymysg** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir cynefin yn unig.<br>I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig. | |

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Rhaid rheoli'r tir drwy adael i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arno.
- Ar dwyni tywod dylech gynnal llain las o uchder amrywiol. Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 centimetr o uchder a rhaid i o leiaf 40% fod yn fyrrach na 10 centimetr. Mewn pantiau gwlyb, dylech gynnal llain las y mae llai na 70% ohoni'n laswellt.
- Ni ddylech bori fwy na 0.6 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

**Peidiwch â:**
- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

| **Opsiwn Rheoli 26** | **Creu ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.<br>Ni chaiff fod yn rhan o gylchdro.<br>Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1). | |

- Creu ymyl o borfa rhwng 2-8 metr o led wrth ymyl cnwd ŷd, rêp, had llin (erbyn 15 Mai)

neu wreiddgnwd (erbyn 1 Gorffennaf) ym mlwyddyn gyntaf y contract. Mae'n dderbyniol i'r cnwd nesaf ato fod yn wyndwn am hyd at 2 flynedd ym mhob 5 fel rhan o'r cylchdro cnydau.

- Rhaid torri'r borfa yn y flwyddyn gyntaf ond nid cyn 1 Awst. Rhaid cofnodi dyddiad torri'r ymyl yn y dyddiadur gwaith.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir o fewn yr ymyl o borfa.
- Rhaid hau cymysgedd o rywogaethau glaswellt gwyllt o stoc Brydeinig (gweler isod). Rhaid i 15% o'r cymysgedd fod yn laswelltau sy'n tyfu'n dwmpathau a rhaid i'r gweddill fod yn laswelltau meinddail. Bydd angen hau 15kg/hectar o laswellt yn yr hydref neu 21kg/hectar yn y gwanwyn. Mae glaswelltau sy'n tyfu'n dwmpathau yn cynnwys: troed y ceiliog, rhonwellt, maswellt penwyn. Mae glaswelltau meinddail yn cynnwys: peiswellt coch, peiswellt y defaid, gweunwellt garw, gweunwellt llyfn, maeswellt cyffredin, maeswellt rhedegog, maeswellt y cŵn, perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, cynffonwellt y maes.
- Ar ôl y flwyddyn gyntaf, gallwch dorri'r borfa (50% ar unrhyw adeg benodol) ond ddim mwy nag unwaith bob tair blynedd.
- Rhaid cofnodi'r dyddiad sefydlu a'r gwaith lladd porfa ar dir sydd o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith

**Peidiwch â:**

- Defnyddio chwynladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu ac i reoli chwyn hysbysadwy neu blanhigion goresgynnol estron.
- Pori'r ymyl o gwbl ar ôl i'r ymyl gydio.
- Gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag.
- Gadael i'r Opsiwn Rheoli hwn fod yn rhan o gylchdro cnydau'r fferm.
- Defnyddio'r ymyl fel trac.

| **Opsiwn Rheoli 26B** | **Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Cylchdroi Opsiynau cyn symud yr opsiwn hwn.
- Creu ymyl o borfa rhwng 2-8 metr o led wrth ymyl cnwd ŷd, rêp, had llin (erbyn 15 Mai) neu wreiddgnwd (erbyn 1 Gorffennaf).
- Os ydy'r ymyl yn cael ei gadw yn yr un lle, rhaid torri'r borfa yn y flwyddyn gyntaf ond nid cyn 1 Awst. Rhaid cofnodi dyddiad torri'r ymyl yn y Dyddiadur Gwaith.
- Os ydy'r ymyl yn cael ei gadw yn yr un lle, ar ôl y flwyddyn gyntaf gallwch dorri'r borfa (50% ar unrhyw adeg benodol) ond ddim mwy nag unwaith bob tair blynedd.
- Os caiff yr ymyl ei gylchdroi, ni chaniateir ei dorri
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir o fewn yr ymyl o borfa.
- Rhaid hau cymysgedd o rywogaethau glaswellt gwyllt o stoc Brydeinig (gweler isod). Rhaid i 15% o'r cymysgedd fod yn laswelltau sy'n tyfu'n dwmpathau a rhaid i'r gweddill fod yn laswelltau meinddail. Bydd angen hau 15kg/hectar o laswellt yn yr hydref neu 21kg/hectar yn y gwanwyn. Mae glaswelltau sy'n tyfu'n dwmpathau yn cynnwys: troed y ceiliog, rhonwellt, maswellt penwyn. Mae glaswelltau meinddail yn cynnwys: peiswellt coch, peiswellt y defaid, gweunwellt garw, gweunwellt llyfn, maeswellt cyffredin, maeswellt rhedegog, maeswellt y cŵn, perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, cynffonwellt y maes.
- Os caiff yr ymyl ei gylchdroi, ni chaniateir ei dorri
- Rhaid cofnodi'r dyddiad sefydlu a'r gwaith lladd porfa ar dir sydd o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith

**Peidiwch â:**
- Defnyddio chwynladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu ac i reoli chwyn hysbysadwy neu blanhigion goresgynnol estron.
- Pori'r ymyl o gwbl ar ôl i'r ymyl gydio.
- Gwasgaru gwrtaith organig nac anorganig, tail, calch na slag.
- Defnyddio'r ymyl fel trac.

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU 26 A 26B)**
- Bydd eich masnachwr hadau yn gallu rhoi cyngor i chi ar gymysgedd addas ar gyfer y math o bridd a thir sydd gennych.
- Ar y tir y byddwch yn derbyn taliad arno, peidiwch â gadael peiriannau arno'n rheolaidd na'i ddefnyddio fel llwybr. Mae'n dderbyniol caniatáu i beiriannau fynd ar y tir i docio perthi/gwrychoedd neu i dorri'r borfa fel y disgrifir uchod.

| **Opsiwn Rheoli 27** | **Ymylon o wyndwn** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Rhaid cynnal yr Opsiwn Rheoli hwn wrth ydau, had rêp olew, had llin, indrawn neu wreiddiau.
- Rhaid sefydlu ymyl o wyndwn bob blwyddyn rhwng 2-8 metr o led cyn 15 Mai (cnydau ŷd, had llin a rêp), cyn 31 Mai (indrawn) neu cyn 1 Gorffennaf (gwreiddgnydau).
- Rhaid creu gwely had bob blwyddyn a gadael i'r ymyl aildyfu'n naturiol.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar yr holl dir o fewn yr ymyl o wyndwn.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a thorri'r ymyl o wyndwn yn y Dyddiadur Gwaith.

**Peidiwch â:**
- Defnyddio'r ymylon fel trac.
- Ei dorri cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (pa un bynnag sydd hwyraf).



**Ymyl o wyndwn**

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 27)**

- Cewch gadw rhimyn didyfiant o dir hyd at 1m o led rhwng yr ymyl o wyndwn a'r cnwd drwy ei droi neu drwy ddefnyddio chwynladdwr, ond ni fydd y rhimyn hwn o dir yn rhan o'r ymyl o wyndwn.
- Ar y tir y byddwch yn derbyn taliad arno, peidiwch â gadael peiriannau arno'n rheolaidd na'i ddefnyddio fel llwybr. Mae'n dderbyniol caniatáu i beiriannau fynd ar y tir i docio perthi/gwrychoedd.

| **Opsiwn Rheoli 28** | **Cadw sofl dros y gaeaf** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.<br>Rhaid iddo ddilyn cnwd ydau.<br>Caiff fod yn rhan o gylchdro.<br>Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1)**.** | |
| ▪ Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.<br>▪ Casglwch y gwellt o fewn 2 wythnos ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o laswelltau a phlanhigion llydanddail.<br>▪ Peidiwch â gadael mwy na 0.4UDB/hectar o anifeiliaid i bori arno<br>▪ Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.<br>▪ Nid yw sofl indrawn na sofl y cnwd a heuwyd tano yn dderbyniol.<br>▪ Rhaid cofnodi'r gwaith cynaeafu, torri, aredig, trin a drilio ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Defnyddio chwynladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy. Cewch ddefnyddio chwynladdwr o 1 Mawrth.<br>▪ Torri tyfiant ddaeth ar ôl y cynhaeaf cyn 15 Chwefror.<br>▪ Gwasgaru slyri rhwng y cynhaeaf a 1 Mawrth.<br>▪ Defnyddio'r ardal i storio tail.<br>▪ Rhoi porthiant atodol arno.<br>▪ Ei aredig, ei drin na'i ddrilio cyn 1 Mawrth.<br>▪ Gadael mwy na 0.4UDB/hectar o anifeiliaid i bori arno | |
| **Opsiwn Rheoli 29** | **Hau cnwd o dan ydau gwanwyn wrth gwrs dŵr** |
| I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.<br>Caiff fod yn rhan o gylchdro.<br>Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).<br>Rhaid cynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar dir sydd wrth gwrs dŵr sydd wedi'i farcio ar Master Map yr Arolwg Ordnans a lle cafodd cnwd âr ei dyfu yn y cyfnod cyfeirio 2007-2010. | |
| ▪ Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.<br>▪ Rhaid cynnal ymyl o laswellt 1 metr o led o amgylch ffin y cae a chydymffurfio â gofynion Cod y Fferm Gyfan ar y rhimyn hwn o dir.<br>▪ Rhaid sefydlu cnwd ŷd gyda glaswelltau a chodlysiau wedi'u hau oddi tano cyn 15 Mai bob blwyddyn.<br>▪ Cewch chwistrellu glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.<br>▪ Rhaid cadw stoc allan tan 15 Medi.<br>▪ Dylid hau o leiaf 100kg/hectar o gnwd ŷd a dylid hau glaswellt a meillion oddi tano | |

gydag o leiaf 10% ohonynt yn godlysiau.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a chynaeafu ydau'r gwanwyn yr heuwyd oddi tanynt o dan yr opsiwn hwn a'r dyddiad cychwyn pori yn y Dyddiadur Gwaith.

**Peidiwch â:**
- Cynaeafu'r cnwd cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (p'un bynnag sydd olaf).
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 29)**
- Cewch ddefnyddio gwrtaith, tail organig a chalch i ddiwallu anghenion y cnwd.
- Gellir cynaeafu'r ŷd a'r cnwd oddi tano fel silwair cnwd cyfan.
- Cyn belled â'ch bod yn cynnal yr arwynebedd cyfan, cewch symud yr Opsiwn Rheoli hwn o gae i gae fel rhan o gylchdro cnydau arferol y fferm.

| **Opsiwn Rheoli 30** | **Ydau gwanwyn neu godlysiau heb eu chwistrellu** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).
Peidiwch â'i gynnal ar dir organig ardystiedig.

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Rhaid sefydlu'r cnwd cyn 15 Mai.
- Cewch chwistrellu glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a chynaeafu ydau heb eu chwistrellu a heuwyd yn y gwanwyn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Nid yw indrawn yn dderbyniol.

**Peidiwch â:**
- Chynaeafu'r cnwd cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (p'un bynnag sydd hwyraf).
- Hau o dan y cnwd.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 30)**
- Cewch ddefnyddio gwrtaith, tail organig a chalch i ddiwallu anghenion y cnwd.
- Cyn belled â'ch bod yn cynnal yr arwynebedd cyfan, cewch symud yr Opsiwn Rheoli hwn o gae i gae fel rhan o gylchdro cnydau arferol y fferm.

| **Opsiwn Rheoli 31** | **Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda sofl dros y gaeaf** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).
Peidiwch â'i gynnal ar dir organig ardystiedig.

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.

- Rhaid sefydlu'r cnwd cyn 15 Mai.
- Cewch chwistrellu glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Casglwch y gwellt o fewn 2 wythnos ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o laswelltau a phlanhigion llydanddail.
- Ar ôl ei gynaeafu, peidiwch â'i bori cyn 1 Ionawr ac wedyn â dim mwy na 0.4udb/hectar ar unrhyw adeg.
- Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
- Rhaid cofnodi'r gwaith sefydlu a chynaeafu, torri, aredig, trin a drilio ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Nid yw indrawn yn dderbyniol.

**Peidiwch â:**
- Hau cnwd oddi tano.
- Cynaeafu'r cnwd cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (p'un bynnag sydd hwyraf).
- Torri'r tyfiant a ddaeth ar ôl y cynhaeaf cyn 15 Chwefror.
- Gwasgaru slyri rhwng y cynhaeaf a 1 Mawrth.
- Ei aredig, ei drin na'i ddrilio'n uniongyrchol cyn 1 Mawrth.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 31)**
- Cewch ddefnyddio gwrtaith, tail organig a chalch i ddiwallu anghenion y cnwd.
- Cyn belled â'ch bod yn cynnal yr arwynebedd cyfan, cewch symud yr Opsiwn Rheoli hwn o gae i gae fel rhan o gylchdro cnydau arferol y fferm

| **Opsiwn Rheoli 32** | **Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Sefydlwch gnwd o faip gwynion, maip melyn meddal, maip melyn caled, erfin neu fetys porthiant cyn 1 Gorffennaf.
- Caniateir drilio uniongyrchol.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Peidiwch â defnyddio ffwngladdwr oni bai'ch bod yn ei roi i drin yr had cyn eu hau ac ni ddylech ddefnyddio gwenwyn lladd malwod oni bai'ch bod yn ei ddrilio gyda'r had.
- Ar dir wrth gwrs dŵr mae angen llain glustogi briodol o laswellt (o leiaf 2 fetr o led). Mae priodol yn golygu digon o lain glustogi i rwystro gwaddodion rhag cael eu golchi oddi ar y cae i'r cwrs dŵr.
- Rhaid cadw stoc allan tan 15 Hydref.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu ac aredig y gwreiddgnwd heb ei chwistrellu o dan yr opsiwn hwn a'r dyddiad cychwyn pori yn y Dyddiadur Gwaith

**Peidiwch â:**
- Aredig tan 1 Mawrth
- Defnyddio pryfladdwr
- Hau cnwd oddi tano

| **Opsiwn Rheoli 32B** | **Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella heb ddrilio** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Sefydlwch gnwd o faip gwynion, maip melyn meddal, maip melyn caled, erfin neu fetys porthiant cyn 1 Gorffennaf.
- Paratowch y pridd trwy ei drin.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Peidiwch â defnyddio ffwngladdwr oni bai'ch bod yn ei roi i drin yr had cyn eu hau.
- Ar dir wrth gwrs dŵr mae angen llain glustogi briodol o laswellt (o leiaf 2 fetr o led). Mae priodol yn golygu digon o lain glustogi i rwystro gwaddodion rhag cael eu golchi oddi ar y cae i'r cwrs dŵr.
- Rhaid cadw stoc allan tan 15 Hydref.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu ac aredig y gwreiddgnwd heb ei chwistrellu o dan yr opsiwn hwn a'r dyddiad cychwyn pori yn y Dyddiadur Gwaith

**Peidiwch â:**
- Aredig tan 1 Mawrth
- Drilio'r had
- Defnyddio pryfladdwr na gwenwyn lladd malwod.
- Hau cnwd oddi tano

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 32 A 32B)**
- Cewch ddefnyddio gwrtaith, tail organig a chalch i ddiwallu anghenion y cnwd.
- Cyn belled â'ch bod yn cynnal yr arwynebedd cyfan, cewch symud yr Opsiwn Rheoli hwn o gae i gae fel rhan o gylchdro cnydau arferol y fferm.

| **Opsiwn Rheoli 33** | **Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Paratowch wely had o leiaf 4 metr o led a sefydlu'r cnwd erbyn 15 Mai.
- Bydd o leiaf 80% o'r cymysgedd hadau yn ydau, gydag o leiaf un o'r canlynol: mwstard, rêp neu had llin.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Rhaid ail-hau unrhyw ran o'r tir sy'n methu.

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy’n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a thorri’r cnwd bywyd gwyllt o dan yr opsiwn hwn a’r dyddiad cychwyn pori yn y Dyddiadur Gwaith.
- Nid yw indrawn yn dderbyniol.

**Peidiwch â:**
- Hau cnwd oddi tano.
- Ei bori na’i dorri cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda’r had.

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 33)**
- Peidiwch â thyfu gorchudd i fywyd gwyllt ar dir sydd â draeniad gwael neu dir sy'n drwch o chwyn parhaol neu niweidiol.
- Y lleoliad delfrydol i'r cnwd yw gerllaw perth/gwrych trwchus neu wrth ymyl coetir neu brysgwydd.
- Mae lleiniau o dir tua 1ha o faint yn ddelfrydol am eu bod yn dal hadau am fwy o amser yn y gaeaf.
- Cyn belled â’ch bod yn cynnal yr arwynebedd cyfan, cewch symud yr Opsiwn Rheoli hwn o gae i gae fel rhan o gylchdro cnydau arferol y fferm i atal clapiau ar wreiddiau cnydau bresych.
- Ni fyddwn fel arfer yn argymell y rhywogaethau canlynol: meillion coch, pys, indrawn, gwenith y gors, sorgwm, glôb-artisiog, pefrwellt, ffa; am nad ydynt yn darparu'r math addas o hadau i adar tir fferm.


**Cnwd gorchudd i fywyd gwyllt**

| **Opsiwn Rheoli 34** | **Talar o ŷd heb ei gynaeafu** |
|---|---|

I’w gynnal ar dir wedi’i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno’r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Mae'r Opsiwn Rheoli hwn ar gael ar gyfer cnwd ŷd sy’n cydio erbyn 15 Mai.
- Dylech neilltuo talar 3-6 metr o led o gnwd ŷd ar hyd ymyl y cnwd a’i adael heb ei

gynaeafu tan 1 Mawrth.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu, cynaeafu a thorri'r dalar ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

**Peidiwch â:**
- Rhoi unrhyw wrtaith, tail organig, calch na slag.
- Cynaeafu na phori'r dalar tan 1 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

| **Opsiwn Rheoli 34B** | **Talar o ŷd heb ei wrteithio nai'i chwistrellu** |
|---|---|

I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
Caiff fod yn rhan o gylchdro.
Efallai y bydd angen caniatâd. (Edrychwch ar y tabl yn Atodiad 1).

- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Mae'r Opsiwn Rheoli hwn ar gael ar gyfer cnwd ŷd sy'n cydio erbyn 15 Mai.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Dylech neilltuo talar 3-6 metr o led o gnwd ŷd ar hyd ymyl y cnwd a'i adael heb ei wrteithio na'i chwistrellu.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu, cynaeafu a thorri'r dalar ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

**Peidiwch â:**
- Rhoi unrhyw wrtaith, tail organig, calch na slag.
- Cynaeafu na phori'r dalar tan 1 Awst neu 14 wythnos ar ôl hau (pa un bynnag yw'r olaf).
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.



**Talar o ŷd heb ei gynaeafu**

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 34 A 34B)**

- Cyn belled â'ch bod yn cynnal yr arwynebedd cyfan, cewch symud yr Opsiwn Rheoli hwn o gae i gae fel rhan o gylchdro cnydau arferol y fferm.
- Gellir hau'r cnwd ŷd yn ysgafnach ar y dalar i greu tyfiant mwy agored.
- Peidiwch â chynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar dir sydd â draeniad gwael neu dir sy'n drwch o chwyn parhaol neu niweidiol.
- Y lleoliad delfrydol i'r cnwd yw ger perth/gwrych trwchus neu brysgwydd.

| **Opsiwn Rheoli 35B** | **Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu – maint amrywiol** |
|---|---|
| I'w gynnal ar dir caeedig wedi'i wella yn unig<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid i'r pwll fod o leiaf 25 metr sgwâr ond dim mwy na 1000 metr sgwâr o faint. Caiff pyllau fod yn fwy na hyn ond pwll 1000 metr sgwâr yw'r mwyaf gaiff fod o dan yr opsiwn hwn.<br>▪ Rhaid codi ffens i gadw da byw allan o amgylch o leiaf 90% o berimedr y pwll, o leiaf 10 metr o ymyl y dŵr.<br>▪ Cewch dorri'r llystyfiant o fewn y ffens yn nhrydedd flwyddyn y cytundeb.<br>▪ Mae'r gwaith o greu pwll yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y Contract. Rhaid cwblhau'r pwll yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Chaniatáu peiriannau ar y tir hwn, na'i ddefnyddio i borthi stoc nac i storio.<br>▪ Creu ynysoedd yn y pwll. | |



**Pwll newydd**

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 35B)**

- Gall pyllau neu grafiadau newydd fod o les mawr i anifeiliaid gwyllt, ond byddwch yn debygol o golli’r manteision hyn os bydd gwaith eu hadeiladu yn dinistrio cynefinoedd natur eraill megis glaswelltir gwlyb.
- Mae adeiladu pwll yn gofyn am waith crefftus ac os medrwch, dylech ofyn cyngor arbenigwr cyn dechrau ar y gwaith.
- Efallai y bydd angen cael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Lleol neu drwydded cronni a/neu dynnu dŵr gan CNC i greu pyllau newydd ar dir amaethyddol. Chi sy'n gyfrifol am ofalu’ch bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol.
- Dewiswch lain o dir sy’n gymharol segur, sy’n bell o adeiladau a pheidiwch â dewis safle lle gallai gwrtaith gael ei olchi iddo a gorfaethu’r pwll.
- Ceisiwch ei gysylltu â chynefinoedd sy'n bod eisoes megis glaswelltir heb ei wella a phrysgwydd. Mae llawer o rywogaethau pyllau megis madfallod dŵr ac amffibiaid eraill ond yn treulio rhan o'u bywydau mewn dŵr ac mae angen amodau addas arnynt ar dir sych i gwblhau eu cylch bywyd.
- Mae'n well peidio â lleoli pwll wrth goed uchel am y gallai dail yr hydref achosi problemau a llawer o siltio. Bydd gofalu bod y pwll yn agored tua’r de yn golygu y gall haul y gwanwyn gynhesu'r dŵr, ond bydd peth prysgwydd a'r cysgod y mae'n ei roi, yn debygol o fod yn fuddiol.
- Gofalwch fod tarddiad y dŵr heb ei lygru a lle bo hynny'n bosibl, dylai fod ar gael drwy’r flwyddyn. Peidiwch â defnyddio dŵr o ddraeniau caeau os medrwch, rhag ofn ei fod yn cario gwrtaith o dir cyfagos.
- Bydd gennych fwy o reolaeth ar lifogydd y gaeaf a lefelau siltio os nad ydych yn adeiladu’ch pwll ar nant. Ond os ydych yn creu pwll ar nant, adeiladwch bwll siltio llai o faint i fyny'r nant o'r prif bwll a charthu graean a silt ohono’n rheolaidd.
- Mae pridd anhydraidd (yn dal dŵr) fel clai yn ddelfrydol i grynhoi dŵr. Gyda phridd hydraidd (y gall dŵr lifo trwyddo) fel siâl, efallai y bydd angen gosod leinin artiffisial neu dod â chlai o rywle arall, a gall hynny fod yn ddrud. Palwch dyllau prawf cyn dechrau ar y gwaith i weld a yw’r pridd yn dal dŵr.
- Gwnewch ‘ymyl’ y pwll yn hirach trwy greu glan afreolaidd gyda thrwynau a baeau bach i roi mwy o gysgod i fywyd gwyllt. Bydd llystyfiant sy'n codi o'r dŵr yn rhoi cysgod rhag y gwynt a'r haul.

Am fwy o ganllawiau technegol ar greu pwll gweler Atodiad 4.

| **Opsiwn Rheoli 36** | **Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau** |
|---|---|
| Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid codi ffens i gadw da byw allan o amgylch o leiaf 90% o berimedr y pwll, o leiaf 10 metr o ymyl y dŵr.<br>▪ Cewch dorri'r llystyfiant o fewn y ffens yn nhrydedd flwyddyn y cytundeb.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir o fewn yr opsiwn.<br>▪ Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y Contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y Contract. Rhaid cwblhau'r ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Chaniatáu peiriannau ar y tir hwn, na'u defnyddio i borthi stoc nac i storio.<br>▪ Rhoi unrhyw wrtaith, tail organig, calch na slag. | |
| **Opsiwn Rheoli 37** | **Bridiau Prydeinig brodorol prin** |
| ▪ Rhaid cynnal y nifer ofynnol o Unedau Da Byw bob adeg o'r flwyddyn ac eithrio pan fydd angen cymryd mesurau rheoli milfeddygol anrhagweladwy.<br>▪ Er mwyn bod yn gymwys, rhaid bod y da byw wedi'u cofrestru fel anifeiliaid pedigri. Efallai y bydd gofyn cysylltu rhif adnabod yr anifail â Chymdeithas ei Frid.<br>▪ Caniateir gwartheg, defaid a cheffylau cymwys fel y'u diffinnir ar gofrestr gymeradwy Prydain o fridiau brodorol sydd mewn perygl (gweler dros y dudalen)<br>▪ Bydd y bridiau cymwys a gynhwyswyd ar ddechrau'r contract yn gymwys am oes y contract, ond os byddwch yn dewis newid bridiau yn ystod y contract, bydd yn rhaid ichi gynnal y nifer ofynnol o unedau da byw sydd i'w weld ar y fersiwn ddiweddaraf Llawlyfr Technegol Glastir<br>▪ Bydd angen un o'r tair dogfen ganlynol i brofi'r opsiwn hwn (i) tystysgrif pedigri unigol; (ii) llyfr buches/diadell/gre ac ati y gymdeithas dan sylw neu (iii) lythyr oddi wrth gymdeithas y brid yn cadarnhau faint o anifeiliaid o'r rhestr bridiau prin sydd ar eich daliad.<br>▪ Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano. | |

## Rhestr o fridiau brodorol cymwys:

| Gwartheg | Defaid (parhad) | Ceffylau |
|---|---|---|
| Aberdeen Angus (Grddl[1]) | Defaid Maesyfed | Cleveland Bay |
| Beef Shorthorn | Defaid Mynydd Cymreig Du | Clydesdale |
| Belted Galloway (gan gynnwys Galloway gwyn) | Defaid Mynydd Penfrith | Dales |
| British White | Defaid Penwyn Llanymddyfri | Dartmoor |
| Chillingham | Defaid Torddu a Thorwen | Eriskay |
| Dairy Shorthorn (Grddl[1]) | Derbyshire Gritstone | Exmoor |
| Devon (Red Ruby) | Devon & Cornwall Longwool | Fell |
| Dexter[2] | Devon Closewool | Hackney (Ceffyl a Merlyn) |
| Friesian Prydeinig (Grddl[1]) | Dorset Down | Highland |
| Galloway[3] | Dorset Horn | Merlod Mynydd Cymreig (Adran A Lled-wyllt[6]) |
| Gloucester | Exmoor Horn | New Forest |
| Guernsey | Greyface Dartmoor | Percheron Prydeinig |
| Guernsey (Ynys[4]) | Hampshire Down | Shire |
| Gwartheg Duon Cymreig | Hebridean | Suffolk |
| Hereford (Grddl[1]) | Herdwick | |
| Highland | Jacob | |
| Irish Moiled / Maol[2] | Leicester Longwool | |
| Jersey (Ynys[4]) | Lincoln Longwool | |
| Lincoln Red | Lonk | |
| Lincoln Red (Grddl[1]) | Manx Loghtan | |
| Longhorn | Norfolk Horn | |
| Luing | North Ronaldsay | |
| Northern Dairy Shorthorn[5] | Oxford Down | |
| Redpoll | Portland | |
| Shetland | Romney | |
| Sussex | Ryeland | |
| Vaynol | Shetland | |
| White Park | Shetland (Ynys[4]) | |
| Whitebred Shorthorn | Shropshire | |
| | Soay | |
| **Defaid** | Southdown | |
| Border Leicester | Teeswater | |
| Boreray | Wensleydale | |
| Castlemilk Moorit | Whiteface Dartmoor | |
| Clun Forest | Whitefaced Woodland | |
| Cotswold | Wiltshire Horn | |
| Defaid Balwen | | |
| Defaid Ceri | | |
| Defaid Llanwenog | | |

[1] Mae “Grddl” yn golygu anifeiliaid sydd wedi’u cofrestru fel rhai pedigri ac sy’n rhan o ‘Boblogaeth Wreiddiol’ y brîd hwnnw, fel arfer ar is-gofrestr ‘gaeedig’ ar wahân o lyfr buchesi cymdeithas y brîd.

[2] Bridiau brodorol sydd mewn perygl yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon.

[3] Mae “Galloway” yn cynnwys gwartheg Galloway du, gwyn, melyn a chefnwyn.

[4] Mae “Ynys” yn golygu anifeiliaid sydd wedi’u cofrestru fel rhai pedigri ac sy’n rhan o boblogaeth yr ‘Ynys’ y brîd hwnnw, fel arfer ar is-gofrestr ‘gaeedig’ ar wahân o lyfr cymdeithas y brîd.

[5] Mae gwartheg North Dairy Shorthorn yn cael eu hystyried yn anifeiliaid ar wahân o fewn y brîd Dairy Shorthorn.

[6] Mae “Adran A lled-wyllt” yn cyfeirio at is-boblogaeth benodol o anifeiliaid pedigri sydd wedi’u cofrestru ar wahân yn llyfr gre Cymdeithas y Merlod a’r Cobiau Cymreig (yn unol â’r rheolau). Er mwyn cadw eu statws fel anifeiliaid lled-wyllt, rhaid iddynt aros yn eu hamgylchedd dynodedig a bydd ganddynt basbortau unigol gyda’u statws lled-wyllt wedi’i nodi’n swyddogol arnynt. Dylech gadarnhau cymhwysedd pob anifail unigol gyda Chymdeithas y Merlod a’r Cobiau Cymreig sy’n cadw rhestr o’r holl ferlod a all fod yn gymwys am statws “Adran A lled-wyllt”.

| Opsiwn Rheoli 38 | Blychau nythu / ystlumod newydd |
|---|---|

- Mae blychau adar/ystlumod yn cael eu hystyried yn Waith Cyfalaf.
- Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid eu cynnal (a'u hadnewyddu os oes angen) am dymor y contract.
- Rhaid cwblhau'r blychau yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIWN RHEOLI 38)**

- Ceir manylebau blychau ar gyfer adar bach ac ystlumod yn Atodiad 4.
- Ceir manylebau blychau ar gyfer tylluanod yn Atodiad 4.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.rspb.org.uk




**Blychau nythu**

| Opsiwn Rheoli 39 | Rheoli prysgwydd, coed ifanc a llystyfiant ymledol i ddiogelu nodweddion hanesyddol trwy eu torri at eu bôn a thrin y gwreiddiau yn y fan a'r lle |
|---|---|


- Ni chewch gynnal yr Opsiwn Rheoli hwn ar safle archeolegol os oes cytundeb rheoli wedi'i lunio ar ei gyfer eisoes, gan y gallai hynny olygu'ch talu ddwywaith.
- Ar Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol, rhaid i'r Buddiolwr ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Leol a chael ei chaniatâd ynghylch maint a lleoliad y gwaith.
- Rhaid torri'r llystyfiant at y bôn gan adael y gwreiddiau yn y fan a'r lle (heb balu'r gwreiddiau).
- Rhaid trin bonion â chwynladdwr cymeradwy priodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Defnyddiwch beiriannau llaw yn unig megis llif gadwyn a thorrwr prysg.
- Cewch ddefnyddio cerbydau ar dir gwastad neu weddol wastad i glirio torion cyn belled nad ydynt yn cael eu gyrru dros olion hanesyddol ac nad ydynt yn tyrchu nac yn rhigoli'r ddaear.
- Rhaid mynd â deunydd gwastraff (torion ac ati) o'r safle.
- Os oes angen, ailadroddwch y driniaeth i atal y prysgwydd rhag aildyfu. Rhaid cofnodi'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y dyddiadur gwaith.
- Rhaid cynnal y gorchudd o laswellt ar yr heneb ac o'i hamgylch a dylid rheoli'r tir fel pe bai'n laswelltir (ei dorri neu ei bori) i gynnal porfa heb fod yn uwch na 15 centimetr.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y safle a adferwyd.

**Peidiwch â:**
- Phalu gwreiddiau
- Clirio prysgwydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.
- Llosgi gwastraff ar y safle

| **Opsiwn Rheoli 40** | **Cynnal y ffens bresennol o amgylch coetir di-stoc** |
|---|---|
| Mae'r opsiwn hwn ar gael ar leiniau cyfan o goetir llydanddail / conwydd sy'n bod eisoes, fel y'u dangosir ar y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol. Bydd pob llain o goetir o leiaf 0.5 hectar o faint, waeth a yw wedi'i ffensio o dan gynllun blaenorol ai peidio.<br>Ni fydd coetir sy'n perthyn i gynllun Tir Gofal, Premiwm Tir wedi'i Wella, Cynllun Grantiau Coetir, Coetiroedd Gwell i Gymru, Cynllun Premiwm Coetiroedd Fferm a Chynllun Coetiroedd Fferm yn gymwys ar gyfer yr opsiwn hwn.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Rhaid cynnal y ffens bresennol i gadw stoc allan am oes y contract. Os nad oes ffens yn bod, mae'n dderbyniol codi ffens newydd i wneud yn siwr bod y stoc yn cael eu cadw allan. (Pwysig: rhoddir y pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr Opsiwn Rheoli hwn am gynnal ffens sy'n bod yn unig – sy'n bod o ddechrau'r contract).<br>▪ Rhaid bod gan y Buddiolwr reolaeth ar linell ffens y ffin.<br>▪ Rhaid cadw stoc allan o'r coed bob amser.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan yn y coetir sy'n dod o dan yr Opsiwn Rheoli hwn. | |
| **Opsiwn Rheoli 41A** | **Rheoli pori ar dir agored** |
| I'w gynnal ar dir cynefin yn unig.<br>I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig<br>Ni chewch gynnal opsiwn rheoli arall ar dir sy'n gymwys ar gyfer yr opsiwn hwn. | |
| ▪ Opsiwn parsel cyfan sy'n seiliedig ar y gyfran sy'n gynefin (glaswelltir ucheldir / gorgors a gweundir).<br>▪ Peidiwch â chadw mwy na'r lefel stocio fesul hectar o fewn y parsel cyfan ar unrhyw ddiwrnod o fewn y chwarter, yn unol ag Adran 6 y ffurflen gais.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.<br>▪ Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddangos pan ofynnir amdano.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Rhoi bwyd atodol i'r stoc (gweler adran 5 am eithriadau) | |
| **Opsiwn Rheoli 41B** | **Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg** |
| I'w gynnal ar dir cynefin yn unig.<br>I'w gynnal ar barseli cyfan yn unig<br>Ni chewch gynnal opsiwn rheoli arall ar dir sy'n gymwys ar gyfer yr opsiwn hwn. | |
| ▪ Opsiwn parsel cyfan sy'n seiliedig ar y gyfran sy'n gynefin (glaswelltir ucheldir / gorgors a gweundir).<br>▪ Cyfrifir lefelau stocio fesul parsel: cyfraddau i'w cyhoeddi.<br>▪ Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.<br>▪ Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.<br>▪ Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddangos pan ofynnir amdano. | |

**Peidiwch â:**

- Rhoi bwyd atodol i'r stoc (gweler adran 5 am eithriadau)



**Tir agored**

| **Opsiwn Rheoli 42A** | **Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys** |
|---|---|
| Nid yw perthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr opsiwn hwn.<br>Ni fydd perthi terfyn yn gymwys am yr opsiwn oni fydd perchennog y tir cyffiniol wedi cytuno'n ysgrifenedig i chi gynnwys y berth yn yr opsiwn. Dylech gyflwyno'r cytundeb gyda'ch cais.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig | |
| ▪ Adferwch berthi drwy gyfuniad o blygu, bondocio a phlannu mewn bylchau yn ôl y gofyn.<br>▪ Rhaid bod bwlch o 2 fetr fan leiaf rhwng y ffensys bob ochr i'r berth (1 metr o ganol y berth). Rhaid i'r ffens allu cadw da byw allan.<br>▪ Ni fydd perthi sydd wedi cael eu hadfer trwy gynllun arall yn y 5 mlynedd diwethaf yn gymwys.<br>▪ Plannwch lwyni brodorol yn y bylchau, 7 planhigyn bob metr. Lle medrwch, plannwch blanhigion o stoc leol.<br>▪ Cewch blygu'r berth cyn ffensio bob ochr iddi.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1metr bob ochr o ganol y berth.<br>▪ Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth.<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.<br>▪ Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.<br>▪ Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei bondocio, yn ei phlannu neu yn ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.<br>▪ Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Mae'r gwaith ffensio ac adfer yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl | |

waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)

| Opsiwn Rheoli 42B | Adfer perthi/gwrychoedd heb ffensys |
|---|---|

Mae perthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr opsiwn hwn.
Ni fydd perthi terfyn yn gymwys am yr opsiwn hwn.
I gael cynnal yr opsiwn hwn, ni fydd y caeau cyffiniol yn cael eu pori am oes y contract neu bydd ffens eisoes yn bod i gadw stoc allan.
Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig.

- Caniateir ichi blygu'r berth cyn gosod y ffens.
- Adferwch berthi drwy gyfuniad o blygu, bondocio a phlannu bylchau yn ôl y gofyn.
- Ni fydd perthi sydd wedi cael eu hadfer trwy gynllun arall yn y 5 mlynedd diwethaf yn gymwys.
- Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth
- Plannwch lwyni brodorol yn y bylchau, 7 planhigyn bob metr. Lle medrwch, plannwch blanhigion o stoc leol.
- Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20-70 metr.
- Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei bondocio, yn ei phlannu neu yn ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith. Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.
- Mae'r gwaith adfer yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith plannu yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.

**Peidiwch â:**

- Phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea)

**CANLLAW TECHNEGOL (AR GYFER OPSIYNAU RHEOLI 42A a 42B)**

**Plygu perth**

- Fel arfer mae coesynnau sydd â diamedr o 5-15cm a rhwng 2-3m o uchder yn addas i'w plygu'n berth. Ystyriwch eu bondocio os ydy'r coesynnau'n fwy trwchus.
- Gallwch docio'r mân-dyfiant ar hyd ochr y berth cyn ei phlygu, ond gadewch y tyfiant ar frig llwyni iddo dyfu'n drwchus a chreu rhwystr ar ôl plygu'r berth.
- Torrwch hanner ffordd neu dri chwarter ffordd drwy'r coesynnau 3-10cm uwchben y ddaear a phlygwch y coesynnau ar ongl o tua 30º. Plygwch bob un o'r coesynnau i'r un cyfeiriad gan sicrhau eu bod bob amser yn wynebu i fyny unrhyw oleddf.
- Peidiwch â hollti na thorri rhisgl ochr isaf y coesynnau wrth eu plygu.
- Peidiwch â phlygu perth drwy wthio coesynnau drosodd a gadael iddynt hollti.
- Gallwch ddefnyddio pyst pren i ddal y coesynnau yn eu lle os oes angen. Weithiau gellir wedyn clymu'r coed wrth frig y postyn gan ddefnyddio darnau plethedig o dyfiant ystwyth (rhwymyn).
- Nid yw'n dderbyniol defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.
- Y gaeaf yw'r adeg orau i blygu perth, rhwng canol mis Tachwedd a diwedd mis

Chwefror. Bydd perth newydd ei phlygu yn para rhwng 10 a 30 mlynedd ac yn cael ei thocio bob dwy i bum mlynedd ar ôl i'r gwaith adfer gael ei wneud.

- Lle medrwch, parchwch ddulliau traddodiadol lleol o blygu perth. Yr amcan yw creu perth fydd yn rhwystr i dda byw. Cyn plygu'r berth, codwch unrhyw hen ffensys neu wifrau.

**Bondocio**

- Mae bondocio (coppicing) yn hen system o reoli coed sy'n manteisio ar y ffaith bod egin newydd yn gallu tyfu o foncyff neu goesyn sydd wedi'i dorri ar goed neu lwyni llydanddail. Ni ddylai gwaith bondocio gael ei wneud mewn perth ond pan fydd coesyn yn rhy drwchus (mwy na 10cm o led) i'w blygu'n iawn. Weithiau bydd y coesyn mor drwchus fel bod angen Trwydded Cwympo Coed gan y Comisiwn Coedwigaeth arnoch. Chi sy'n gyfrifol am gadarnhau p'un a oes angen Trwydded Cwympo Coed arnoch ai peidio.
- Mae bondocio yn golygu torri'r coesyn ar ongl o fewn 7.5cm neu lai o'r ddaear a gadael i'r coesynnau ailegino. Dylech dorri yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd y tywydd yn fwyn. Gallwch ofalu am y coed wrth iddynt aildyfu fel a ganlyn:
    - tociwch yr egin yn ystod y ddwy flynedd gyntaf i'w hannog i dyfu'n llwyni trwchus wrth fôn y berth;
    - gallwch adael i'r egin dyfu a'u plygu wedyn ar ôl 5 - 8 mlynedd.

| **Opsiwn Rheoli 43A** | **Clawdd â pherth wedi'i adfer â ffens bob ochr iddo a choed a pherthi wedi'u plannu arno** |
|---|---|
| Nid yw cloddiau â pherth wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr opsiwn hwn.<br>Ni fydd cloddiau terfyn yn gymwys am yr opsiwn hwn oni fydd perchennog y tir cyffiniol wedi cytuno'n ysgrifenedig i chi gynnwys y clawdd yn yr opsiwn. Dylech gyflwyno'r cytundeb gyda'ch cais.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig. | |
| ▪ Rhaid adfer y clawdd â pherth fel ei fod o leiaf 0.5 metr o uchder ac o leiaf 0.5 metr o led.<br>▪ Rhaid bod bwlch o 2 fetr fan leiaf rhwng y ffensys bob ochr i'r clawdd (1 metr o'i ganol). Rhaid i'r ffens allu cadw da byw allan.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1 metr bob ochr o ganol y clawdd.<br>▪ Ni fydd cloddiau sydd wedi cael eu hadfer trwy gynllun arall yn y 5 mlynedd diwethaf yn gymwys.<br>▪ Plannwch lwyni brodorol yn y bylchau, 7 planhigyn bob metr. Lle medrwch, plannwch blanhigion o stoc leol.<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y clawdd, bob 20-70 metr.<br>▪ Rhaid plannu planhigion newydd yn y tymor plannu nesaf yn lle unrhyw rai sy'n methu.<br>▪ Rhaid nodi manylion adfer clawdd o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith a'i ddarparu pan ofynnir amdano.<br>▪ Mae'r gwaith ffensio ac adfer yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio a phlannu yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol.<br><br>**Peidiwch â:**<br>Phlannu coed ynn fel rhan o'r cymysgedd o goed oherwydd clefyd y coed ynn (Chalara fraxinea) | |

| **Opsiwn Rheoli 43B** | **Clawdd â pherth wedi'i adfer â ffens bob ochr iddo ond heb blannu coed na llwyni** |
|---|---|
| Nid yw cloddiau â pherth wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr opsiwn hwn.<br>Ni fydd cloddiau terfyn yn gymwys am yr opsiwn hwn oni fydd perchennog y tir cyffiniol wedi cytuno'n ysgrifenedig i chi gynnwys y clawdd yn yr opsiwn. Dylech gyflwyno'r cytundeb gyda'ch cais.<br>Peidiwch â'i gynnal ar Heneb Restredig. | |
| ▪ Rhaid adfer y clawdd â pherth fel ei fod o leiaf 0.5 metr o uchder ac o leiaf 0.5 metr o led.<br>▪ Rhaid bod bwlch o 2 fetr fan leiaf rhwng y ffensys bob ochr i'r clawdd â pherth (1 metr o'i ganol). Rhaid i'r ffens allu cadw da byw allan.<br>▪ Ni fydd cloddiau sydd wedi cael eu hadfer trwy gynllun arall yn y 5 mlynedd diwethaf yn gymwys.<br>▪ Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1 metr bob ochr o ganol y clawdd<br>▪ Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y clawdd, bob 20-70 metr.<br>▪ Rhaid nodi manylion adfer y clawdd o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.<br>▪ Mae'r gwaith ffensio yn cael ei ystyried yn Waith Cyfalaf. Rhaid cwblhau'r holl waith o fewn dwy flynedd gyntaf y contract. Rhaid ei gynnal (a'i adnewyddu os oes angen) am dymor y contract. Rhaid cwblhau'r gwaith ffensio yn unol â'r safonau yn y Fanyleb Dechnegol. | |
| **Opsiwn Rheoli 44** | **Rheoli rhedyn yn fecanyddol** |
| Gallwch ei gynnal ar dir wedi'i wella ac ar dir cynefin. | |
| ▪ Gallwch ei gynnal ar dir wedi'i wella ac ar dir cynefin.<br>▪ Gallai'r tir o dan redyn fod yn rhan o barsel a gellir dewis yr opsiwn hwn ar y cyd ag opsiwn arall o fewn yr un parsel (h.y. gallant orgyffwrdd).<br>▪ Mae torri mecanyddol a rowlio yn ddulliau rheoli derbyniol.<br>▪ Rhaid torri/rowlio o leiaf ddwywaith y flwyddyn ym mlynyddoedd 1-3 a thorri/rowlio unwaith y flwyddyn ym mlynyddoedd 4 a 5.<br>▪ Rhaid torri/rowlio rhwng 1 Mai a 15 Awst yn unig.<br>▪ Rhaid cofnodi'r holl waith rheoli yn y Dyddiadur Gwaith.<br><br>**Peidiwch â:**<br>▪ Rheoli rhedyn trwy eu chwistrellu | |
| **Opsiwn Rheoli 45** | **Cynnal adeiladau diddos traddodiadol** |
| Dim ond adeiladau gafodd eu hadfer o dan y Cynllun Tir Gofal fydd yn gymwys.<br>Peidiwch â'i gynnal os ydy'r adeilad yn dod o dan gytundeb Tir Gofal presennol | |
| ▪ Rhoddir pwyntiau ar gyfer un adeilad cyfan (hyd yn oed os ydy'r adeilad hwnnw wedi denu nifer o grantiau/taliadau)<br>▪ Rhaid parhau i ddefnyddio'r adeiladau at ddibenion amaethyddol drwy gydol y contract.<br>▪ Rhaid i'r adeilad barhau'n ddiddos drwy gydol y contract. Gwneir hynny drwy gynnal y to, y cwteri, ffenestri a'r cladin, er enghraifft | |
| **Opsiwn Rheoli 46A** | **Cynnal llwybrau caniataol – Llwybr ceffylau - Tir Gofal gynt** |
| Dim ond llwybrau gafodd eu creu o dan Tir Gofal sy'n cael cefnogaeth Fforwm Mynediad Lleol sy'n gymwys. | |
| ▪ Rhaid cynnal a chadw o leiaf 3 metr o led o lwybr a'i gadw'n glir o blanhigion.<br>▪ Rhaid cynnal nodweddion fel clwydi/camfeydd/arwyddion am oes y contract a'u cadw | |

mewn cyflwr da.

- Rhaid cadw asesiad risg cyfoes a'i ddangos pan ofynnir amdano.
- Rhaid sicrhau bod gennych ddigon o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'i ddangos pan ofynnir amdano.

| Opsiwn Rheoli 46B | Cynnal llwybrau caniataol  Llwybr cerdded – Tir Gofal gynt |
|---|---|
| Dim ond llwybrau gafodd eu creu o dan Tir Gofal sy'n cael cefnogaeth Fforwm Mynediad Lleol sy'n gymwys. | |

- Rhaid cynnal a chadw o leiaf 2 metr o led o lwybr a'i gadw'n glir o blanhigion.
- Rhaid cynnal nodweddion fel clwydi/camfeydd/arwyddion am oes y contract a'u cadw mewn cyflwr da.
- Rhaid cadw asesiad risg cyfoes a'i ddangos pan ofynnir amdano.
- Rhaid sicrhau bod gennych ddigon o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'i ddangos pan ofynnir amdano.

| Opsiwn Rheoli 46C | Cynnal llwybrau caniataol – Llwybrau i bobl anabl – Tir Gofal gynt |
|---|---|
| Dim ond llwybrau gafodd eu creu o dan Tir Gofal sy'n cael cefnogaeth Fforwm Mynediad Lleol sy'n gymwys. | |

- Rhaid cynnal a chadw o leiaf 3 metr o led o lwybr a'i gadw'n glir o blanhigion.
- Rhaid cynnal nodweddion fel clwydi/camfeydd/arwyddion am oes y contract a'u cadw mewn cyflwr da.
- Rhaid cadw asesiad risg cyfoes a'i ddangos pan ofynnir amdano.
- Rhaid sicrhau bod gennych ddigon o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'i ddangos pan ofynnir amdano.

# Adran 4: Pecynnau Rhanbarthol

## Cyflwyniad

Ffordd arall o gasglu’r pwyntiau sydd eu hangen i fod yn gymwys am Gontract Glastir Sylfaenol yw’r Pecyn Rhanbarthol.

Bydd y ffermwyr sy’n dewis manteisio ar y pecynnau hyn yn dewis o restr fyrrach o Opsiynau Rheoli sydd wedi’u targedu i amddiffyn y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny sy’n cael y flaenoriaeth gadwraethol uchaf yn eu rhanbarth hwy. Byddwch yn cael 10% yn fwy o bwyntiau am bob Opsiwn Rheoli ac felly bydd yn haws i chi gyrraedd y trothwy pwyntiau.

Mae cod(au) y Pecyn Rhanbarthol sy’n cyfateb i god post eich prif fferm wedi’i ragbrintio ar eich ffurflen gais Glastir Sylfaenol.  Fel arfer, dim ond un cod sydd.  Ond os ydy’ch cod post yn rhychwantu ffin dau Becyn Rhanbarthol, bydd gennych ddau Becyn Rhanbarthol i ddewis ohonynt. Os mai yn Lloegr y mae cod post eich prif fferm, byddwn wedi rhoi Pecyn Rhanbarthol ichi sy’n adlewyrchu lleoliad eich tir yng Nghymru.

Mae Opsiynau Rheoli addas i bob rhanbarth wedi’u dewis a’u rhannu'n dri grŵp. Os dewiswch chi fynd am y Pecyn Rhanbarthol, rhaid i chi gael o leiaf 75% o’ch pwyntiau o blith yr Opsiynau Rheoli sy’n cael eu rhestru yn eich Pecyn Rhanbarthol ac o leiaf 15% o’r pwyntiau o bob un o’r 3 grŵp.

Cewch gasglu’r 25% o’r pwyntiau sy’n weddill o Opsiynau Rheoli eraill Glastir Sylfaenol, a bydd y bonws o 10% ar gael ar gyfer y rhain hefyd.

## Abertawe (Cod Pecyn Rhanbarthol N)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a gweundir. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn yw’r **Bras Melyn, Cardwenynen y Mwsogl, y Chwilen Olew Ddu, y Draenog, y Wiber, y Glesyn Bach, y Gwibiwr Llwyd, y Gwibiwr Brith, Neidr y Gwair a Phlanhigion Tir Âr**.

| | | Bras Melyn | Cardwenynen Gynffongoch | Cardwenynen y Mwsogl | Chwilen Olew Ddu | Draenog | Glesyn Bach | Gwiber | Gwibiwr Brith | Gwibiwr Llwyd | Neidr y Gwair | Planhigion Tir Âr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Gweundir tir isel | ● | ● | ● | ● | | | ● | | | ● | ● |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | | ● | ● | |
| | Twyni tywod | | | | | | ● | | ● | | ● | |
| | Coetir | | | | | | | | | | | |
| | Ffiniau | ● | | | | ● | | ● | | | | |
| | Gwlypdir | | | | | | | ● | | | ● | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | ● | ● | | ● | | | | | | ● |

### Grŵpiau

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o'r Opsiwn |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 2 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys clawdd newydd, a phlannu coed a llwyni |
| | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi’i wella a’i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy’n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 27 | Ymylon o wyndwn |
| | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |

## Bannau Brycheiniog (Cod Pecyn Rhanbarthol B)

Mae'r ardal hon yn bwysig ar gyfer ei hanifeiliaid a phlanhigion sy'n gysylltiedig ag afonydd a glaswelltir mynydd, ac oherwydd y ffermydd cymysg yn y dyffrynnoedd, rai rhywogaethau pwysig sy'n gysylltiedig â'r cynefinoedd ynddynt. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o'r Pecyn hwn yw **Cimwch yr Afon, y Gronnell, y Ffacbysen Chwerw, Golfan y Mynydd, y Wiber, y Llyffant Ddafadennog, y Fadfall a'r Ysgyfarnog**.

| | | Cimwch yr Afon | Clêr Afonydd yr iseldir | Cronnell | Ffacbysen Chwerw | Golfan y Mynydd | Gwiber | Llyffant | Madfall | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | | | | | ● | | ● | |
| | Gweundir tir isel | | | | | | ● | ● | ● | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | | | ● | ● | | ● | ● | ● | ● |
| | Gwlypdir | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | | | | | ● | | | | ● |
| | Ffiniau | | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |

### Grŵpiau

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o'r Opsiwn |
|---|---|---|
| Grŵp 1 | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 3 | Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o'r canol) |
| | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| Grŵp 2 | 15 | Tir pori parhaol heb fewnbynnau |
| | 15C | Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynnau a phori cymysg |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau |
| Grŵp 3 | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na'i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Bro Morgannwg (Cod Pecyn Rhanbarthol O)

Mae’r rhanbarth yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a gweundir. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Bras Melyn, y Draenog, y Glesyn Bach, y Gwibiwr Brith, y Gwibiwr Llwyd, Llygoden yr Ŷd, y Betrisen a Phlanhigion Tir Âr**. Bydd cynnal yr Opsiynau Rheoli sydd ym Mhecyn Rhanbarthol Bro Morgannwg yn darparu'r cynefinoedd allweddol ar gyfer y rhywogaethau hyn ac yn diwallu eu hanghenion.

| | | Bras Melyn | Gwibiwr Llwyd | Draenog | Glesyn Bach | Gwibiwr Brith | Llygoden yr Ŷd | Petrisen | Planhigion Tir Âr | Pryf Lleidr Cacynaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Gweundir tir isel | ● | | | | | | | ● | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● |
| | Coetir | | | ● | | | | | | |
| | Ffiniau | ● | | ● | | | ● | ● | | |
| | Gwlypdir | | | | | | ● | | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | ● | | | ● | ● | ● | |

### Grŵpiau

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o'r Opsiwn |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 9B | Creu coridor glan nant newydd ar dir wedi’i wella bob ochr i gwrs dŵr, a phlannu coed |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| **Grŵp 3** | 27 | Ymylon o wyndwn |
| | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |

## Ceredigion (Cod Pecyn Rhanbarthol D)

Mae’r rhanbarth hwn yn ardal bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, afonydd llawr gwlad (Afon Rheidol yn bennaf), perthi/gwrychoedd a glaswelltir heb ei wella. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Brithribin Brown, Cardwenynen y Mwsogl, y Gronnell, y Ffacbysen Chwerw, Planhigion Tir Âr, Trychfilod Graean yr Afon** a’r **Ysgyfarnog**. Bydd cynnal yr Opsiynau Rheoli sydd ym Mhecyn Rhanbarthol Ceredigion yn darparu'r cynefinoedd allweddol ar gyfer y rhywogaethau hyn ac yn diwallu eu hanghenion.

| | | Brithribin Brown | Cardwenynen y Mwsogl | Cronnell | Ffacbysen Chwerw | Planhigion Tir Âr | Pryf Lleidr Cacynaidd | Trychfilod Graean yr Afon | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | ● | | | | | | ● |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | | ● | ● | ● | | ● | | ● |
| | Gwlypdir/ Dŵr croyw | | | | | | | ● | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | | | | | ● | | | ● |
| | Ffiniau | ● | | | | | | | |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o’r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 27 | Ymylon o wyndwn |
| **Grŵp 3** | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Conwy a Sir Ddinbych (Cod Pecyn Rhanbarthol E)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel ac ucheldir grugog.  Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Bras Melyn, Golfan y Mynydd, Gweirlöyn Mawr y Waun, y Gwibiwr Brith, y Llyffant Ddafadennog** a’r **Ysgyfarnog**.

| | | Bras Melyn | Clêr Afonydd yr Iseldir | Ffacbysen Chwerw | Golfan y Mynydd | Gweirlöyn Mawr y Waun | Gwibiwr Brith | Gwibiwr Llwyd | Llyffant | Madfall | Petrisen | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | | ● |
| | Gweundir tir isel | ● | | | | | | | | | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | ● | | | | ● | ● | | | ● |
| | Twyni tywod | | | | | | | | | | ● | |
| | Gwlypdir | | ● | | ● | | | | | | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | | ● | | | | | | | ● |
| | Ffiniau | ● | | ● | ● | | | | | ● | | |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o'r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 26 | Creu ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr |
| | 26B | Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi’i wella a’i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy’n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 27 | Ymylon o wyndwn |
| | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Cymoedd y De (Cod Pecyn Rhanbarthol M)

Mae rhanbarth Cymoedd y De yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a chynefinoedd afon. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Gegiden Bibellaidd, Cimwch yr Afon, y Draenog, y Ffacbysen Chwerw, y Glesyn Bach, y Gwibiwr Llwyd** a’r **Ystlum Clustiog Brown**.

| | | Cegiden Bibellaidd | Cimwch yr Afon | Draenog | Ffacbysen Chwerw | Gwibiwr Llwyd | Glesyn Bach | Ystlum Clustiog Brown |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | | | | ● | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | | | ● | ● | ● | ● | ● |
| | Coetir | | | ● | | | | ● |
| | Gwlypdir / dŵr croyw | ● | ● | | | | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | | | ● | | | | |
| | Ffiniau | | | ● | ● | | | ● |

**Grŵpiau**

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o’r Opsiwn |
|---|---|---|
| Grŵp 1 | 2 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys clawdd newydd, a phlannu coed a llwyni |
| | 3 | Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed |
| | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| Grŵp 2 | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 9B | Creu coridor glan nant newydd ar dir wedi’i wella bob ochr i gwrs dŵr, a phlannu coed |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| Grŵp 3 | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## De Powys (Cod Pecyn Rhanbarthol L)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a chynefinoedd afon. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Bras Melyn, y Gegiden Bibellaidd, Cimwch yr Afon, y Gronnell, y Ffacbysen Chwerw, Trychfilod Graean Afon a’r Ysgyfarnog**.

| | | Bras Melyn | Cegiden Bibellaidd | Cimwch yr Afon | Clêr Afonydd yr Iseldir | Cronnell | Ffacbysen Chwerw | Trychfilod Graean Afon | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweundir tir isel | ● | | | | | | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | | | ● | ● | | ● |
| | Gwlypdir dŵr croyw | | ● | ● | ● | ● | | ● | |
| | Ffiniau | ● | | | | | ● | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | ● | | | | | | ● |

**Grŵpiau**

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o’r Opsiwn |
|---|---|---|
| Grŵp 1 | 3 | Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed |
| | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| Grŵp 2 | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 9B | Creu coridor glan nant newydd ar dir wedi’i wella bob ochr i gwrs dŵr, a phlannu coed |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy’n bod eisoes mewn caeau |
| Grŵp 3 | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Eryri (Cod Pecyn Rhanbarthol K)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â glaswelltir dwysedd isel a gweundir yr ucheldir. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn yw’r **Bras Melyn, y Gegiden Bibellaidd, y Gronnell, Gweirlöyn Mawr y Waun, y Wiber, y Fadfall, y Neidr Ddefaid, Neidr y Gwair, y Tegeirian Pêr** a’r **Ysgyfarnog**.

| | | Bras Melyn | Cronnell | Ffacbysen Chwerw | Gweirlöyn Mawr y Waun | Gwiber | Madfall | Neidr Ddefaid | Neidr y Gwair | Tegeirian Pêr | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | ● | | ● | ● | ● | | | ● | ● |
| | Gweundir tir isel | ● | | | | ● | ● | ● | ● | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● | | ● |
| | Gwlypdir/ dŵr croyw | | | | | ● | ● | | ● | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | | | | | | | | ● |
| | Ffiniau | ● | | | | ● | ● | ● | ● | | |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o’r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 3 | Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed |
| | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 15 | Tir pori parhaol heb fewnbynnau |
| | 15C | Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynnau a phori cymysg |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 21 | Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori |
| | 21B | Rheoli morfeydd heli sy’n cael eu pori â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi’i wella a’i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy’n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Gogledd Powys (Cod Pecyn Rhanbarthol I)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a chynefinoedd afon. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw **Cimwch yr Afon, y Gronnell, y Ffacbys Chwerw, Trychfilod Graean Afon** a’r **Ysgyfarnog.** Bydd cynnal yr Opsiynau Rheoli sydd yn y Pecyn Rhanbarthol yn darparu'r cynefinoedd allweddol ar gyfer y rhywogaethau hyn ac yn diwallu eu hanghenion.

| | | Cimwch yr Afon | Cronnell | Ffacbysen Chwerw | Trychfilod Graean Afon | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | | ● | ● | | ● |
| | Gwlypdir / dŵr croyw | ● | ● | | ● | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | | | | | ● |
| | Ffiniau | | | ● | ● | |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o’r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 2 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy’n cynnwys clawdd newydd, a phlannu coed a llwyni |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 15 | Tir pori parhaol heb fewnbynnau |
| | 15C | Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynnau a phori cymysg |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| **Grŵp 3** | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Gwynedd (Cod Pecyn Rhanbarthol G)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a gweundir. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Bras Melyn, y Gegiden Bibellaidd, y Gronnell, y Wiber, y Fadfall, y Llyffant Ddafadennog, Llygoden yr Ŷd, y Draenog, y Neidr Ddefaid, y Pryf Lleidr Cacynaidd, y Saerwenynen Fawr, Saerwenynen y Gorllewin** a’r **Ysgyfarnog**.

| | | Bras Melyn | Cegiden Bibellaidd | Cronnell | Gwiber | Madfall | Llyffant | Llygoden yr Ŷd | Draenog | Neidr Ddefaid | Pryf Lleidr | Saerwenynen Fawr | Saerwenynen y Gorllewin | Ysgyfarnog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | | | ● | | | | | | | | | ● |
| | Gweundir tir isel | ● | | | ● | ● | ● | | | ● | | ● | ● | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| | Twyni tywod | | | | ● | ● | ● | | | ● | | ● | | |
| | Coetir | | | | | | | | ● | | | | | |
| | Gwlypdir/ dŵr croyw | | ● | | ● | ● | ● | ● | | | | | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | | | | | ● | ● | | | | | ● |
| | Ffiniau | ● | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | | |

**Grŵpiau**

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o’r Opsiwn |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 27 | Ymylon o wyndwn |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi’i wella a’i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy’n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Mynwy a Chasnewydd (Cod Pecyn Rhanbarthol H)

Mae'r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a chynefinoedd afon. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o'r Pecyn hwn yw'r **Bras Melyn, y Gegiden Bibellaidd, Cimwch yr Afon, y Draenog, Golfan y Mynydd, y Gwibiwr Llwyd, Llygoden yr Ŷd, y Pryf Lleidr Cacynaidd, y Siglen Felen a Thrychfilod Graean Afon**.

| | | Bras Melyn | Cegiden Bibellaidd | Cimwch yr Afon | Clêr Afonydd yr Iseldir | Draenog | Golfan y Mynydd | Gwibiwr Llwyd | Llygoden yr Ŷd | Pryf Lleidr Cacynaidd | Siglen Felen | Trychfilod Graean Afon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | | | | | | ● | | | | |
| | Gweundir tir isel | ● | | | | | | | | | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | | | ● | | ● | ● | ● | ● | |
| | Coetir | | | | | ● | | | | | | |
| | Gwlypdir/ dŵr croyw | | ● | ● | ● | | ● | | ● | | | ● |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | | | ● | ● | | ● | | ● | |
| | Ffiniau | ● | | | | ● | ● | | ● | | | |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o'r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 2 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy'n cynnwys clawdd newydd, a phlannu coed a llwyni |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella |
| **Grŵp 2** | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 27 | Ymylon o wyndwn |
| | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na'i chwistrellu |

## Sir Benfro (Cod Pecyn Rhanbarthol J)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a gweundir.  Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o‘r Pecyn hwn yw’r **Bras Melyn, y Brithribin Brown, y Chwilen Olew Ddu, y Draenog, y Glesyn Bach, y Wiber, y Gwibiwr Brith, y Gwibiwr Llwyd, y Llyffant Ddafadennog, y Fadfall, Neidr y Gwair, y Neidr Ddefaid, Llygoden yr Ŷd a Phlanhigion Tir Âr**.

| | | Bras Melyn | Brithribin Brown | Cardwenynen y Mwsogl | Chwilen Olew Ddu | Glesyn Bach | Gwiber | Gwibiwr Brith | Gwibiwr Llwyd | Llyffant | Llygoden yr Ŷd | Madfall | Neidr Ddefaid | Neidr y Gwair | Planhigion Tir Âr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Gweundir tir isel | ● | ● | ● | ● | | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● |
| | Ucheldir | | | | | | ● | | | | | ● | | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| | Twyni tywod | | | | | ● | ● | ● | | ● | | ● | | ● | |
| | Gwlypdir/dŵr croyw | | | | | | ● | | | ● | ● | ● | | ● | |
| | Ffiniau | | ● | | | | ● | | | | ● | ● | ● | ● | |
| | Tir âr isel fewnbynnau | ● | | ● | | | | | | | ● | | ● | | ● |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o’r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 21 | Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori |
| | 21B | Rheoli morfeydd heli sy’n cael eu pori â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi’i wella a’i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy’n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 27 | Ymylon o wyndwn |
| | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Sir y Fflint a Wrecsam (Cod Pecyn Rhanbarthol F)

Mae'r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig â thir âr, glaswelltir dwysedd isel a phyllau. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o'r Pecyn hwn yw'r **Bras Melyn, y Chwilen Blymio Arian Fach, Golfan y Mynydd, y Gwibiwr Brith, y Gwibiwr Llwyd, y Llyffant Ddafadennog, y Fadfall, Neidr y Gwair, y Betrisen a'r Siglen Felen**.

| | | Bras Melyn | Clêr Afonydd yr Iseldir | Chwilen Blymio Arian Fach | Golfan y Mynydd | Gwibiwr Brith | Gwibiwr Llwyd | Llyffant | Madfall | Neidr y Gwair | Petrisen | Siglen Felen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | |
| | Gweundir tir isel | | | | | | | ● | ● | ● | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| | Twyni tywod | | | | | ● | | | | | | |
| | Gwlypdir/ dŵr croyw | | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | | ● | | | | | | ● | ● |
| | Ffiniau | ● | | | ● | | | ● | ● | ● | ● | |

**Grŵpiau**

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o'r Opsiwn |
|---|---|---|
| Grŵp 1 | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o'r canol) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| Grŵp 2 | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau |
| Grŵp 3 | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na'i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Sir Gaerfyrddin (Cod Pecyn Rhanbarthol C)

Mae’r rhanbarth hwn yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n gysylltiedig ag afonydd llawr gwlad, perthi, glaswelltir heb ei wella (yn enwedig glaswelltir gwlyb) a thwyni tywod. Y rhywogaethau allweddol a fydd yn cael budd o’r Pecyn hwn yw’r **Brithribin Brown, Cardwenynen y Mwsogl, y Ffacbysen Chwerw, Golfan y Mynydd, y Glesyn Bach, y Gwibiwr Brith, y Gwibiwr Llwyd, y Tegeirian Pêr a Thrychfilod Graean yr Afon**.

| | | Brithribin Brown | Cardwenynen y Mwsogl | Ffacbysen Cherw | Golfan y Mynydd | Glesyn Bach | Gwibiwr Brith | Gwibiwr Llwyd | Pryf lleidr cacynaidd | Trychfilod Graean yr Afon | Tegeirian Pêr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Ucheldir | | ● | | | | | ● | | | |
| | Gweundir tir isel | | | | | | | | ● | | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | | ● | ● | | | | ● | ● | | ● |
| | Twyni tywod | | | | | ● | ● | | | | |
| | Gwlypdir/ dŵr croyw | | | | ● | | | | | ● | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | | | | ● | | | | | | |
| | Ffiniau | ● | | ● | ● | | | | | | |

**Grŵpiau**

| | **Rhif yr Opsiwn** | **Disgrifiad o’r Opsiwn** |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 5 | Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 6 | Codi ffens ddwbl 3m o led bob ochr i berth/gwrych bylchog (1.5m o’r canol) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi’i wella |
| | 38 | Blychau nythu / ystlumod newydd |
| | 42A | Adfer perthi/gwrychoedd â ffensys |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi’i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi’i wella mewn corneli caeau i droi’n borfa arw neu’n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| **Grŵp 3** | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi’i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi’i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na’i chwistrellu |
| | 41A | Rheoli pori ar dir agored |
| | 41B | Rheoli pori ar dir agored â phori cymysg |

## Ynys Môn (Cod Pecyn Rhanbarthol A)

Mae Ynys Môn yn rhanbarth arbennig o bwysig yng Nghymru oherwydd ei gweundir, gwlypdir a glaswelltir a'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt. Y rhywogaethau allweddol ym Mhecyn Rhanbarthol Ynys Môn yw'r **Bras Melyn, y Gegiden Bibellaidd, y Draenog, y Wiber, y Gwibiwr Llwyd, y Llyffant Ddafadennog, y Fadfall, y Betrisen, Saerwenynen y Gorllewin** a'r **Tegeirian Pêr.**

| | | Bras Melyn | Cegiden Bibellaidd | Draenog | Gwiber | Gwibiwr Llwyd | Llyffant | Madfall | Petrisen | Saerwenynen y Gorllewin | Tegeirian Pêr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNEFIN | Gweundir tir isel | ● | | | ● | | ● | ● | | ● | |
| | Glaswelltir isel ei fewnbynnau | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| | Gwlypdir/ dŵr croyw | | ● | | ● | | ● | ● | | | |
| | Tir âr isel ei fewnbynnau | ● | | ● | | | | | ● | | |
| | Ffiniau | ● | | ● | ● | | ● | ● | | | |

**Grŵpiau**

| | Rhif yr Opsiwn | Disgrifiad o'r Opsiwn |
|---|---|---|
| **Grŵp 1** | 1 | Creu coridor bywyd gwyllt 3m o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni |
| | 3 | Creu coridor bywyd gwyllt drwy sefydlu rhimyn o goed |
| | 4 | Amodau syml ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr) |
| | 24 | Gadael i goetir ymestyn dros ei ffiniau i dir sydd wedi'i wella |
| **Grŵp 2** | 7B | Creu coridor newydd ar ddwy lan nant ar dir wedi'i wella. |
| | 8 | Parhau i reoli coridor ar lan nant |
| | 19 | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel |
| | 19B | Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg |
| | 20 | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad |
| | 20B | Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg |
| | 22 | Cynnal gweirgloddiau |
| | 23 | Gadael darnau bychain o dir wedi'i wella mewn corneli caeau i droi'n borfa arw neu'n brysgwydd |
| | 25 | Rheoli twyni tywod |
| | 25B | Rheoli twyni tywod â phori cymysg |
| | 35B | Creu pwll dŵr natur ar dir wedi'i wella a'i amgáu – maint amrywiol |
| | 36 | Creu llain glustogi o gwmpas pyllau dŵr heb eu ffensio sy'n bod eisoes mewn caeau |
| **Grŵp 3** | 31 | Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu gyda sofl dros y gaeaf |
| | 32B | Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella, heb ddrilio. |
| | 33 | Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella |
| | 34 | Talar o ŷd heb ei gynaeafu |
| | 34B | Talar o ŷd heb ei wrteithio na'i chwistrellu |

# Adran 5: Porthi atodol ar dir mewn opsiynau cynefin

Bydd hawl rhoi porthiant atodol i anifeiliaid ar dir sydd o dan yr Opsiynau Rheoli hyn os bydd angen porthi'r anifeiliaid yn benodol er sicrhau eu lles. Tywydd drwg a diffyg bwyd i anifeiliaid beichiog yw'r sbardunau tebygol ar gyfer rhoi porthiant atodol i stoc.

Wrth roi porthiant atodol, mae'n bwysig osgoi niweidio'r llystyfiant, y pridd a'r cyrsiau dŵr, ac mae hynny'n cynnwys gorbori, gorwrteithio'r pridd, sathru'r llystyfiant, stablad (sathru) y pridd gan anifeiliaid pori neu ei rigoli gan gerbydau sy'n cario bwyd i'r anifeiliaid, erydu'r pridd a llygru'r dŵr.

Dylech ddewis y porthiant o'r rhestr isod a dylai'r swm a fwydwch fod yn addas i'r math o anifail sy'n cael ei fwydo:

- Gwair (i'w wasgaru)
- Gwywair (porfa wedi'i ladd ag o leiaf 60% ohono'n ddeunydd sych) (i'w wasgaru)
- Bwyd cyfansawdd
- Betys siwgr sych (ar ffurf cêc)
- Plociau bwydo a bwyd gwlyb mewn cynwysyddion addas

**Prif ofynion:**

- Bydd angen porthi'ch anifeiliaid pan na fydd y porfwyd sydd ar gael, o ran ei swm neu/na'i ansawdd, yn ateb gofynion maeth yr anifeiliaid pori. Er enghraifft, mamogiaid sy'n drwm gan oen neu sydd newydd ŵyna ac sydd felly ag angen mwy o faeth nag arfer, pan fydd lefelau stocio'n uchel a/neu pan fydd mwy o ŵyn nag arfer yn cael eu geni. O dan rai amgylchiadau, gallwch osgoi'r angen am borthi atodol ar gynefin trwy ostwng y lefelau stocio ac yn achos defaid, trwy fynd â mamogiaid trwm gan ŵyn (tua 8 wythnos cyn ŵyna) o'r cynefin, yn enwedig os ydyn nhw'n disgwyl mwy nag un oen.
- Os ydych yn rhoi rhyw fath o ddwysfwyd, gofalwch fod y stoc i gyd yn cael mynd ato a'i fwyta yr un pryd.
- Bwydwch eich anifeiliaid mewn lle gwahanol bob dydd.
- Wrth ddewis ble i fwydo'ch anifeiliaid, mae'n bwysig iawn eich bod yn osgoi llystyfiant sy'n sensitif i niwed ac i orwrteithio. Llystyfiant fel llystyfiant gorgors, grug, llus a chorlwyni eraill, glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, coetir llydanddail brodorol (lle mae mwy na 50% o'r coetir yn goed brodorol) a chorsydd.
- Peidiwch â bwydo'ch anifeiliaid ar safleoedd archeolegol, llethrau serth na llwybrau cyhoeddus nac wrth eu hymyl. Gofalwch fod o leiaf 10m rhwng y safle bwydo a chwrs dŵr.
- Peidiwch byth â defnyddio cafnau bwyd na rheseli bêls ('bale feeders').
- Ewch ag unrhyw blastig o'r tir ar ôl gwasgaru'r bwyd.

**Tywydd drwg a phorthiant atodol**

Mae tywydd drwg yn golygu cyfnod pan fydd y llystyfiant wedi'i orchuddio gan eira neu'n dioddef cyfnod hir o rew caled neu o sychder neu o law trwm. Caniateir porthi atodol os ydy'r porfwyd sydd ar gael i anifeiliaid yn brin iawn yn ystod y cyfnod o dywydd cas, cyn belled â bod y porthiant yn cael ei roi heb niweidio'r amgylchedd ac nad oes perygl i les y da byw.

Mae'n bwysig eich bod yn gallu dangos eich bod wedi cwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol ac wedi cael pob caniatâd angenrheidiol **cyn** dechrau cynnal yr Opsiynau Rheoli hyn. Darllenwch Ran 2, Rhan 3, Adran 6 ac Atodiad 2 am fwy o fanylion.

# Adran 6: Caniatâd, ymgynghori a gofynion cyfreithiol

Rhaid ichi gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'ch tir. Ambell waith, bydd gofyn ichi ofyn i'r awdurdod perthnasol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru) am ganiatâd i gynnal rhai Opsiynau Rheoli.

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhestru'r Opsiynau Rheoli y bydd angen ichi gael caniatâd ar eu cyfer. **Nid yw hon yn rhestr gyflawn.**

## Y Caniatâd sydd ei angen cyn cychwyn y Contract

Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir isod, Llywodraeth Cymru fydd yn cysylltu â'r awdurdod perthnasol i ofyn am ganiatâd i gynnal Opsiynau Rheoli. Bob tro arall, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau'ch bod yn cael y caniatâd. Os na chaiff y caniatâd ei roi, bydd yn rhaid ichi ddewis Opsiwn Rheoli arall er mwyn cyrraedd eich trothwy pwyntiau. O beidio â gwneud, gallem wrthod eich cais a/neu ddod â'ch contract i ben.

### Tir wedi'i Ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am reoli SoDdGAoedd. Bydd yn rhaid cael caniatâd CNC i gynnal Opsiynau Rheoli ar y tir hwnnw.

Pwysig: ni fydd angen caniatâd CNC arnoch i gynnwys tir SoDdGA yn eich contract Glastir Sylfaenol os nad ydych am gynnal Opsiynau Rheoli Glastir Sylfaenol yn y SoDdGA.

Os oes gennych gytundeb Amod 15 neu Adran 16 gyda'r CNC ar eich SoDdGA, ewch i Ran 1 Adran C *Llyfryn 1 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Cyffredinol* am fwy o fanylion.

### Tir wedi'i ddynodi'n Barciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Rhestredig a Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol

CADW yw'r corff sy'n gyfrifol am reoli Henebion Rhestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig. Rhaid cael caniatâd CADW i gynnal Opsiynau Rheoli ar Heneb Restredig neu Barc neu Ardd Gofrestredig os bydd yr opsiwn yn golygu aflonyddu'r pridd. Bydd hynny'n cynnwys gwaith sy'n cynnwys ffensio a phlannu coed.

Hefyd, os ydych yn bwriadu cynnal Opsiynau Rheoli sy'n golygu aflonyddu'r tir ar Nodweddd yn yr Amgylchedd Hanesyddol, bydd yr Ymddiriedolaeth Archeolegol leol wedi rhoi ei chaniatâd.

Pwysig: ni fydd angen caniatâd CADW na'ch Ymddiriedolaeth Archeolegol leol arnoch i gynnwys Heneb wedi'i Rhestru neu Nodwedd yr Amgylchedd Hanesyddol yn eich contract Glastir Sylfaenol os nad ydych am gynnal Opsiynau Rheoli Glastir Sylfaenol ar y tir hwnnw.

## Caniatâd sydd ei angen arnoch cyn cychwyn gweithio

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau'ch bod yn cael y caniatâd a restrir isod cyn cychwyn gweithio ar yr Opsiwn Rheoli dan sylw. Rhaid cadw'r caniatâd ar y fferm a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Unwaith y bydd eich contract wedi cychwyn (1 Ionawr 2013) a lle bo'r Opsiwn Rheoli yn

gofyn am gynnal gwaith cyfalaf ac nad oes caniatâd wedi'i gael, rhaid cynnal Opsiwn Rheoli arall arno sydd â Gwaith Cyfalaf. Byddai peidio â dewis Opsiwn Rheoli addas yn golygu adennill unrhyw arian sydd wedi'i dalu ichi a dod â'r contract i ben.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Os ydych yn bwriadu cynnal Opsiwn Rheoli a allai rwystro Hawl Tramwy Cyhoeddus, rhaid ichi gael caniatâd yr Awdurdod Lleol neu'r Parc Cenedlaethol.

**Creu pwll**
Efallai y bydd angen trwydded tynnu dŵr neu drwydded cronni dŵr arnoch gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chaniatâd cynllunio gan eich Awdurdod Lleol os dewiswch opsiwn creu pwll.

**Amddiffyn rhag Llifogydd**
Os ydych yn bwriadu codi lefel y tir, plannu coed o fewn 7.0 metr a/neu gynnal gwaith o fewn 7.0 metr (gan gynnwys codi ffens neu adeiledd arall) o lan prif afon, bydd angen caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru arnoch.

Ewch i wefan CNC (www.ecyfoethnaturiolcymru.gov.uk) am fwy o fanylion ac esboniad o beth yw prif afon.

**Chwistrellu Rhedyn**
Fel y dywedir yng Nghod y Fferm Gyfan, o dan rai amgylchiadau, bydd angen caniatâd Llywodraeth Cymru a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Ewch i Atodiad 1 am fwy o fanylion.

**Storio Tail, Silwair a Gwastraff Arall y Fferm**
Os ydy 90% o'r fferm naill ai mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd neu ar lethr o fwy na 7 gradd, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd Llywodraeth Cymru i storio tail, silwair neu wastraff arall.

**Moch Daear**
Bydd angen caniatâd Llywodraeth Cymru arnoch i gynnal unrhyw weithgaredd a allai aflonyddu ar frochfa moch daear (o fewn 50 metr).

**Rheoli Planhigion Goresgynnol**
Os ydych wedi dewis cynnal Opsiwn Rheoli sy'n golygu rheoli Clymog Japan neu Jac y Neidiwr, bydd gofyn ichi ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am gyngor a chaniatâd.

**Ystlumod**
Os ydych am gynnal gweithgaredd a allai aflonyddu ar ystlumod (e.e. gwaith mewn adeiladau traddodiadol), rhaid holi Cyfoeth Naturiol Cymru a rhoi ei argymhellion ar waith. Ambell waith, bydd angen arolwg a thrwydded ystlumod cyn cynnal y gwaith.

# Atodiad 1: Gofynion Cyfreithiol a Chaniatâd

Mae'r **tabl 1** hwn yn crynhoi'r prif ofynion cyfreithiol ac unrhyw ganiatâd allai fod ei angen. Lle bo'u hangen, gofynnwch am ganiatâd ysgrifenedig a'i gadw ar y fferm. **Nid yw hon yn rhestr gyflawn a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu hateb a'ch bod wedi cael pob caniatâd angenrheidiol.**

**Tabl 1**

| **Cod y Fferm Gyfan** | **Math o waith** | **Holi pwy am ganiatâd ...** |
|---|---|---|
| Diogelu cynefinoedd | Chwistrellu rhedyn os ydych wedyn yn ail-hau | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol – Llywodraeth Cymru |
| Diogelu cynefinoedd | Chwistrellu rhedyn wrth gwrs dŵr | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Diogelu cynefinoedd | Chwistrellu rhedyn o fewn 100m i SoDdGA | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Storio mewn ardal llifogydd/llethrau >7 gradd | Os ydy 90% o'r fferm mewn ardal llifogydd neu ar lethrau o > 7 gradd, yna gallwch ofyn am ganiatâd i storio tail, silwair neu wastraff fferm arall | Llywodraeth Cymru |
| Adeiladau traddodiadol | Os ydych yn ei ddymchwel am ei fod yn beryglus, ystyriwch a oes angen arolwg ystlumod (yn ysgrifenedig) a rhowch yr argymhellion ar waith. | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Hawl Tramwy Cyhoeddus | Os oes posibilrwydd i'r opsiwn rwystro'r llwybr | Awdurdod Lleol |
| **Opsiynau Rheoli** | | |
| 1, 1B, 2, 2B, 3, 6, 6B, 7A, 7B, 9A, 9B, 11, 12, 14, 14B, 30, 31, 32, 32B, 33,35B, 42A, 42B, 43A a 43B | Unrhyw weithgaredd allai aflonyddu ar frochfa moch daear (o fewn 20 metr) | Llywodraeth Cymru |
| 7A, 7B, 8, 9B, 9B | Rheoli Clymog Japan / Jac y Neidiwr | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Mae **Tabl 2** yn rhestru'r prif ofynion cyfreithiol ac unrhyw ganiatâd sydd ei angen cyn cyfarfod Glastir Sylfaenol. Os na fyddwch wedi cael y caniatâd cyn eich cyfarfod, bydd yn rhaid ichi ei gael a'i ddangos i Lywodraeth Cymru cyn cynnal yr Opsiwn Rheoli. **Nid yw hon yn rhestr gyflawn a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu hateb a'ch bod wedi cael pob caniatâd angenrheidiol.**

**Tabl 2**

| **Opsiynau** | **Math o waith** | **Holi pwy am ganiatâd ...** |
|---|---|---|
| 1, 1B, 2, 2B, 3, 6, 6B, 7A, 7B, 9A, 9B, 23, 24, 35B, 36, 42A, 43A a 43B | Unrhyw weithgaredd allai gau Hawl Tramwy Cyhoeddus | Awdurdod Lleol |
| 1, 1B, 2, 2B, 3, 6, 6B, 7A, 7B, 8, 9A, 9B, 10, 11, 12, 13, 14, 14B, 15A, 15B, 15C, 15D, 23, 24, 26**, 26B**, 27**, 28**, 29**, 30**, 31**, 32**, 32B**, 33**, 34**, 34B**, 35B, 36, 39, 40, 42A, 42B, 43A, 43B, 44, 46A, 46B, 46C | Unrhyw weithgaredd allai niweidio Nodwedd yn yr Amgylchedd Hanesyddol neu Barciau a Gerddi Cofrestredig | Ymddiriedolaeth Archeolegol leol |
| 10, 26*, 26B*, 27*, 28*, 29*, 30*, 31*, 32*, 32B*, 33*, 34*, 34B*, 44, 46A, 46B, 46C | Unrhyw weithgaredd allai niweidio Heneb Restredig | CADW |
| 35B | Creu pyllau ar dir wedi'i wella | Caniatâd cynllunio – Awdurdod Lleol lle bo gofyn |
| 35B | Creu pyllau ar dir wedi'i wella | Trwydded tynnu/crynhoi dŵr – Cyfoeth Naturiol Cymru lle bo gofyn |
| Pob Opsiwn Rheoli | Opsiynau Rheoli sy'n cael eu cynnal ar Safle Ardal Wyddonol Arbennig (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwaraeth a Gwarchodaeth Arbennig) | Bydd angen caniatâd – Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 2, 2B & 35B | Codi lefel y tir ar orlifdir prif afonydd –ystyried a oes angen caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd o dan Is-ddeddf 8 Asiantaeth yr Amgylchedd | Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 1, 1B, 2, 2B, 3, 6, 6B, 7A, 7B, 9A a 9B | Plannu coed o fewn 7.0 metr i lan prif afon - ystyried a oes angen caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd o dan Is-ddeddf | Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | 17 Asiantaeth yr Amgylchedd | |
| 1, 1B, 2, 2B, 3, 6, 6B, 7A, 7B, 9A, 9B 10 & 35 | Gwaith o fewn 7.0 metr i lan prif afon, gan gynnwys codi ffens ac adeiledd arall - ystyried a oes angen caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd o dan Is-ddeddf 18a Asiantaeth yr Amgylchedd | Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru |

* Os ydy'r tir hwn eisoes yn cael ei drin neu wedi cael ei drin o fewn y 5 mlynedd diwethaf, caniateir yr opsiwn hwn.  Os nad yw'r tir hwn yn cael ei drin, ni chaniateir yr opsiwn hwn

** Os ydy'r tir hwn eisoes yn cael ei drin, caniateir yr opsiwn hwn.  Os nad yw'r tir hwn yn cael ei drin, rhaid cael caniatâd Cadw/yr Ymddiriedolaeth Archeolegol.  Gallai hynny olygu bod Cadw/yr Ymddiriedolaeth Archeolegol yn rhoi cyngor ar faint a lleoliad yr opsiwn ar y darn tir.

# Atodiad 2: Templedi’r Dyddiadur Stocio a’r Dyddiadur Gwaith

## Glastir Sylfaenol – Sut i Gadw Dyddiadur Stocio

Rydym wedi creu’r templed hwn fel enghraifft o’r math o gofnod y mae angen ichi ei gadw.

### Cam 1

Nodwch **y Disgrifiad o’r Opsiwn**, **Rhif yr Opsiwn Rheoli, Cyfeirnod y Ddalen, Rhif y Parsel a Maint y Parsel (ha)** yn y blychau ar draws top y tabl.

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GLASTIR SYLFAENOL**<br>**ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC** | | | | | | | | | | | | | | |
| Disgrifiad o'r Opsiwn | | *Rheoli Twyni Tywod* | | | | | Rhif yr Opsiwn | *25* | Cyfeirnod y Ddalen | *SJ1004* | Rhif y Parsel | *1234* | Maint y Parcel (Ha) | *43.00* |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | |

### Cam 2

Yn y colofnau ar y chwith o dan **Nifer yr Anifeiliaid**, rhowch nifer pob math o anifail sy’n bresennol yn y cae ar ddiwrnod cyntaf eich Contract Glastir Sylfaenol (e.e. 1 Ionawr 2012).

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GLASTIR SYLFAENOL**<br>**ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC** | | | | | | | | | | | | | | |
| Disgrifiad o'r Opsiwn | | *Rheoli Twyni Tywod* | | | | | Rhif yr Opsiwn | *25* | Cyfeirnod y Ddalen | *SJ1004* | Rhif y Parsel | *1234* | Maint y Parcel (Ha) | *43.00* |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| *01/01/13* | *0* | *0* | *42* | *2* | *0* | | | | | | | | | |

## Cam 3

I lenwi'r colofnau ar y dde o dan **Unedau Da Byw**, lluoswch nifer pob math o stoc â'r Unedau Da Byw cysylltiedig sy'n cael eu dangos o dan y teitl ar gyfer pob math o stoc. Rhowch y canlyniad yn y golofn berthnasol ar gyfer pob math o anifail sy'n bresennol yn y cae.

| GLASTIR SYLFAENOL<br>ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Opsiwn | | Rheoli Twyni Tywod | | | | | Rhif yr Opsiwn | 25 | Cyfeirnod y Ddalen | SJ1004 | Rhif y Parsel | 1234 | Maint y Parcel (Ha) | 43.00 |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| 01/01/13 | 0 | 0 | 42 | 2 | 0 | 0 | 0 | 6.3 | 2 | 0 | | | | |

## Cam 4

Adiwch yr Unedau Da Byw (UDB'au) ar gyfer yr holl anifeiliaid i gael cyfanswm y lefel stocio. Rhowch y ffigur yn y golofn "**C'swm**".

| GLASTIR SYLFAENOL<br>ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Opsiwn | | Rheoli Twyni Tywod | | | | | Rhif yr Opsiwn | 25 | Cyfeirnod y Ddalen | SJ1004 | Rhif y Parsel | 1234 | Maint y Parcel (Ha) | 43.00 |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| 01/01/13 | 0 | 0 | 42 | 2 | 0 | 0 | 0 | 6.3 | 2 | 0 | 8.3 | | | |

**Cam 5**
Rhannwch y ffigur hwn â maint y cae a rhoi'r ffigur yn y golofn **UDB/Ha**.

| GLASTIR SYLFAENOL<br>ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Opsiwn | *Rheoli Twyni Tywod* | | | | | | Rhif yr Opsiwn | *25* | Cyfeirnod y Ddalen | *SJ1004* | Rhif y Parsel | *1234* | Maint y Parcel (Ha) | *43.00* |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br><br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| *01/01/13* | *0* | *0* | *42* | *2* | *0* | *0* | *0* | *6.3* | *2* | *0* | *8.3* | *0.19* | | |

**Cam 6**
Cymharwch y ffigur hwn â'r nifer mwyaf a lleiaf rydych yn cael eu cadw o dan yr Opsiwn Rheoli hwn i wneud yn siwr eich bod yn cadw at ofynion y cynllun.

**Cam 7**
Gallwch roi'r nifer mwyaf a lleiaf y cewch eu cadw ar gyfer yr Opsiwn Rheoli hwn yn y colofnau ar y pen i'ch helpu.

| GLASTIR SYLFAENOL<br>ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Opsiwn | *Rheoli Twyni Tywod* | | | | | | Rhif yr Opsiwn | *25* | Cyfeirnod y Ddalen | *SJ1004* | Rhif y Parsel | *1234* | Maint y Parcel (Ha) | *43.00* |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br><br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| *01/01/13* | *0* | *0* | *42* | *2* | *0* | *0* | *0* | *6.3* | *2* | *0* | *8.3* | *0.19* | | *0.6* |

**Cam 8**

Bob tro y mae nifer neu fath yr anifeiliaid yn newid (neu os bydd yr anifeiliaid yn symud i grŵp oed gwahanol) ar y cae, bydd angen ichi gofnodi'r data newydd yn y colofnau perthnasol yn y colofnau **Nifer yr Anifeiliaid** ac ailgyfrif lefel stocio UDB y cae.

| GLASTIR SYLFAENOL<br>ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r Opsiwn | | *Rheoli Twyni Tywod* | | | | | Rhif yr Opsiwn | *25* | Cyfeirnod y Ddalen | *SJ1004* | Rhif y Parsel | *1234* | Maint y Parcel (Ha) | *43.00* |
| NIFER YR ANIFEILIAID<br><br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid) | | | | | | UNEDAU DA BYW (UDB) | | | | | | | | |
| Dyddiad | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | Gwartheg (dros 24 mis) | Gwartheg (o 6 - 24 mis) | Mamogiaid Magu | Ceffylau | Meriod | C'swm | UDB/Ha | Lleiaf UDB/Ha | Uchaf UDB/Ha |
| | | | | | | 1 UDB | 0.6 UDB | 0.15 UDB | 1 UDB | 0.5 UDB | | | | |
| *01/01/13* | *0* | *0* | *42* | *2* | *0* | *0* | *0* | *6.3* | *2* | *0* | *8.3* | *0.19* | | *0.6* |
| *18/02/13* | *0* | *0* | *0* | *2* | *0* | *0* | *0* | *0* | *2* | *0* | *2* | *0.05* | | *0.6* |

**Cam 9**

Cadwch eich dyddiadur stocio mewn lle diogel a hwylus. **Bydd gofyn ichi ei ddangos i'r archwilydd fel tystiolaeth eich bod yn cadw'r lefel stocio yn unol â'r gofynion ar gyfer yr Opsiwn Rheoli Glastir Sylfaenol dan sylw.**

# Templedi'r Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GLASTIR SYLFAENOL<br>ENGHRAIFFT O DDYDDIADUR / DALEN COFNODI STOC** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Disgrifiad o'r Opsiwn** | | | | | **Rhif yr Opsiwn** | | | **Cyfeirnod y Ddalen** | | **Rhif y Parsel** | | | **Maint y Parsel (Ha)** | | |
| **NIFER YR ANIFEILIAID<br>(Rhowch fanylion bob tro y mae nifer neu fath (neu grŵp oedran) yr anifeiliaid yn newid)** | | | | | | | **UNEDAU DA BYW (UDB)** | | | | | | | | |
| **Dyddiad** | **Gwartheg dros 24 mis** | **Gwartheg o 6 - 24 mis** | **Defaid gydag oen a heb oen*** | **Ceffylau** | **Merlod** | **Geifr** | **Gwartheg dros 24 mis** | **Gwartheg o 6 - 24 mis** | **Defaid gydag oen a heb oen*** | **Ceffylau** | **Merlod** | **Geifr** | **C'swm** | **UDB/ Ha** | **Lleiaf UDB/ Ha** / **Uchaf UDB/ Ha** |
| | | | | | | | **1 UDB** | **0.6 UDB** | **0.15 UDB** | **1 UDB** | **0.5 UDB** | **0.15 UDB** | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |

***Nid yw'r ŵyn wrth droed yn cyfrif.**

# Atodiad 2 - Templedi'r Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith

## Glastir Sylfaenol – Llenwi'r Dyddiadur Gwaith â Llaw

Rydym wedi creu'r templedi canlynol fel enghraifft o'r math o gofnod y mae angen ichi ei gadw.

### Pa fath o weithgareddau ddylwn eu cofnodi yn fy nyddiadur gwaith?

- **Dyddiad** cynnal y gweithgaredd
- **Math o weithgaredd** – e.e plygu perthi, gwasgaru tail, tocio brwyn mewn cynefin
- **Rhif y Ddalen** a **Rhif y Cae** y mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal ynddo
- **Rhif Map** neu **faint** y lle mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal. Defnyddiwch 'AWE003' os ydy'r gweithgaredd yn cael ei gynnal o fewn Opsiwn Rheoli sydd wedi'i fapio. Os ydy'r gweithgaredd yn cael ei gynnal y tu allan i Opsiwn Rheoli, bydd angen ichi ddisgrifio ble yn y cae y mae'n cael ei gynnal e.e. 'sbot-chwynnu ysgall yn hanner gogleddol y cae'.
- **Hyd** neu **Nifer**, er enghraifft ' 5 coeden', '2 hectar o frwyn wedi'u tocio', 'torri 80 metr o berthi' neu 'gyfradd/hectar o dail wedi'i wasgaru'.
- **Enw/math y cynnyrch –** ar gyfer unrhyw dail, slyri, gwrtaith organig neu anorganig, gwymon calchog, calch, slwtsh carthion, slwtsh papur, gwastraff o'r fferm ac o'r tu allan i'r fferm yn ogystal â chwynladdwyr a phryfladdwyr sy'n cael eu gwasgaru.
- **Dull** cynnal y gweithgaredd, os yn briodol. Er enghraifft, os ydych yn chwistrellu slyri, cofnodwch a wnaethoch chi ddefnyddio chwistrellydd, trailing shoe neu far diferu.

**Templedi dyddiaduron**
Gallwch ddefnyddio'r templedi yn y llyfr hwn neu cewch gopïau ohonyn nhw ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk. Cewch ddefnyddio'ch dyddiadur eich hunan ond rhaid cofnodi'r holl wybodaeth sydd yn y templedi.

Os medrwch, dylech gadw'ch cofnodion yn electronig. Mae'r templedi ar y wefan ar ffurf taenlen Excel. Mae hynny'n golygu y byddwch yn gallu cyflwyno'ch dyddiadur gwaith i'ch Swyddfa Ranbarthol trwy ebost tra'n cadw'r gwreiddiol i'w ddiweddaru.

Mae 2 fath o dempled ichi eu defnyddio:

**Fersiwn 1** – llenwi dalen ar wahân ar gyfer pob cae yn eich contract.

**Fersiwn 2** – cofnodi'r holl weithgareddau ar dir y contract un dydd ar y tro pan fydd y gweithgareddau hynny'n cael eu cynnal. Cofnodwch un cae ar gyfer pob llinell. Felly os ydych am gofnodi'ch bod wedi gwasgaru tail mewn 10 cae, bydd yn rhaid ichi gofnodi'r caeau hynny ar 10 llinell ar wahân.

# Atodiad 2 - Templedi'r Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith

## Fersiwn 1

| **GLASTIR SYLFAENOL** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod Dalen OS** | | **Rhif Cae'r OS** | | **Enw'r Cae** | |
| | | | | | |
| **Dyddiad** | **Gweithgaredd** | **Maint / Rhif y Map** | **Hyd / Nifer / Cyfradd** | **Cynnyrch** | **Dull** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Atodiad 2 - Templedi'r Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith

## Fersiwn 2

| Glastir Sylfaenol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad | Gweithgaredd | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Maint / Rhif y Map | Hyd / Nifer / Cyfradd | Cynnyrch | Dull |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

Pwysig – Os ydych yn cofnodi'r Plaladdwyr a'r Chwynladdwyr yn y 'Llyfryn Cofnodi Trin â Phlaladdwyr' fel rhan o ofynion Trawsgydymffurfio Cynllun y Taliad Sengl, ni fydd angen ichi gofnodi'r manylion hyn ar y tabl uchod. Rhaid cadw'r tabl uchod a'r Llyfryn Cofnodi Plaladdwyr, lle bo'u hangen, yn gywir a gofalu eu bod ar gael yn rhwydd i'w harchwilio. Rhaid defnyddio'r un rhifau caeau a dalenni OS â'r rheini sydd wedi'u wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

# Atodiad  3: Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Fel un o amodau Glastir, bydd yn rhaid ichi sicrhau'r canlynol:**

Rhaid ichi gydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad i'r cyhoedd, fel mynediad agored.

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cynnwys llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffyl, isffyrdd cyfyngedig ac isffyrdd sy'n agored i bob traffig.  Mae'ch dyletswyddau cyfreithiol wedi'u crynhoi isod.

Dylai perchnogion a deiliaid tir:

- gadw'r hawliau tramwy yn glir o unrhyw rwystr, gan gynnwys gatiau wedi'u cloi, sbwriel, weiren bigog, slyri, tail, ffensys trydan a llwyni perthi;
- torri unrhyw lystyfiant sy'n ymledu o'r ochrau (ond nid o'r wyneb) ac oddi uchod, fel na fydd yn amharu ar y cyhoedd nac yn cuddio llwybr yr hawl tramwy ar y llawr (ar lwybrau ceffyl, dylai fod 3 metr (10 troedfedd) o le uwch eich pennau);
- cadw'r llwybrau'n ddi-gnwd (heblaw gwair a silwair) rhag creu anghyfleustra i ddefnyddwyr;
- gofalu bod camfeydd, gatiau a mesurau eraill i reoli stoc ar draws hawliau tramwy yn cael eu cadw mewn cyflwr da: gall y deiliad hawlio o leiaf cyfraniad o 25 y cant o gost unrhyw waith oddi wrth yr awdurdod priffyrdd (mae rhai awdurdodau'n darparu deunydd, er enghraifft pecyn camfeydd, ac mae rhai yn gwneud y gwaith eu hunain);
- gofalu nad yw llwybrau ar draws caeau ond yn cael eu trin (h.y. eu haredig neu aflonyddu arnynt) os bydd hi'n anghyfleus eu hosgoi;
- gofalu bod llwybrau a llwybrau ceffyl ar hyd ymylon caeau a phob isffordd yn agored i'r defnyddwyr perthnasol;
- os na fydd hi'n gyfleus osgoi trin llwybr neu lwybr ceffylau sy'n croesi cae, gofalu'ch bod yn adfer o leiaf lled lleiaf ei arwyneb fel ei bod yn rhesymol o gyfleus ei ddefnyddio o fewn 14 diwrnod ar ôl ei drin y tro cyntaf ar gyfer y cnwd hwnnw, neu o fewn 24 awr ar ôl unrhyw waith trin wedi hynny (oni bai'ch bod wedi dod i gytundeb ysgrifenedig â'ch awdurdod priffyrdd ar gyfnod hirach);
- gofalu bod llwybrau dros dir wedi'i drin yn para'n amlwg ar y llawr, hyd at ei led lleiaf o leiaf bob amser ac nad oes cnydau yn eu rhwystro: (heblaw am wair neu silwair);
- gofalu nad oes teirw <u>mwy na 10 mis oed</u> yn cael eu cadw mewn cae y mae llwybr yn ei groesi neu gofalwch nad ydynt o frid godro cydnabyddedig, a bod ganddynt fuchod neu dreisiedi (heffrod) yn gwmni iddynt;
- gofalu bod unrhyw arwyddion sy'n dweud am bresenoldeb tarw ond yn cael eu dangos pan fo tarw yn y cae;

- peidio byth â chadw anifail rydych yn gwybod sy'n ymosodol (gan gynnwys unrhyw darw, waeth beth yw ei frid) mewn cae y mae gan y cyhoedd hawl i fynd iddo;

- codi arwyddion cyfeirio (lle bo deiliaid yn credu fod hynny'n angenrheidiol ac yn ddymunol);

- gofalu nad oes arwyddion camarweiniol yn cael eu codi ger hawliau tramwy a allai gadw pobl rhag eu defnyddio: mae gan awdurdodau priffyrdd o dan Adran 57 y Parciau Cenedlaethol a'r Ddeddf Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yr hawl i dynnu arwyddion o'r fath i lawr.

**Os hoffech fwy o wybodaeth, cyngor neu ganiatâd ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar draws eich tir, cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol neu Awdurdod eich Parc Cenedlaethol.**

**Am ragor o wybodaeth am reoli mynediad i'r cyhoedd a'ch cyfrifoldebau** (gan gynnwys y rheini am Hawliau Tramwy Cyhoeddus, mynediad agored a llwybrau â chaniatâd), darllenwch hefyd gyhoeddiad Cyfoeth Naturiol Cymru *Rheoli Mynediad Cyhoeddus,* sydd ar gael trwy www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Cofrestr tir mynediad agored Cymru**

Fel un o ofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000), mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw cofrestr ar-lein . Cewch ei gweld trwy fynd ar y ddolen isod:

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

# Atodiad 4: Manylebau Technegol ar gyfer Gwaith Cyfalaf

## 1. Ffensys

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol ar gyfer y gwaith ffensio sy'n cael ei wneud fel rhan o'r cynllun.

Rhaid i'r ffensys fod wedi'u gwneud o bren caled o goetiroedd yng Nghymru neu o bren meddal wedi'i drin dan wasgedd. Bydd unrhyw bren a ddefnyddir yn para am o leiaf 10 mlynedd.

**Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu na physt ffensio a pheidiwch â'u defnyddio chwaith i gynnal gwifrau, staplau na rhwydi ffensio.**

Rhaid i bren ffensio, gwifrau llinell, rhwydi a staplau a ddefnyddir i adeiladu ffensys cymeradwy bob amser fod wedi'u gwneud o ddeunydd newydd. Rhaid i'r holl ddeunyddiau a safonau adeiladu hefyd gydymffurfio â'r manylebau manwl canlynol yn ogystal â Safonau Prydeinig 1722 a 4102.

### Ffensys Postyn a Gwifren

Rhaid i ffensys postyn a gwifren gynnwys o leiaf dair llinell o weiren unigol wedi'u gwneud naill ai o weiren ddur feddal galfanedig (trwch 4mm) neu weiren bigog deugainc wedi'i throelli (trwch 2.5mm). Gofalwch fod yr weiren uchaf ar unrhyw ffens sydd wrth ochr llwybr cyhoeddus yn un blaen neu rhaid gosod llinell o weiren blaen ychwanegol ar ochr y pyst sydd agosaf at y llwybr dan sylw.

Rhaid i byst tynnu fod o leiaf 12.5cm ar eu traws ac o leiaf ddau fetr o hyd gydag un metr o hwnnw o dan y ddaear. Rhaid gosod pyst tynnu bob pen y ffens a phob 100 metr neu lai ar hyd y ffens yn ogystal â phob man lle mae llinell y ffens yn codi neu'n disgyn, neu'n newid cyfeiriad.

Rhaid gosod pwyslathau (sbwrlasau) ar byst tynnu sydd bob pen y ffens ac ym mhob man lle mae llinell y ffens yn codi neu'n disgyn neu'n newid cyfeiriad. Rhaid sicrhau bod gan dop y bwyslath ddiamedr o 6.5cm fan leiaf a rhaid ei chynnal â phlât gwaelod neu bostyn cynnal wedi'i roi mewn man addas.

Ni ddylai pyst cynnal fod yn llai na 6.5cm ar eu traws (pyst crwn a phren wedi'i lifio) a dylent fod o leiaf 1.7 metr o hyd. Mae pyst hanner crwn yn dderbyniol cyhyd â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o ganol yr ochr a lifiwyd i ganol yr ochr crwn.

Rhaid gosod pyst cynnal bob 3 metr neu lai. Rhaid defnyddio staplau galfanedig i gysylltu unrhyw wifrau â'r pyst ac ni ddylai'r pellter rhwng y ddaear a'r wifren uchaf fod yn llai na 1.05 metr.





Diagram o ffens tair gwifren

## Ffensys Netin ar gyfer Stoc

Rhaid diogelu unrhyw ffensys netin ar gyfer stoc drwy eu galfaneiddio ac mae'n rhaid gosod o leiaf un weiren uwchben y netin.  Ni ddylai'r pellter rhwng y ddaear a'r wifren uchaf fod yn llai nag 1.05m. Os oes defaid neu wartheg yn pwyso'n drwm ar y netin, ychwanegwch ail wifren ar ben y netin yn ogystal â gwifren ychwanegol ar y gwaelod. Defnyddiwch staplau galfanedig i gysylltu’r netin a gwifrau wrth y pyst.





Diagram o ffensys netin ar gyfer stoc

Gallwch ddefnyddio ffens postyn a rheilen hefyd os bydd hynny'n well  – er enghraifft lle mae ceffylau yn cael eu pori. Rhaid defnyddio netin gyda’r pyst a rheiliau i sicrhau bod yr holl stoc yn cael eu cadw allan.

## 2. Creu Pwll

### Creu Pwll Newydd

Gall pyllau neu grafiadau newydd ddod â lles mawr i anifeiliaid gwyllt, ond byddwch yn debygol o golli'r manteision hyn os bydd gwaith eu hadeiladu yn dinistrio cynefinoedd natur eraill megis glaswelltir gwlyb. Mae adeiladu a chynnal pwll yn gofyn am waith crefftus ac os medrwch, dylech ofyn cyngor arbenigwr cyn dechrau ar y gwaith.

Efallai y bydd angen cael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Lleol neu drwydded cronni a/neu dynnu dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i greu pyllau newydd ar dir amaethyddol. Chi sy'n gyfrifol am ofalu'ch bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol.

### Dewis safle

Ystyriwch werth presennol y safle o ran bywyd gwyllt - gallai fod yn fwy gwerthfawr heb bwll. Dewiswch lain o dir sy'n gymharol segur, sy'n bell o adeiladau a pheidiwch â dewis safle lle gallai gwrtaith gael ei olchi iddo a gorfaethu'r pwll. Byddwch yn ymwybodol o beryglon tanddaear ac uwch y ddaear fel ceblau trydan.

Ceisiwch ei gysylltu â chynefinoedd sy'n bod eisoes megis glaswelltir heb ei wella a phrysgwydd. Mae llawer o rywogaethau pyllau megis madfallod dŵr ac amffibiaid eraill ond yn treulio rhan o'u bywydau mewn dŵr ac mae angen amodau addas arnynt ar dir sych i gwblhau eu cylch bywyd.

Mae'n well peidio â lleoli pwll wrth goed uchel am y gallai dail yr hydref achosi problemau a llawer o siltio. Bydd gofalu bod y pwll yn agored tua'r de yn golygu y gall haul y gwanwyn gynhesu'r dŵr, ond bydd peth prysgwydd a'r cysgod y mae'n ei roi, yn debygol o fod yn fuddiol.

### Y cyflenwad dŵr

Gofalwch nad yw tarddiad y dŵr wedi'i lygru a lle bo hynny'n bosibl, dylai fod ar gael drwy'r flwyddyn. Peidiwch â defnyddio dŵr o ddraeniau caeau os medrwch, rhag ofn eu bod yn cario gwrtaith o dir cyfagos.

### Y gwaith adeiladu

Bydd gennych fwy o reolaeth ar lifogydd y gaeaf a lefelau siltio os nad ydych yn adeiladu'ch pwll ar nant. Ond os ydych yn creu pwll ar nant, adeiladwch bwll siltio llai o faint i fyny'r nant o'r prif bwll a charthu graean a silt ohono'n rheolaidd.

Mae pridd anhydraidd (yn dal dŵr) fel clai yn ddelfrydol i grynhoi dŵr. Gyda phridd hydraidd (y gall dŵr lifo trwyddo) fel siâl, efallai y bydd angen gosod leinin artiffisial neu dod â chlai o rywle arall, a gall hynny fod yn ddrud. Palwch dyllau prawf cyn dechrau ar y gwaith i weld a yw'r pridd yn dal dŵr.

Os medrwch, defnyddiwch y pridd rydych eisoes wedi'i gloddi i dirlunio'r safle am y byddai'n ddrud dod â phridd o rywle arall. Bydd y pwll yn haws ei adeiladu os nad oes angen codi arglawdd.

### Maint a siâp

Gall pyllau mawr ddarparu amrywiaeth ehangach o gynefinoedd, ond bydd nifer o byllau bach yn cynnig amrywiaeth o amodau ac efallai felly'n fwy gwerthfawr i fywyd gwyllt. Gwnewch 'ymyl' y pwll yn hirach trwy greu glan afreolaidd gyda thrwynau a baeau bach i roi mwy o gysgod i fywyd gwyllt. Bydd llystyfiant sy'n codi o'r dŵr yn rhoi cysgod rhag y gwynt a'r haul.





Diagram – croestoriad o bwll

**Dyfnder a phroffil** Dylai fod llawer o ddŵr bas yn y pwll, sy'n graddol ddisgyn i rannau dyfnach y pwll. Bydd planhigion sy'n codi o'r dŵr yn tyfu yn yr ymylon bas a'r glannau lleidiog ac maent yn hynod werthfawr i infertebrata fel gweision y neidr.

Mae rhannau o'r pwll lle mae'r dŵr yn ddyfnach yn llai tebygol o sychu yn yr haf ac yn rhoi lloches i rywogaethau nad ydynt yn gallu dygymod â newidiadau mawr yn eu hamodau.

**Stocio a phlannu**
Fel arfer bydd llystyfiant o'r wlad o amgylch yn cydio'n gyflym a dylech adael i blanhigion ymgartrefu'n naturiol yn y pwll, cyhyd ag y medrwch. Os bydd angen cyflymu'r broses, dewch â bwcedaid neu ddau o ddŵr o bwll llwyddiannus gerllaw.

Bydd y dŵr hwn yn cynnwys hadau yn ogystal ag amrywiaeth o infertebrata. Gofalwch mai dim ond planhigion brodorol sy'n cael eu cyflwyno i'r pwll gan osgoi rhywogaethau goresgynnol fel cynffon y gath ac alaw Canada a fydd yn meddiannu'r pwll yn gyflym. Yn ddelfrydol, dylech gymryd planhigion o bwll gerllaw lle mae'r llystyfiant wedi tyfu'n wyllt.

Bydd llystyfiant uchel sy'n codi o'r dŵr yn yr ymylon bas megis glaswellt hir yn darparu cysgod da i adar dŵr. Gellir gadael i brysgwydd, gan gynnwys helyg, mieri ac eithin, dyfu ar ymylon gorllewinol a gogleddol y pwll er budd bywyd gwyllt a'r dirwedd. Mae canghennau sy'n hongian dros y pwll yn glwydi da i adar.

**Rhagor o Wybodaeth**
Am ragor o ganllawiau ar greu a chynnal a chadw pwll a gwybodaeth am ganiatâd cynllunio ac ati ewch i wefan creu pyllau www.pondconservation.org.uk.

## 3. Giardiau coed ar gyfer coed mewn perllannau neu goed unigol

Rhaid clymu coed ifanc unigol a choed ifanc mewn perllannau wrth bostyn a'u hamddiffyn rhag da byw sy'n pori trwy godi giard amdanynt.
Bydd dewis giard coeden yn dibynnu ar y canlynol :

- Maint y goeden sydd i'w hamddiffyn.
- Y math o niwed a ddisgwylir, e.e. brigdorri, cnoi rhisgl, rhwbio.
- Y math o anifail sydd fwyaf tebygol o achosi'r niwed.
- Yr adeg pan fydd y goeden mewn perygl o gael ei niweidio.
- Golwg y giard.

**Lleoli Giardiau a'u Huchder**
Rhaid i unrhyw giardiau sydd wedi'u gwneud o reiliau pren fod o leiaf 1.2 metr o uchder a rhaid eu gosod o leiaf fetr o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5 metr i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau).


**Adeiladu**
Defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i adeiladu strwythur cadarn. Gosodwch netin o'i amgylch i rwystro da byw rhag mynd at y goeden. Bydd y rheiliau llorweddol yn rhwystro'r pyst rhag llacio. Mae'n bosibl y bydd amrywiaeth o stoc yn defnyddio'r tir parc felly rhaid i'r giard fod yn ddigon cryf i ymdrin â'r sefyllfa waethaf bosibl a allai godi. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden drwy ogwyddo'r pyst tuag allan. Bydd hynny yn ei gwneud yn anodd gosod y netin yn gadarn yn ei le.


Nid oes angen gosod weiren bigog ar ben y darn sydd wedi'i amgáu gan y giard gan na fydd yn debygol o rwystro anifeiliaid rhag pwyso dros y rheilen uchaf, a bydd yn ei gwneud yn anoddach ichi fynd at y goeden i'w thrin. Hefyd, gallai'r weiren bigog eich anafu chi a'ch da byw.

**Cynllun**
Dim ond mewn tiroedd parc lle mae defaid yn unig yn cael eu cadw y bydd giardiau trionglog yn dderbyniol. Dylai'r rheini fod o leiaf 1.2m o uchder ac o leiaf 0.8m o led. Mae'n bwysig cofio, wrth i'r goeden dyfu, ei bod yn bosibl y bydd angen symud y giard i roi mwy o le iddi.

Giardiau sgwâr neu hirsgwar yw'r cynllun a ffefrir. Dylai diamedr pob un o'r pedwar postyn cornel fod o leiaf 10cm x 10cm. Dylid gosod o leiaf bedair rheilen bren â diamedr o o leiaf 10cm x 5cm ar ochr allanol y pyst. Wedyn dylid gosod netin galfanedig o amgylch y strwythur a'i ddal yn ei le â staplau galfanedig. Hefyd, gellir gosod set ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i'w hatgyfnerthu. Rhaid i unrhyw bren, netin a staplau fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau newydd. Rhaid defnyddio pren meddal wedi'i drin dan wasgedd neu bren caled o goetir yng Nghymru neu ran arall o Brydain.

Dylech reoli chwyn o amgylch gwaelod coed ifanc am ddwy i dair blynedd i'w helpu i gydio. Argymhellir eich bod yn chwynnu â llaw. Dylid llacio rhwymau coed bob blwyddyn.



## 4. Blychau Bach

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio safon y gwaith sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Opsiwn Rheoli i osod blychau adar neu ystlumod newydd.

### Blychau Adar

Am fod llai a llai o safleoedd nythu ar gael - o ganlyniad i golli hen goed yn sgil twf y trefi, clirio coetir a pherthi/gwrychoedd, a gofynion coedwigaeth fodern - mae darparu blychau nythu o werth cadwraethol mawr.

Mae blychau adar wedi'u gwneud o bren fel arfer, ond peidiwch â defnyddio pren wedi'i drin dan wasgedd CCA am y gall y trwytholchion wneud drwg i'r adar; mae estyll tua 2cm o drwch yn sicrhau bod y blychau yn ddigon cryf ac wedi'u hinswleiddio'n ddigonol. Mae tyllau draenio yng ngwaelod y blwch yn hanfodol, a gellir trin blychau pren meddal, ar y tu allan yn unig, â chadwolion dŵr sydd ddim yn beryglus i anifeiliaid e.e. Sadolin, i ymestyn eu hoes. Gosodwch blatiau metel o amgylch tyllau mynediad blychau hyd at a chan gynnwys 32mm, i amddiffyn blychau i adar mân rhag cnocellau a gwiwerod. Gofalwch fod blychau yn cael eu cysgodi rhag y prifwynt, glaw a haul cryf. Mynedfa sy'n wynebu rhywle rhwng y Gogledd a'r Dwyrain sydd orau.

### Blychau i Adar sy'n Nythu mewn Tyllau

Gall y rhain gael eu defnyddio gan rywogaethau sy'n nythu mewn tyllau megis titw mawr, titw tomos las, titw penddu, titw'r wern, delor y cnau, gwybedog brith, tingoch, aderyn y to a golfan y mynydd.

### Adeiladu

Mae'r blwch sylfaenol yn cael ei wneud o estyllen arw 130cm x 15cm x 2cm o drwch. O ddilyn y diagram torri, mae'n gymharol hawdd ei adeiladu. Mae'r uniadau yn cael eu dal at ei gilydd â sgriwiau neu hoelion hirgrwn 5cm, ond peidiwch â hoelio'r clawr i lawr am y bydd angen ei dynnu bob blwyddyn i lanhau'r blwch. Gosodwch y twll mynediad ar y tu blaen am y bydd y to bargodol yn rhoi mwy o amddiffyniad iddi, a dylai fod o leiaf 125mm o waelod y blwch.

Gellir gosod colfach metel di-rwd neu blastig (darn o hen deiar beic) ar y clawr neu ei ddal o dan gantel fetel. Os felly dylech osod bloc cynhaliol bach addas mewn man priodol ar du isaf y to). Bydd twll mynediad 3cm ar ei draws yn addas i'r rhan fwyaf o rywogaethau.

25mm ar gyfer titw tomos las, titw penddu a thitw'r wern.
28mm ar gyfer y titw mawr, golfan y mynydd a gwybedog brith.
32mm ar gyfer adar y to a delor y cnau.
45mm ar gyfer drudwy.

### Lleoli

Yn achos y rhan fwyaf o'r rhywogaethau, gellir gosod blychau ar goed neu adeiladau rhwng 1.2 a 5 metr uwchben lefel y ddaear. Dylech asesu pa mor gyfleus yw'r blychau i'w harchwilio (pan fydd angen) yn erbyn yr angen i ddiogelu'r blychau rhag pobl ac anifeiliaid ysglyfaethus.

### Blychau â Blaen Agored

Mae cynllun blwch nythu â blaen agored yn addas i'r robin goch a'r siglen fraith ac o'i osod yn y lle iawn, gallai gael ei ddefnyddio gan y tingoch, y dryw, y siglen lwyd a bronwen y dŵr.

**Adeiladu**

Dengys y diagram torri sut y gellir gwneud blwch â blaen agored o estyllen arw o bren 2cm, sy'n 120cm o hyd a 15cm o led. Mae blychau â blaen agored ychydig yn fwy o faint, gydag arwynebedd o 17.5cm sgwâr a thu blaen sy'n 22.5cm o uchder, wedi'u defnyddio'n llwyddiannus i ddenu bronwennod y dŵr. Bydd siglennod llwyd yn defnyddio blychau tebyg sydd wedi'u gosod mewn mannau addas.

**Lleoli**


Mae angen bod yn ofalus wrth osod blychau â blaen agored. Mae'n well gan y robin goch a'r dryw flychau sydd wedi'u gosod mewn mannau cuddiedig yng nghanol llystyfiant ar ochr boncyffion, waliau gerddi, tai, ond gall hyn olygu bod y nyth yn fwy agored i anifeiliaid ysglyfaethus. Bydd y siglen fraith yn defnyddio blychau â blaen agored mewn mannau mwy agored.

Blaen 100mm o uchder ar gyfer robin goch a'r siglen fraith
Blaen 140mm o uchder ar gyfer y dryw
Blaen 60mm o uchder ar gyfer gwybedog mannog

**Blychau Arbenigol**

Mae angen addasu cynlluniau blychau ar gyfer adar megis gwybedog mannog a'r dringwr bach yn ogystal â rhywogaethau mwy o faint megis cnocellau'r coed.  Ewch i wefan yr RSPB www.rspb.org.uk am ragor o fanylion.

**Diagramau torri ar gyfer blychau bach**




Mae'r holl fesuriadau mewn mm

**Strapiwch y blwch wrth goeden neu defnyddiwch hoelion heb ben neu hoelion alwminiwm crwm (sy'n llai niweidiol i lifiau a pheiriannau asglodi). Peidiwch â gyrru'r hoelion yr holl ffordd i mewn i'r goeden er mwyn i'r goeden allu gwthio'r blwch heb ei hollti.**

**Atgynhyrchir y diagramau uchod gyda chaniatâd caredig Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. Ceir manylion pellach yng Nghanllaw Rhif 23 BTO. 'Nestboxes' gan Chris de Feu**.

### Blychau Ystlumod

Mae ystlumod yn ymgartrefu ar safleoedd clwydo newydd addas yn gyflym ar ôl eu harchwilio wrth chwilio am fwyd.  Gall blychau a osodir ar goed neu adeiladau ddenu ystlumod, yn enwedig os ydyn nhw wedi’u gosod mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw fannau clwydo ond sy'n agos at fannau bwydo.

### Adeiladu

Defnyddiwch bren meddal heb ei drin am fod cemegau pren yn niweidiol i ystlumod. Mae pren garw yn galluogi ystlumod i lanio a chropian dros y blwch i'w archwilio. Ni ddylai'r pren fod yn llai na 2.5cm o drwch, a dylai'r blwch ei hun fod yn ddiogel rhag glaw a drafftiau.  Dylai'r agen fynediad fod rhwng 1.5cm a 2.0cm o led ac wedi'i lleoli o dan y blwch, naill ai yn y blaen neu yn y cefn.

Dylai gwaelod y blwch fod yn 15cm o led.  Gellir cysylltu'r clawr â'r plât cefn gan ddefnyddio bachau a dolenni neu gellir defnyddio rhigol i'w ddal yn ei le.  Defnyddiwch lud gwrth-ddŵr, sgriwiau neu hoelion i ddal y blwch at ei gilydd. Gweler y diagram am y mesuriadau.

Strapiwch y blwch wrth goeden neu defnyddiwch hoelion heb ben neu hoelion alwminiwm crwm (sy'n llai niweidiol i lifiau a pheiriannau asglodi). Peidiwch â gyrru'r hoelion yr holl ffordd i mewn i'r goeden er mwyn i’r goeden allu gwthio’r blwch heb ei hollti.


### Lleoli


Gosodwch y blwch mewn man lle rydych yn gwybod y mae ystlumod yn hela a lle mae prinder mannau clwydo eraill. Dewiswch fannau cysgodol o’r gwynt, ond sy'n agored i'r haul am ran o'r diwrnod.  Mae rhodfeydd a llennyrch mewn coetiroedd, neu wrth ymyl cors, pwll neu afon yn fannau delfrydol.

Peidiwch â gosod y blwch wrth ganghennau ymwthiol er mwyn i’r ystlum allu cyrraedd mynedfa'r blwch yn syth ac yn ddirwystr.  Mae'n well gan ystlumod mawr, cyflym sy'n hedfan yn uchel fannau clwydo sydd fwy na phum metr uwchben y ddaear, tra bod ystlumod clustiog ac ystlumod lleiaf yn defnyddio blychau sydd mor isel ag 1.5m uwchben y ddaear.

### Monitro

Bydd ystlumod yn aml yn defnyddio blychau i glwydo ynddyn nhw dros dro am ychydig o flynyddoedd cyn bridio ynddynt.  Diogelir ystlumod a'u mannau clwydo o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n ei gwneud yn drosedd i aflonyddu ar ystlumod, eu trafod neu eu lladd. Edrychwch fin nos i weld a oes ystlumod yn clwydo yn y blwch ond unwaith y byddwch wedi cadarnhau bod ystlumod yn defnyddio'r blwch bydd angen i chi gael trwydded i'w harchwilio. Peidiwch ag archwilio blychau rhwng mis Mehefin a chanol mis Awst pan fydd ystlumod yn geni’r rhai bach ac yn rhoi llaeth. Os bydd y blwch yn segur am ddwy neu dair blynedd, symudwch ef i le newydd.




Bwlch 15-20mm o led O'r blaen O'r ochr



Blychau'n sownd wrth goeden




Trychiad yn dangos lleoliad blychau ystlumod

## Manylion adeiladu blychau ystlumod

**PEIDIWCH Â DEFNYDDIO CADWOLION AR BREN – MAEN NHW'N WENWYNIG.**

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith y gallwch fod yn ei wneud o dan eich Contract Glastir Sylfaenol cyn dechrau arno. Ym mhob achos, deiliad y Cytundeb sy'n gyfrifol am gysylltu â'r awdurdod perthnasol i gael y caniatâd neu'r drwydded angenrheidiol. Ni fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gael y caniatâd neu'r drwydded sydd ei hangen. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion diogelwch pan fyddwch yn gwneud unrhyw waith. Gall eich LANTRA lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch roi cyngor i chi ar hyn. Bydd angen i chi drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus hefyd.

## 5. Blychau Nythu Tylluanod Gwynion

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio safon y gwaith sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Opsiwn Rheoli i osod blychau adar neu ystlumod newydd.

Nid yw'r dylluan wen yn aderyn coetir. Mae'n hela yn bennaf dros laswelltir garw, ffosydd, perthi a gwrychoedd sy'n cynnal llawer o famaliaid bach. Mewn ardaloedd lle y ceir digon o fwyd ond prinder safleoedd nythu addas gall darparu blychau nythu fod o fudd mawr. Bydd y dylluan wen yn dodwy rhwng pedwar a saith wy ym mis Mai dros gyfnod o 8 i 21 diwrnod. Mae'r wyau yn cymryd tua 31 diwrnod i ddeor a bydd y cywion yn dechrau hedfan ymhen tua 10 wythnos.

Mae’r rhan fwyaf o flychau yn cael eu gosod y tu mewn i adeiladau ond gall blychau nythu awyr agored mewn coed hefyd fod yn llwyddiannus. Cofiwch, mae’n anghyfreithlon aflonyddu heb drwydded addas ar dylluanod gwynion pan fyddant yn magu.

### BLYCHAU DAN DO

#### Adeiladu

Dylech ddefnyddio pren haenog 9mm fel y dangosir yn y diagram. Gosodwch do y gallwch ei dynnu er mwyn ichi allu glanhau'r tu mewn.

#### Lleoli

Gosodwch y blwch mor uchel ar yr adeilad â phosibl, ond gan adael digon o le i dynnu'r clawr. Mae uchder o 3 metr yn ddelfrydol.


Gosodwch y blwch mewn man cwbl sych ac mewn lle addas fel bod gan y dylluan lwybr hedfan clir o fynedfa’r adeilad i’r blwch.

Os oes modd, gosodwch y blwch fel bod y cywion, wrth iddynt adael y nyth, yn gallu cerdded ar drawstiau neu arwynebau gwastad eraill. Dylai’r cywion hefyd fod yn gallu defnyddio'r llwyfan glanio ar flaen y blwch.

Nid oes angen rhoi unrhyw leinin yn y blwch am y bydd yr wyau yn cael eu gori ar ddeunydd y pelenni y bydd y dylluan wedi’u cyfogi.

**BLWCH TYLLUAN WEN DAN DO**

To sy'n gallu codi, yn gorwedd ar estyll y tu mewn



## BLYCHAU AWYR AGORED

### Adeiladu

Dylai'r rhain fod wedi'u gwneud o bren haenog 15 – 20mm a byddwch wedi rhoi dwy haenen o gadwolyn arno cyn adeiladu'r blwch. Rhaid drilio tyllau draenio (tua 1cm ar eu traws) yn y llawr ym mhob un o'r corneli.


### Lleoli

Mae llwyddiant y blwch yn dibynnu ar y safle a ddewisir yn ogystal â lleoliad y blwch ar y safle hwnnw. Rhaid i'r blwch wynebu tir agored fel bod y fynedfa yn amlwg i dylluan sy'n mynd heibio. Os nad oes modd gweld y fynedfa, nid yw'n debyg y caiff y blwch ei ddefnyddio.


Peidiwch â gosod y blwch fel ei fod yn wynebu'r prifwynt a glaw. Fel arfer mae hyn yn golygu na ddylai fod yn wynebu'r gorllewin na'r de-orllewin.

Gellir gosod blychau ar goed neu adeiladau. Rhag niweidio coed, dylech glymu estyllen wrth y boncyff gan ddefnyddio cortyn a hoelio neu sgriwio'r blwch i'r estyllen.

### BLWCH AWYR AGORED A



## BLWCH AWYR AGORED B




Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith y gallwch fod yn ei wneud o dan eich Contract Glastir Sylfaenol cyn dechrau arno. Ym mhob achos deiliad y Cytundeb sy'n gyfrifol am gysylltu â'r awdurdod perthnasol i gael y caniatâd neu'r drwydded angenrheidiol. Ni all Llywodraeth y Cynulliad fod yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gael y caniatâd neu'r drwydded sydd ei hangen. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion diogelwch pan fyddwch yn gwneud unrhyw waith. Gall eich LANTRA lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch roi cyngor i chi ar hyn. Bydd angen i chi drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus hefyd.